

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Fay Bowen

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

Hybrid

(Rhag-gyfarfod preifat)

(9.00 – 9.30)

(Cyfarfod cyhoeddus)

(9.30 – 11.35)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(9:30)

2 Papurau i'w nodi

(9.30 – 10.00)

2.1 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Ynni a Thrafnidiaeth gyda diweddariad ar Faes Awyr Caerdydd.

(Tudalennau 1 – 8)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN1 – Llywodraeth Cymru – Diweddariad 6 misol Maes Awyr Caerdydd

2.2 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ar ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i Faes Awyr Caerdydd

(Tudalennau 9 – 11)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN2-Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Ynni a Thrafnidiaeth sr Faes Awyr Caerdydd (Saesneg yn unig)

- 2.3 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar Faes Awyr Caerdydd**

(Tudalennau 12 – 15)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Prif Weinidog

- 2.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar adroddiad y Pwyllgor ar Gomisiynwyr Cymru**

(Tudalennau 16 – 17)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar adroddiad y Pwyllgor ar Gomisiynwyr Cymru

- 2.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar Lywodraeth Cymru yn caffael cerbydau trydan**

(Tudalen 18)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar gaffael cerbydau trydan Llywodraeth Cymru

- 2.6 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol 2022-23**

(Tudalennau 19 – 22)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)-13-24-PTN6 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol 2022-23

2.7 Llythyr gan CLILC at Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas â chefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

(Tudalennau 23 – 27)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–PTN7 Llythyr gan CLILC at Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas â chefnogi Ukrainians yng Nghymru (Saesneg yn unig)

2.8 Llythyr gan y Prif Swyddog Fferyllol at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

(Tudalennau 28 – 31)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–PTN8 Llythyr gan y Prif Swyddog Fferyllol at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

2.9 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y grwp Llywodraeth Leol, Tai a Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar adroddiad Archwilio Cymru ar dai fforddiadwy yng Nghymru

(Tudalennau 32 – 45)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–PTN9–Adroddiad Archwilio Cymru Tai Fforddiadwy – Llythyr a Ymateb Llywodraeth Cymru

(Egwyl)

(10.00 – 10.05)

3 Sesiwn Dystiolaeth – Maes Awyr Caerdydd

(10.05 – 11.35)

(Tudalennau 46 – 79)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Andrew Slade – Gyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Stephen Rowan – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol

Swyddogion Maes Awyr Caerdydd

Spencer Birns – Prif Swyddog Gweithredol

Wayne Harvey – Cadeirydd

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–P1–Briff Ymchwil – Maes Awyr Caerdydd

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.35)

5 Ystyried Tystiolaeth – Maes Awyr Caerdydd

(11.35 – 11:50)

6 Adroddiad Archwilio Cymru – Tai Fforddiadwy

(11:50 – 12.10)

(Tudalennau 80 – 136)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–P2–Adroddiad Archwilio Cymru – Tai Fforddiadwy

7 Archwilio Cymru – Adroddiadau adolygu Llywodraeth Leol

(12.10 – 12.30)

(Tudalennau 137 – 193)

Dogfennau atodol:

PAPAC(06)–13–24–P3–Adroddiad Archwilio Cymru – Adolygiad Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Leol

PAPAC(06)–13–24–P4–Adroddiad Archwilio Cymru – Defnyddio gwybodaeth am berfformiad safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Awst 2024

Annwyl Gadeirydd,

MAES AWYR CAERDYDD

Yn dilyn llythyr Tracey Burke atoch ar 14 Tachwedd 2023, ysgrifennaf i roi diweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd. Bydd y Pwyllgor am nodi fod cyfrifoldeb Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r maes awyr wedi dychwelyd ataf ym mis Ebrill eleni, pan wnaed newidiadau i strwythurau grwpiau ar draws Llywodraeth Cymru.

Adroddiadau chwarterol:

Rwyf wedi defnyddio'r un metrigau yn y diweddariad hwn ag a ddefnyddiwyd mewn diweddariadau blaenorol. Mae'r rhain yn gyson â'r adroddiadau chwarterol ar gyfer perfformiad y Maes Awyr yn erbyn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro.

Adroddiad cynnydd ar gyfer Chwarter pedwar (Ch4), sef y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024:

- Cyfanswm nifer y teithwyr oedd 138,836 ar gyfer y cyfnod o dri mis rhwng mis Ionawr a Mawrth 2024, a oedd 20,094 yn is na'r gyllideb ar gyfer y chwarter hwn. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod Ryanair wedi codi 22,486 yn llai o deithwyr na'r disgwyl. Nifer y teithwyr Hyd Yma yn ystod y Flwyddyn yw 861,920; 5% islaw'r gyllideb. Mae nifer y teithwyr Hyd Yma yn ystod y Flwyddyn wedi lleihau 5% (49k) o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol o ganlyniad i golli Wizz Air. Ar y llaw arall, mae Tui yn parhau i berfformio'n dda.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael 12 o adroddiadau chwarterol hyd yma ar y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro gan ei hasiant benthgy, Banc Datblygu Cymru.

- Mae Maes Awyr Caerdydd wedi tynnu £42m i lawr o'i grant cymorth Achub ac Ailstrwythuro gwerth £42.6m hyd yma, gyda'r gweddill i'w dynnu i lawr erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024.
- Y benthyciad a oedd yn weddill heb ei dalu ym mis Gorffennaf 2024 oedd £33.7m. Mae hyn yn cynnwys cyfalafu llog, a ychwanegir at y balans ar ddiwedd pob mis.
- Mae'r balans arian parod wedi para'n uchel oherwydd incwm uwch a chadw arian parod drwy reolaeth dynn iawn ar gostau a gwariant cyfalaf gohiriedig. Ar yr un pryd, sicrhawyd bod y Maes Awyr wedi parhau i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio ar gyfer gweithredu.
- Roedd yr incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024 tua 4% yn uwch na'r gyllideb. Sail y gyllideb iachach hon oedd incwm uwch o draffig a gweithgarwch masnachol er bod niferoedd y teithwyr y tu ôl i'r gyllideb.
- Nid yw'r Maes Awyr wedi dechrau gwneud elw blynyddol eto, yn ôl mesurau EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio). Ond llwyddwyd i gadw rheolaeth dda ar gostau sy'n golygu bod colled EBITDA ar gyfer y flwyddyn yn is na'r disgwyl. Ein targed yn y dyfodol o hyd yw sicrhau EBITDA cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn ac wedi cymeradwyo 15 o geisiadau am wariant cyfalaf rhwng £50,000 a £1m hyd yma gan y Maes Awyr, cyfanswm o £4.6m, ynghyd â thri chais dros £1m yr un, cyfanswm o £13.6m. Daw'r arian o gyllideb a rag-gymeradwywyd o ryw £29m, sydd wedi'i chlustnodi tan fis Mawrth 2026. Barnwyd bod yr holl fuddsoddiadau yn gostau sy'n hanfodol i ddiogelwch a/neu sicrwydd gweithredol er mwyn parhau i weithredu'r Maes Awyr.

Diweddariad ar dargedau perfformiad:

Disgrifiad o'r Targed	Dyddiad y dylid cyrraedd y targed	Y dystiolaeth sydd ei hangen	Diweddariadau
1.3m o deithwyr bob blwyddyn	31 Mawrth 2026	Adroddiad yn nodi nifer y teithwyr yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd i'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)	Mae Maes Awyr Caerdydd wedi adennill 52% o'r teithwyr a oedd ganddo yn 2019, gan gofnodi 860,000 o deithwyr drwy ei derfynfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf (31 Mawrth 2024). O ganlyniad i golli Wizz Air ar ddechrau 2023 a chanslo llwybrau fel llwybr Ryanair i Belfast ym mis Hydref, rhywbeth nas rhagwelwyd, mae'r Maes Awyr bellach ar drywydd i

			gyrraedd y targed o 1.3m o deithwyr erbyn 31 Mawrth 2028.
Sicrhau elw, a fesurir gan EBITDA (Enillion cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio)	31 Mawrth 2029	Set o gyfrifon archwiliedig	Nid yw'r Maes Awyr yn gwneud elw eto, yn ôl mesur EBITDA. Mae LBITDA (Colled cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) yn gyson â'r gyllideb, mae sicrhau EBITDA cadarnhaol yn darged ar gyfer y dyfodol.
Arbed o leiaf £500,000 mewn costau cyflog	Blwyddyn a ddaeth i ben o 31 Mawrth 2022	Adroddiad blynyddol	Llwyddodd y Maes Awyr i gyrraedd y targed o arbed o leiaf £500,000 yn y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.
Cynnal costau gweithredu yn unol â rhagolwg 11/02/21.	31 Mawrth 2029	Rhaid rhoi gwybod i Swyddog Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad chwarterol am unrhyw gynnydd a ragwelir o fwy na 5%.	Ar y cyfan, mae'r Maes Awyr yn parhau i gynnal costau gweithredu yn unol â rhagolwg 11/02/21. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod nifer o ffactorau yn dal i gael effaith ar y diwydiant hedfan gan gynnwys; mae pwysau chwyddiant, marchnad lafur dynn a gofynion rheoleiddio, sy'n parhau i fod yn heriau sylweddol i'r diwydiant hedfan wrth iddo geisio adfer. Felly y mae yn achos Maes Awyr Caerdydd hefyd.

Ymrwymiad i fod yn garbon niwtral: a) Ymrwymo i fferm solar weithredol ym maes awyr Caerdydd (neu ryw ffordd arall o ddefnyddio ynni'n effeithlon) b) Ymrwymiad i ddatblygu tanwydd hedfan cynaliadwy a'i gynnig i gwmnïau hedfan ym Maes Awyr Caerdydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. c) Ymrwymiad i sicrhau y bydd pob cerbyd a brynir yn y dyfodol yn un trydan neu hybrid (lle maent ar gael) d) Cynnig strwythur prisio (y gellir ei gyhoeddi) lle y mae disgownt ar ffioedd a thaliadau i'r cwmnïau hedfan hynny sy'n gweithredu'r awyrennau mwyaf effeithlon o ran tanwydd. e) Canolbwyntio ar wella llwybrau hedfan amgylcheddol.	31 Mawrth 2023	I'w ddiweddarau fel rhan o'r adroddiadau chwarterol.	Yr un yw'r sefyllfa â'r hyn a gyflëwyd i'r Pwyllgor yn llythyr Tracey dyddiedig 5 Mai 2023.
---	----------------	--	---

Ysgrifennodd Tracey Burke atoch ar 9 Mai 2023, dan orchudd cyfrinachol masnachol, i'ch diweddarau am y targed perfformiad arall. Nid yw'r sefyllfa honno wedi newid.

Nid yw'r naill barti na'r llall wedi cytuno ar unrhyw ddiwygiadau, mesurau newydd na thargedau mewn perthynas ag unrhyw un o'r targedau.

Sganwyr Diogelwch y Genhedlaeth Nesaf:

Mae CIAL yn disgwyl i sganwyr bagiau caban 3D y Genhedlaeth Nesaf newydd fod yn weithredol yn ddiweddarach eleni. Mae cryn dipyn o waith paratoi wedi'i wneud yn y maes awyr ac edrychwn ymlaen at weld y sganwyr newydd yn eu lle ym Maes Awyr Caerdydd er mwyn gwella profiad cwsmeriaid.

Bwrdd Cyfarwyddwyr WGC Holdco Limited:

Yn dilyn y diweddariad ym mis Tachwedd 2023, mae hefyd yn bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau diweddar i Fwrdd WGC Holdco Limited (Holdco), sef cwmni daliannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL).

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, cytunodd Gweinidogion Cymru ar ddau Gyfarwyddwr Anweithredol newydd ar gyfer Bwrdd Cyfarwyddwyr Holdco, yn lle'r ddau Uwch Was Sifil, ar ôl adolygiad o brosesau llywodraethu mewnol Holdco. Cadwyd swydd hefyd ar y Bwrdd ar gyfer un Uwch Was Sifil.

Er nad yw penodiadau i Holdco yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, dilynodd y broses ar gyfer penodiadau newydd egwyddorion Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus mor agos â phosibl ac fe wnaethon ni ymgynghori â'n Tîm Penodiadau Cyhoeddus er mwyn sicrhau uniondeb y broses benodi.

Nod y newidiadau hyn yw gwella arbenigedd busnes masnachol y Bwrdd a darparu mwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael mwy o werth am eu cyfranddaliaeth yn y maes awyr. Maent hefyd yn darparu cyfeiriad strategol cryfach i'r maes awyr; mwy o arbenigedd masnachol wrth graffu ar gynlluniau busnes y maes awyr a'u cymeradwyo; gwell sicrwydd o wariant ariannol a llywodraethiant yn y maes awyr, a gwell goruchwyliaeth o berfformiad gweithredol ac ariannol y maes awyr.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau'r penodiadau canlynol i'r Bwrdd:

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol aelod o Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru

Dr. Rhian Thomas – Cyfarwyddwr Anweithredol

Geraint Davies – Cyfarwyddwr Anweithredol

Yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, mae Reg hefyd wedi'i benodi'n Gadeirydd newydd Holdco yn dilyn pleidlais.

Rwyf wedi cynnwys bywgraffiadau cryno ar gyfer Reg, Rhian a Geraint yn yr Atodiad sydd wedi'i atodi.

Yn dilyn y penodiadau hyn, mae Jason Thomas a Dickie Davis wedi rhoi gwybod y byddant yn ymddiswyddo o'u rolau fel cyfarwyddwyr Holdco. Hoffwn ddiolch iddyn nhw a Chyfarwyddwr Anweithredol allanol blaenorol y Bwrdd, Stuart Castledine, am eu gwasanaeth ar y Bwrdd.

Mae gan Fwrdd Holdco gworwm ac mae wedi parhau felly drwy gydol y broses o benodi cyfarwyddwyr newydd.

Mae'r newidiadau uchod wedi'u hadlewyrchu ar gofnodion Tŷ'r Cwmnïau, y gellir eu gweld yn: <https://find-and-update.company-information.service.gov.uk/company/08455972/officers>.

Yn ogystal â'r diweddariad ar Holdco uchod, roeddwn hefyd am fanteisio ar y cyfle hwn i roi gwybod i'r Pwyllgor ein bod yn falch bod Bwrdd CIAL a WGC Holdco Limited wedi penderfynu

ailbenodi Wayne Harvey yn Gadeirydd CIAL am gyfnod arall o ddwy flynedd, o 1 Mehefin 2024.

Strategaeth Hirdymor ar gyfer Maes Awyr Caerdydd:

Bydd aelodau'r Pwyllgor wedi nodi o'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 22 Gorffennaf 2024, ein bod, wrth i'r pecyn achub ac ailstrwythuro penodol dynnu at ei derfyn, wedi bod yn gweithio â thîm arweinyddiaeth y Maes Awyr i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y busnes, yn canolbwyntio ar sut y gall y Maes Awyr gyfrannu at dwf economaidd a chynorthwyo i leihau anghydraddoldeb economaidd yn Ne Cymru. Er mwyn cyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cyllid buddsoddi ychwanegol hirdymor i'r Maes Awyr a byddant yn ceisio cymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer pecyn o hyd at uchafswm o £206m dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae copi o'r Datganiad ar gael yma: [Datganiad Gweinidogol](#).


Gan y byddai'r buddsoddiad yn y Maes Awyr yn cael ei gategoreiddio fel cymhorthdal o ddiddordeb penodol o dan weithdrefn cymorthdaliadau'r DU, bydd yn rhaid cyfeirio'n pecyn buddsoddi arfaethedig at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) er mwyn iddynt ei ystyried yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn digwydd dros gyfnod toriad yr haf a bydd yn cymryd sawl mis i'w gwblhau. Unwaith y bydd Ysgrifennyddion y Cabinet wedi cael cyfle i ystyried adroddiad y CMA ac yna wedi gwneud penderfyniad terfynol ar ffurf unrhyw becyn buddsoddi, byddant yn adrodd yn ôl i'r Senedd. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn gyda diweddariad cyn gynted ag y bydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud.

Yn ddibynnol ar ystyriaethau masnachol pwysig penodol, ein bwriad yw adrodd yn rheolaidd ar lif y cyllid i'r Maes Awyr a sicrhau bod canlyniadau economaidd y buddsoddiad yn cael ei fonitro'n agos. Yn yr un modd â'r pecyn achub ac ailstrwythuro presennol byddwn am gytuno ar weithdrefn adrodd â chi er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor hwn yn ymwybodol o gynnydd diweddaraf y Maes Awyr yng nghyd-destun unrhyw becyn buddsoddi newydd a roddir yn ei le gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd wedi cadarnhau fy argaeledd i fynychu sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 19 Medi. Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi y bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddweud yn gyhoeddus am fanylion y cais CMA oherwydd natur y broses, a pha wybodaeth fasnachol ychwanegol y gellir ei rhannu tra bod y rheoleiddiwr yn ystyried ein pecyn buddsoddi arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r Pwyllgor fod yn awyddus i archwilio ymhellach i rai agweddau ac rydym yn hapus o wneud hynny mewn sesiwn breifat, yn dilyn y sesiwn gyhoeddus, os yw hynny yn rhywbeth yr hoffai'r Pwyllgor ei ystyried.

Dymuniadau gorau.

Yn gywir



Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Atodiad – Bywgraffiadau

Reg Kilpatrick

Dechreuodd Reg ei yrfa gyda British Airways fel peiriannydd awyrennau cyn ennill gradd mewn Gwyddorau Ymddygiadol. Ar ôl graddio ymunodd â'r Swyddfa Gymreig fel ystadegydd a bu'n gweithio mewn nifer o feysydd gan gynnwys cyfarwyddo Cofrestrfa Canser Cymru, cyn rheoli cyllideb GIG Cymru a dyraniadau awdurdodau iechyd. Bu'n dal nifer o rolau polisi gan gynnwys goruchwyllo Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Yna bu'n gweithio'n agos gyda Chwmni Mileniwm Cymru gan helpu i sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol ac ariannol ar gyfer y prosiect cyn gweld y cam adeiladu yn dechrau.

Yna, bu Reg yn arwain Is-adran Cynllunio Ariannol Llywodraeth Cymru lle y bu'n cyfarwyddo strategaeth ariannol ac yn rheoli'r Adolygiadau blynyddol o Wariant. Symudodd i Bolisi Llywodraeth Leol a dod yn Gyfarwyddwr ar yr adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus lle y bu'n goruchwyllo cyllid, perfformiad a threfniadau llywodraethu llywodraeth leol, yn ogystal â'r gwasanaeth tân, diogelwch cymunedol, argyfyngau sifil a materion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol. Yn y rôl hon, bu'n cyfarwyddo Ymgyrch Yellowhammer yng Nghymru er mwyn paratoi ar gyfer ymadael â'r DU heb gytundeb a chafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol yn 2020 i gydgyssylltu'r ymateb trawslywodraethol i Bandemig COVID-19, gan symud yn ddiweddarach i ymgymryd â swydd Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol. Mae bellach yn arwain Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru

Rhian Thomas:

Mae Dr Rhian Thomas yn un o Gyfarwyddwyr yr ymgynghoriaeth Norwyaidd-Cymreig The Commercial Toolkit, lle mae'n arbenigo ym maes Rheoli Masnachol a Chontractau. Cyn ymuno â'r ymgynghoriaeth, bu'n gweithio yn y diwydiannau Awyrofod a Morol. Roedd hyn yn cynnwys gweithio i gwmni Rolls-Royce plc, gan arbenigo ym meysydd rheoli ceisiadau, negodi, risg a chontractio.

Fel ymarferydd Rheoli Masnachol profiadol, mae gwaith ymgynghori Rhian yn cwmpasu'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, gan helpu Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) a sefydliadau rhwyngwladol mwy o faint ledled y DU a Norwy i fanteisio ar gyfleoedd masnachol, datblygu trefniadau llywodraethu contractio cadarn a rheol risg fasnachol.

Mae gan Rhian brofiad eang ym maes llywodraethu yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru, gan gynnwys gofal iechyd a chyfleustodau, diwylliant a gwasanaethau ariannol cymunedol. Mae Rhian yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn Gadeirydd ar Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro ac yn Aelod o Glas Cymru (Dŵr Cymru).

A hithau'n Uwch-ddarlithydd mewn Strategaeth a Rheoli gynt, pan fu'n darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, mae gan Rhian PhD mewn Hanes Modern a graddau ychwanegol mewn Rheoli Busnes ac Iechyd Modern a Chanoloesol.

Geraint Davies CBE FCA:

Mae Geraint wedi bod yn un o Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr Elusen Gŵyl y Gellir a'r cyrff a'i rhagflaenodd ers wyth mlynedd.

Ar ôl 25 mlynedd fel partner gyda Grant Thornton gan orffen fel yr Uwch-bartner yng Nghymru a Gorllewin Lloegr, ymddeolodd Geraint ym mis Mehefin 2013. Ers hynny, bu'n dal nifer o rolau anweithredol yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Ymddiswyddodd fel un o Gyfarwyddwyr Maes Awyr Caerdydd ym mis Ebrill 2023 ar ôl treulio 10 mlynedd yn y rôl. Geraint yw Is-gadeirydd GCRE Ltd hefyd ar ôl cael ei benodi i'r rôl gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Mae hefyd yn aelod o sawl pwyllgor archwilio a risg gan gynnwys Undeb Rygbi Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru. Geraint yw Cadeirydd un o bwyllgorau'r Eglwys yng Nghymru ac mae'n aelod o bwyllgor arall. Mae'n cadeirio sawl elusen ac mae'n aelod o bwyllgorau codi arian ar gyfer elusennau eraill.

Geraint yw prif gynghorydd pro bono elusennau Aberfan, sef rôl y mae wedi'i dal ers rhyw 45 mlynedd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf bu hefyd yn cynghori Comisiwn Coffa Tŵr Grenfell a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar y strategaethau tymor hwy sydd eu hangen yn sgil y drychineb.

Dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2013 am wasanaethau gwirfoddol ac elusennol yng Nghymru.

Mark Isherwood MS
Chair – Public Accounts and Public Administration Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

12 September 2024

Dear Chair

CARDIFF AIRPORT

In advance of my and colleagues' attendance at the evidence session with the Committee on 19 September regarding Cardiff Airport, and further to my update letter of 15 August, I thought it would be helpful to provide some additional information to help set the scene in terms of what we will be able to discuss at the session.

Cardiff Airport Long Term Strategy

As you know, on 22 July, the then Cabinet Secretary for Economy, Transport and North Wales issued a statement which sets out our future strategy for Cardiff Airport. The statement can be found here: [Written Statement: Cardiff Wales Airport – long term strategy \(22 July 2024\) | GOV.WALES](#)

The strategy aims to build on the Airport's unique strengths with two main objectives:

- attracting and growing aviation and aerospace businesses linked to the Airport
- a targeted programme of air service development, with a focus on passenger connectivity to a small number of global air hubs and economic centres of importance to Wales

Since the statement was released, the Welsh Government formally referred its proposed investment plan to the Competition and Markets Authority (CMA) on 15 August 2024. We expect that the CMA will publish its opinion on our proposals in early October. The Welsh Government is not in a position to release any details of the Airport growth plan whilst the CMA process is underway. We should be able to go into further detail in due course, when Ministers

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

have considered the CMA's feedback and finalised their plan for the Airport. However, some elements of the plan will necessarily remain commercially confidential. I am sure that the Committee will recognise the importance of allowing the CMA to complete its review before entering into discussions about the details of the investment proposals.

Colleagues and I wish to be as open as possible with Committee when it comes to sharing information in relation to Cardiff Airport's performance relative to its new economic objectives. Once the CMA process has concluded, we expect to be able to go into more detail about the anticipated economic benefits of the Welsh Government's proposed investment and how we intend to track progress against those benefits over the years ahead – metrics which I am sure will be of interest to the Committee. However, I will be happy to talk to you in private session next week about the current estimates we have for the expected economic benefits, noting that any figures provided will remain as 'work in progress' until Ministers have reflected upon the CMA's report and finalised their plans for the Airport.

The subsidy proposed to the CMA is the Welsh Government's preferred approach for maximising the economic benefits to Wales from the Airport and we are confident that we have a robust case for subsidy. However, we will take full consideration of the CMA's feedback on our proposals and recognise that there may be a need to adapt aspects of our proposed approach in response to that feedback. Therefore, as you would expect, officials are developing advice for Ministers on alternative approaches that may be taken if the outcome of the CMA process does not align fully with Ministers' ambitions for the Airport. This advice cannot be finalised or discussed until the views of the CMA are known, so will remain as policy work in progress until the CMA process has concluded and Ministers have agreed a way forward.

Airport performance

Cardiff Airport now has 33 direct routes and offers access to over 145 global routes via Amsterdam. It has recovered 52% of its 2019 passenger volume, recording 860,000 passengers through its terminal by the end of 31 March 2024, with TUI, Ryanair and Vueling all increasing their operations from the Airport over the last year. The Airport's leadership team has worked very effectively to recover from the earlier impact of losing Wizz Air and their efforts have paid off, with the gap left by Wizz Air being largely filled with this new business. I expect that the Airport CEO, Spencer Birns, will, at the upcoming Committee session, provide you with the very latest information on the Airport's recent successes, including performance over the summer season.

Governance

I am pleased to report to the Committee that, following the renewal of the Holdco board earlier this year, which has helped address a number of points raised by PAPAC, the new governance arrangements between Holdco and Cardiff Airport are working well. A positive relationship has been established and the refresh of skills and expertise is delivering the new blend of challenge and scrutiny required as the Airport emerges from its restructuring package and heads into a new future focused on maximising its economic potential for Wales. I would be happy to elaborate further upon these new governance arrangements at our Committee session.

Qatar Airways

Negotiations between the Airport executive team and Qatar Airways are ongoing. The discussions remain positive but are commercially sensitive, so neither the Welsh Government nor the Airport executive will be able to provide any further information on this matter at our upcoming session. Colleagues and I will however ensure that the Committee is updated as soon as the negotiations reach a conclusion.


Climate Change

As outlined in the recent Written Statement, the Welsh Government has acknowledged the policy tensions between owning an airport, the significant economic benefits the Airport can deliver for Wales and our need to address the climate emergency. The proposed strategy for the Airport aims to encourage the development and local adoption of more sustainable aircraft propulsion technologies and to reduce carbon emissions from the Airport's infrastructure. I would be happy to elaborate upon this a little further in private session. The Airport Chief Executive will be best placed to update you on the specifics of progress on decarbonising ground operations, which have been positive and significant.

Colleagues and I look forward to our discussion with the Committee next week.

With best wishes.

Yours sincerely

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'A. Slade', with a stylized flourish at the end.

Andrew Slade
Director General
Economy, Energy and Transport

Eluned Morgan AS

Prif Weinidog

Ken Skates

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi,

Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru

20 Awst 2024

Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Cymru Caerdydd

Annwyl Eluned a Ken

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r **datganiad ysgrifenedig** a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2024 yn cyhoeddi cyllid buddsoddi ychwanegol hirdymor sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Maes Awyr Caerdydd dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol.

Mae'r datganiad yn cyfeirio at **Strategaeth Ryngwladol** Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

Er mwyn gwella cysylltedd, bydd y Maes Awyr yn ceisio datblygu llwybrau i'r rhannau hynny o'r byd y nodwyd yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru eu bod yn bwysig i sicrhau twf economaidd, megis:

- Y Dwyrain Canol a De Asia
- Yr Undeb Ewropeaidd – canolfannau economaidd ac ariannol pwysig a meysydd awyr hyb
- Gogledd America

Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar weithgarwch cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei Strategaeth Ryngwladol, hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth am y datblygiad sylweddol hwn fel yr amlinellir o dan yr is-benawdau isod.



Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol

Byddwch yn ymwybodol bod dau gyfeiriad at Faes Awyr Caerdydd yn y Strategaeth Ryngwladol, a gyhoeddwyd yn 2020. Gwneir y cyfeiriadau hyn yng nghyd-destun disgrifio cysylltedd Cymru â gweddill y byd ac, ar wahân, mewn perthynas â thwristiaeth antur gynaliadwy a'r uchelgais i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU. A allwch chi egluro'r amserlen ar gyfer y penderfyniad buddsoddi? Hefyd, a allwch chi gadarnhau pa lwybrau sy'n cael eu hystyried i'w datblygu a sut y bydd pob llwybr yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn nodi tri nod craidd sef:

1. codi proffil Cymru yn fyd-eang;
2. tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a
3. sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Byddwn yn croesawu gwybodaeth fanwl am:

- sut mae'r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at bob un o'r tri nod craidd, fel yr amlinellir; a
- pha ystyriaeth a roddwyd i gydbwyso'r nodau craidd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd?

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech egluro:

- a fydd y buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i weithredu cynlluniau'r Maes Awyr i ymrwymo i dargedau sero net (nad oedd wedi'i gyflawni erbyn mis Mawrth 2023), megis ar gyfer fferm solar yn y maes awyr neu brynu cerbydau trydan neu hybrid?
- i ba raddau mae'r methiant i gyrraedd y targed hwn yn tanseilio nod y Strategaeth Ryngwladol i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU?
- sut y bydd aildddechrau gwasanaethau Qatar Airways, os yw'n cael ei sicrhau, yn cefnogi'r bwriad i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

Rôl swyddfeydd tramor yn y penderfyniad buddsoddi

A allwch chi egluro pa ran y mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn y penderfyniad buddsoddi fel y mae'n ymwneud â chysylltedd Cymru â gweddill y byd? Yn ogystal, a fydd gan y swyddfeydd tramor rôl wrth gyflawni cynlluniau'r maes awyr yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ryngwladol?

Goblygiadau o ran y gyllideb

Mae maint y buddsoddiad yn sylweddol, ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau cyllidebol. Er bod y pecyn buddsoddi yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol, gallai gyrraedd cyfanswm o £206 miliwn dros

gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyllideb cysylltiadau rhyngwladol o £8.093 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Rydych yn nodi yn y datganiad bod y buddsoddiad hwn, yn rhannol, yn gysylltiedig â gwella cysylltiadau â rhannau o'r byd a nodwyd yn y Strategaeth Ryngwladol fel rhai sy'n bwysig ar gyfer twf economaidd. Felly, a allwch chi esbonio:

- Sut y bydd y buddsoddiad yn ymwneud â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol?
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym dro ar ôl tro ei bod yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac na all gynllunio y tu hwnt i gylchoedd blynyddol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd eraill yng nghylch gwaith ein Pwyllgor fel y sector diwylliant. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr arian hwn ar gael?
- Ar ba sail y cafodd buddsoddiad y maes awyr ei flaenoriaethu dros bwysau ariannol eraill fel yr argyfwng ariannol yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon?

Yn olaf, hoffwn nodi pa mor siomedig oedd dysgu am y wybodaeth hon trwy ddatganiad ysgrifenedig ar ddydd Llun cyntaf toriad yr haf. Roedd digon o gyfleoedd i roi diweddariad i'r Aelodau yn ystod y tymor. Er enghraifft, daeth y cyn Brif Weinidog i'n sesiwn graffu ar gysylltiadau rhyngwladol ar 19 Mehefin 2024, bedair wythnos yn unig cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Yn ystod y sesiwn, ni soniwyd am y maes awyr er gwaethaf trafodaethau penodol am flaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'r gweithgaredd yn y rhanbarthau a glustnodwyd ar gyfer llwybrau hedfan newydd.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r llythyr hwn erbyn 17 Medi 2024 fan bellaf. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.



We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/RE/6064/24

Mark Isherwood MS/AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCCGG@senedd.cymru

8 Awst 2024

Annwyl Mark,

**Ymateb Ychwanegol i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Gyhoeddus y Senedd ar Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, Gorffennaf 2023**

**Darparwyd gan: Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y
Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**

Dyddiad: Awst 2024

Yn fy ymateb i'r Pwyllgor fis Awst 2023, derbyniais yr argymhellion a ganlyn a oedd yn cynnwys cais gan y Pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf unwaith y byddai'r trefniadau hyn wedi bod ar waith ers dwy flynedd. Rwyf bellach yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf honno ac nid oes materion ychwanegol wedi codi ers i'r Pwyllgor ystyried y materion hyn.

Yn gyffredinol, mae angen imi sicrhau bod holl gyrff y Llywodraeth Ganolog yn gweithredu yn unol â gofynion y *Canllawiau Cyllidebu Cyfunol a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Rydym yn ymwybodol o'r effeithiau a adroddwyd gan Gomisiynwyr ynghylch sut y defnyddir cronfeydd wrth gefn neu'r ffiniau cyfrifyddu ac rydym yn parhau i weithio gyda nhw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 16
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 11

Mae'r Comisiynwyr yn nodi materion o ran y cyfyngiadau ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dynodi – o fis Chwefror 2022 – eu swyddfeydd yn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. O ystyried y risg gysylltiedig i annibyniaeth a chanlyniadau anfwriadol eraill posibl, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y newidiadau ar ôl iddynt fod ar waith ers dwy flynedd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

Fel y nodwyd yn fy ymateb yn 2023, mae'r cyfyngiadau ar gronfeydd wrth gefn fel y'u nodir yn fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU a amlinellir yn nogfen *Canllawiau Cyllidebu Cyfunol* Trysorlys EF. Mae'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn yn cydymffurfio â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a'r gofyniad i beidio â thalu Cymorth Grant cyn yr angen. Nid yw cadw cronfeydd wrth gefn o un flwyddyn i'r llall yn sicrhau y bydd cyllid ar gael i gorff cyhoeddus ei ddefnyddio mewn blwyddyn ddiweddarach.

Ceir prosesau ar wahân i Lywodraeth Cymru ystyried unrhyw gais am hyblygrwydd i gadw arian parod sy'n fwy na 5% y cyfanswm goddefiant incwm a gymeradwywyd ac i'r Gweinidog perthnasol gymeradwyo cyllideb adnodd ychwanegol i gyllido

- unrhyw lithriant mewn gweithgareddau wedi'u cymeradwyo o un flwyddyn ariannol i'r llall, neu
- gynydd mewn gweithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y Comisiynwyr o'u dwyn o fewn ei ffiniau cyfrifyddu. Dylid cwblhau hyn ddwy flynedd ar ôl i newidiadau o'r fath fod ar waith, a dylid rhoi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

Mae'r broses ddynodi yn unioni'r Cynnig Cyllidebol a bleidleisir gan y Senedd â'r adnoddau a ddefnyddir, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir gan y corff dynodedig yn y Cynnig Cyllidebol, yn hytrach na dim ond y taliadau arian parod a wneir i'r endid. Ni chaiff statws dynodiad y corff unrhyw effaith ar sut y caiff fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU ei gymhwyso.

Yn unol â'r *Canllawiau Cyllidebu Cyfunol*, mae pob corff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gorff y Llywodraeth Ganolog o fewn ffin gyllidebol Llywodraeth Cymru ar sail adnoddau (hynny yw, croniadau yn hytrach nag arian parod). Mae hyn yn wir ni waeth a ydynt wedi'u dynodi ai peidio, neu sut y cawsant eu dynodi.

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Mark,

Caffael Cerbydau Trydan gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin ynglŷn Chaffael Cydweithredol Prynu Cerbydau Trydan.

O dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) mae pob cynigydd yn cael ei asesu yn unol â nifer o feini prawf gwahardd – rhai gorfodol a rhai yn ôl disgrisiwn – sy'n cynnwys asesu perfformiad blaenorol y cwmni a'r personau cysylltiedig. Roedd y meini prawf a gafodd eu profi ar gyfer gwahardd gorfodol yn cynnwys; cynllwyn; llygredigaeth; twyll; a thaliadau treth (ond nad oeddent wedi'u cyfyngu i'r rhain). Roedd y meini prawf ar gyfer gwahardd yn ôl disgrisiwn yn cynnwys perfformiad y cynigydd mewn perthynas â meysydd fel toriadau amgylcheddol; methdaliad; contractau cyhoeddus a oedd wedi cael eu terfynu yn y gorffennol ac ati.

Nid oedd y gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd wedi codi unrhyw bryderon ynghylch FleetEV a fyddai'n arwain at naill ai gwahardd gorfodol nac a fyddai'n berthnasol i unrhyw rai o'r meini prawf yn ôl disgrisiwn a gafodd eu profi.

Oherwydd bod hyn wedi cael ei sefydlu fel Cytundeb Fframwaith, caiff sefydliadau sector cyhoeddus eu hunain benderfynu a ydynt am benodi FleetEV o dan drefniadau yn ôl y gofyn uniongyrchol neu ddefnyddio llwybrau eraill i'r farchnad.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3^{ydd} Medi 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Parthed: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Ymateb i Graffu ar Bwyllgor
Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru 2022-23, Mawrth 2024.**

Yn unol ag adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor, rwy'n ysgrifennu atoch i roi diweddariad o fewn chwe mis ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu model codi ffioedd am wasanaethau.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod y Comisiynydd yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymhen chwe mis ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan ei swyddfa i ddatblygu model ar gyfer codi tâl am wasanaethau i gynhyrchu adnoddau ychwanegol.

Mae gan ein tîm bolisi y cytunwyd arno ar gyfer gwneud taliadau a chodi ffioedd ym mis Chwefror 2024. Rhaid i ni gydymffurfio â'r cyfyngiad ar bŵer statudol y Comisiynydd i godi ffioedd am gyngor a gwasanaethau fel y nodir yn Atodlen 2, Paragraff 8 o'r Ddeddf. Mae'n nodi fel a ganlyn:

- Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol ym marn y Comisiynydd mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiynydd, gan gynnwys codi ffi am ddarparu cyngor neu wasanaethau eraill.
- Mae pŵer y Comisiynydd i godi ffi am ddarparu cyngor neu wasanaeth arall wedi'i gyfyngu i godi'r symiau hynny sy'n briodol ym marn y Comisiynydd i adennill y costau gwirioneddol neu amcangyfrifedig i'r Comisiynydd o ddarparu'r cyngor neu'r gwasanaeth hwnnw.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor, y gefnogaeth a'r cymorth a ddarparwn yn ymwneud â chyrff cyhoeddus a gwmpeisir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod capasiti ac adnoddau yn broblem i fy swyddfa, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai arian craidd drwy gymorth grant sydd, gan mwyaf, yn ariannu'r gwaith hwn. Felly, yn y mwyafrif o achosion, ni fyddem yn codi ffi am ein gwaith.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion y cytunwyd arnynt, rydym yn dilyn ein polisi adennill ffioedd a godwyd. Rwyf wedi darparu yn Atodiad A ddetholiad o'r polisi hwn i ddangos achosion pan fyddwn yn mynd ati i godi ffi am wasanaethau. Mae ein polisi yn nodi bod yn rhaid i ni hefyd gadw at y canllawiau ar ffioedd a thaliadau a godwyd, fel y nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru". Mae hyn

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tramshed Tech, Heol Pendyris

Caerdydd, CF11 6BH

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Tramshed Tech, Pendyris Street

Cardiff, CF11 6BH

contactus@futuregenerations.wales

futuregenerations.wales


yn golygu ein bod yn gosod ffioedd i adennill costau llawn, sicrhau nad oes croes-gymhorthdal, a sicrhau bod ffioedd yn gyson. Wrth gyfrifo costau llawn, rydym yn cynnwys: amser uniongyrchol staff, amser anuniongyrchol staff (e.e. cyllid, cymorth gweinyddol ac ati), elfennau eraill fel dibrisiant, gorbenion ac unrhyw gostau cyfalaf, ac unrhyw gostau uniongyrchol eraill ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i fodloni gofynion unigol.

Mae rhai enghreifftiau diweddar o geisiadau am gyngor lle rydym wedi adennill costau neu lle'r ydym yn bwriadu adennill costau yn cynnwys:

- Ein cytundeb rhyngwladol gyda Thîm Rhyngwladol Llywodraeth Cymru;
- Datblygu pecyn cymorth busnes sy'n helpu busnesau i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda Busnes Cymru;
- Noddi Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Rhai digwyddiadau ymgysylltu drwy siarad;
- Gweithdy posibl gyda Dŵr Cymru i edrych ar eu cynllun busnes ar gyfer 2025-30 a chynghori ar y potensial ar gyfer gwerth ac effaith cymdeithasol;
- Ehangu Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i fodel masnachfaint.

Byddwn yn anfon diweddariadau pellach yn unol ag argymhellion y Pwyllgor o fewn yr amserlenni a nodwyd gan yr adroddiad.

Yn gywir,



Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Atodiad A – detholiad o Bolisi Taliadau a Ffioedd (Chwefror 2024)

Mae'r Swyddfa'n awyddus i fod o gymorth. Mae angen pwyso a mesur a thrafod pob gwahoddiad neu gais am gyngor a dderbynnir gydag aelodau tîm perthnasol cyn gwneud penderfyniad ar dderbyn neu wrthod.

Mae capasiti yn broblem i'r tîm ac felly bydd yna amgylchiadau lle byddai cyngor neu gymorth yn cael eu hystyried yn deilwng ond efallai y bydd angen codi ffi am y cymorth hwnnw er mwyn iddo fod yn gyflawnadwy.

Pan NA DDYLEM godi ffi am waith

Fel dangosydd, y sefyllfa ddiofyn ddylai fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'n gwaith cyngor, cefnogaeth a chymorth i gyrff cyhoeddus, ac a ariennir gan ein cymorth grant. Yn yr achosion hyn, ni fyddai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn codi ffi am y gwaith a wnânt.

NI DDYLEM godi ffi:

- ✓ Os oes ymrwymiad gan y Comisiynydd, neu
- ✓ Os ydyw'n cyfrannu tuag at ein effeithiau strategol, neu
- ✓ Os ydyw'n cyfrannu tuag at ganlyniadau ein map ffordd, neu
- ✓ Os ydyw'n sefydliad yr ydym mewn partneriaeth strategol â hwynt, neu
- ✓ Os ydyw'n sefydliad yr hoffen ei gael fel partneriaeth strategol, neu
- ✓ Os ydyw'r ymgeisydd yn un sy'n medru cynnig ystyriaeth anariannol ar gyfer ein cymorth/gwasanaethau (e.e. secondiadau ac ati), neu
- ✓ Os yr ystyrid bod effaith yr ymyriad yn eang a phellgyrhaeddol.

Ac

- ✓ Os oes gennym y capasiti i ymgymryd â'r gwaith, ac
- ✓ Os ydyw'r adnoddau cysylltiedig yn rhesymol, neu
- ✓ Os y gallir cyflawni'r gwaith gyda deunyddiau sy'n bodoli eisoes, neu
- ✓ Os na fydd angen i ni wneud gwaith ychwanegol, neu
- ✓ Os na fyddai'r gwaith yn gofyn am fewnbwn allanol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tramshed Tech, Heol Pendyris

Caerdydd, CF11 6BH

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Tramshed Tech, Pendyris Street

Cardiff, CF11 6BH

contactus@futuregenerations.wales

futuregenerations.wales

Lle **nad** yw'r paramedrau hyn yn cael eu bodloni, ond lle mae'r gwaith yn dal i gael ei ystyried fel un teilwng, yna dylid trafod gyda'r Uwch Dim Arwain i ystyried codi ffi am y gwaith er mwyn iddo fod yn opsiwn dichonadwy i'r sefydliad.

2. Byddwn yn Penderfynu Codi Ffi am Waith

Ar ôl dod i'r casgliad bod gan y gwaith rinweddau, ond nad yw'n ymarferol i'w gyflawni heb godi ffi, yna dylem ddilyn yr egwyddorion talu a nodir yma.

Rheol yn y Ddeddf

Rhaid i ni gydymffurfio â phŵer statudol y Comisiynydd i godi ffi am nwyddau a gwasanaethau y gellir eu gweld yn Atodlen 2, Adran 8 o'r Ddeddf.

Rhaid i'r Swyddfa hefyd nodi'r canllawiau ar ffioedd a thaliadau a godir fel y nodwyd yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" Pennod 6.

Gan ystyried y ddau uchod, dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Osod ffioedd i adennill costau llawn,
- Sicrhau nad oes croes-gymhorthdal, a
- Sicrhau bod ffioedd yn gyson – dim ffioedd uwch am yr un gwasanaeth i wahanol ddefnyddwyr.

Costau llawn

Bydd adennill costau llawn yn cynnwys costau am:

- Amser uniongyrchol staff,
- Amser anuniongyrchol staff (e.e. cyllid, cymorth gweinyddol ac ati).
- Elfennau eraill fel dibrisiant, gorbenion ac unrhyw gostau cyfalaf,
- Unrhyw gostau arall uniongyrchol wedi eu teilwra i gyflawni gofynion unigol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tramshed Tech, Heol Pendyris

Caerdydd, CF11 6BH

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Tramshed Tech, Pendyris Street

Cardiff, CF11 6BH

contactus@futuregenerations.wales

futuregenerations.wales

Supporting Ukrainians in Wales

Author: Adrian Marszalek, Wales Ukraine Schemes Coordinator

07500 963380 – Adrian.Marszalek@wlga.gov.uk

Welsh Local Government Association - The Voice of Welsh Councils

We are The Welsh Local Government Association (WLGA); a politically led cross party organisation that seeks to give local government a strong voice at a national level. We represent the interests of local government and promote local democracy in Wales.

The 22 councils in Wales are our members and the 3 fire and rescue authorities and 3 national park authorities are associate members.

We believe that the ideas that change people's lives, happen locally.

Communities are at their best when they feel connected to their council through local democracy. By championing, facilitating, and achieving these connections, we can build a vibrant local democracy that allows communities to thrive.

Our ultimate goal is to promote, protect, support and develop democratic local government and the interests of councils in Wales.

We'll achieve our vision by

- Promoting the role and prominence of councillors and council leaders
 - Ensuring maximum local discretion in legislation or statutory guidance
 - Championing and securing long-term and sustainable funding for councils
 - Promoting sector-led improvement
 - Encouraging a vibrant local democracy, promoting greater diversity
 - Supporting councils to effectively manage their workforce
-



Purpose

1. This paper was produced following a request to WLGA by the Public Accounts and Public Administration Committee as part of its inquiry into Supporting Ukrainians in Wales, which is subsequent to the Auditor General for Wales's report under the same name.¹ In line with the committee's enquiry, this response **highlights the lessons learned from the initial response, support provided to Local Authorities by Welsh Government, the role of Local Authorities within the administration of Welcome Centres and an overall view on the response and its implementation**. This report reflects the current position of Local Authorities in Wales.

Lessons learned from the planning of the initial response, including estimates of the number of arrivals, accommodation options and likely costs of the response.

2. Following the outbreak of the war, all 22 Local Authorities (LAs) in Wales answered the call to become involved and support arrivals of people from Ukraine into Wales under the Homes for Ukraine (HFU) Scheme and the Welsh Government Super Sponsor (WGSS) Scheme. The Welsh Government (WG) decision to introduce the WGSS and support those Ukrainians which had not secured a sponsor was met with overall backing regardless of the added layer of complexity.
3. The establishment of emergency response by Welsh Governments and early engagement with the WLGA and LAs from the beginning of planning the WGSS scheme was key to ensuring adequate support being delivered to Ukrainians arriving in Wales. A multi-agency partnership was founded, meeting under the "Ukraine LA Response Group"², to look at the delivery of HFU and WGSS Schemes as a 'Team Wales' approach – where all LAs, WLGA, WG, Health Boards and voluntary sector organisations join together to collaborate, solve challenges and share best practice in relation to the scheme delivery.
4. Initially, WG committed to sponsor 1,000 individuals from Ukraine.³ However, the demand for support far exceeded the initial expectations with over 5,300 applications being submitted to the scheme⁴ leading WG to suspend the scheme as of 10 June 2022.
5. The unprecedented scale of demand led WG and LAs to pivot and respond to the increased number of arrivals. WG were left with little option but to procure hotels and other Initial Accommodation sites, aside from Welcome Centres, as accommodation options became increasingly limited.

¹ [Supporting Ukrainians in Wales \(audit.wales\)](https://audit.wales.gov.uk/publications/Supporting%20Ukrainians%20in%20Wales.pdf)

² 'The Welsh Government's discussions with the WLGA and Welsh local authorities on the operation of the Ukraine settlement schemes' [business.senedd.wales/documents/s126234/Paper 2.html?CT=2](https://business.senedd.wales/documents/s126234/Paper%202.html?CT=2)

³ [Wales as a super sponsor | GOV.WALES](https://gov.wales/wales-as-a-super-sponsor)

⁴ [Ukraine Sponsorship Scheme: Visa data by country, upper and lower tier local authority - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/ukraine-sponsorship-scheme-visa-data-by-country-upper-and-lower-tier-local-authority)



6. The main lesson learned from the procurement of accommodation options available at the time was that the use of hotels is neither economical, nor good for the families residing in them, and certainly not in the long term. As Ukrainians settled in their Initial Accommodation, the subsequent move-on conversations from these settings became challenging to manage for both LAs and WG. This coupled, with the difficulties in the housing market and lack of affordable properties in Private Rented Sector, resulted in families staying beyond the planned 6-month period in Initial Accommodation sites.
7. The lack of affordable housing forced LAs into seeking creative solutions to ensure adequate move-on rates. 8 LAs have opted to support moves to longer term accommodation by offering rental top-ups to address the gap between Local Housing Allowance (LHA) Rates and market prices. A combination of tariff provided by UK Government and Move-on Grant offered by WG were used to fund this.⁵ However, the sustainability of such models moving forward is unclear as the tariff levels reduces.

Support provided to Local Authorities by the Welsh Government on an ongoing basis, issues arisen and the impact on other areas of Local Authority accommodation support.

8. During the inception of the Ukraine Schemes in Wales, there was a degree of uncertainty about the scale of need LAs were required to prepare for. The initial concerns were around the potential for a significant increase in homelessness presentations, whilst LAs already had to address other pressures on homelessness, for example continued cost of living crisis or other resettlement scheme pressures.
9. Regarding impact on other areas of LAs accommodation support, the introduction of the Ukraine Schemes in general has created additional competition for available affordable housing across Wales, with the additional tariff funding for HFU some LA Resettlement/Ukraine Teams were able to make the decision to offer additional financial support to ensure that Ukrainian households are successful in securing accommodation. This additional financial support may not be available to other households being assisted by LA Housing Options Teams.
10. Whilst the collective pressure on homelessness was escalating, increasing the housing demand, WG structured a holistic approach to try and address the competing challenges by working with WLGA, WSMP and LAs to address the need. This collaboration defined the Transitional Accommodation Capital Funding Programme (TACP) which aims to support and encourage the provision of longer-term accommodation for those in initial accommodation and temporary accommodation by LAs and registered social landlords. The TACP looks to alleviate the overall housing pressures and the designed flexibility allows the funding to be used for refugees and resettlement programmes.

⁵ Annex 1: Homes for Ukraine: PRS offers, tariff and support provided by Welsh Councils (para. 4-5) committees.parliament.uk/writtenevidence/126482/pdf/



11. Operationally, the communication with WG officials in the “Ukraine Response Group” forums led by the WLGA cultivated strong relationships and ensured that best practice was shared in the meeting, and the learning applied across Wales. Furthermore, LAs were able to directly escalate issues to WG via email inboxes which were set-up additionally to the weekly forums. Where LAs held Welcome Centre or Initial Accommodation in their area, WG held regular meetings about the site, with the support increasing during the six-week closure period. During that time, WG officials would attend the sites to support LAs with managing expectations amongst Ukrainians and support with delivery of a high move-on rate.

The role of Local Authorities in the administration of Contact Centres/Welcome Centres.

12. The LAs have played a key role in supporting WG with the administration of the Contact Centre (administered by Cardiff City Council) and management of Arrival Hubs, Welcome Centres and Initial Accommodation sites across Wales, both in the initial stages of the emergency response and over the duration of the WGSS Scheme.
13. The Contact Centre ran by Cardiff City Council played a pivotal role in the operational coordination of arrivals into Wales. The Contact Centre staff served as an interface between LAs and Ukrainians travelling to Wales and ensured that both LAs and Ukrainian citizens were provided with relevant advice and matched to suitable accommodation.
14. The six Arrival Hubs were tasked with ensuring that there was a continued flow of people into the Welcome Centres and initial accommodation sites. The relevant LAs were leading on the creation and management of the hubs and tasked with supporting people to travel to their onward accommodation sites across Wales.
15. The LAs which had the sites operational were tasked with providing the initial welcome and orientation to arriving Ukrainians, as well as issuing the £200 initial payment, mandated as part of the HFU Scheme. Furthermore, they were responsible for initial integration and set-up for life in Wales, by supporting Ukrainians with opening bank accounts, signing up for welfare benefits, registry with GP and English as Speakers of Other Languages (ESOL) classes.
16. Subsequently, all 22 LAs have supported Welcome Centres and Initial Accommodation sites in relation to move-on into longer term suitable accommodation. In collaboration with the WLGA and LAs, WG have created a ‘Homes for Ukraine: framework for accommodation’ guidance, which outlined the considerations which LAs had to take when rehousing Ukrainians.⁶ This guidance was created to support the basis of a ‘population allocation’, agreed by all LAs and WG, which set out how Ukrainians in initial

⁶ [Homes for Ukraine: framework for accommodation \[HTML\] | GOV.WALES](#)



accommodation would be dispersed across Wales⁷ to recognise the uneven distribution of sites across Wales and ensure that responsibility is shared equitably across LAs.

An overall view of the WLGA on the response and its implementation.

17. Overall, the delivery of support to Ukrainians in Wales was good, despite some of the initial challenges. The involvement of WLGA and WSMP from the beginning as key stakeholders for the 'Team Wales' approach was welcomed and necessary for successful implementation. The response showcased that a collaborative approach to visa and resettlement schemes works, and the response to Ukraine crisis across Wales is an example to follow in other areas.
18. The WLGA believes the response went relatively smoothly, and it was a good operational way of working, with LAs coming together with WG, Department for Levelling Up, Housing and Communities, Home Office, British Red Cross and Housing Justice Cymru, with different stakeholders joining relevant meetings to ensure a cohesive response across the sectors.
19. From a value for money perspective, it must be noted that the Ukraine response was an emergency response, where both WG and LAs had to make decisions quickly and adapt to an evolving landscape.
20. The mobilisation during the response served as a key moment where Wales made a choice to not prioritise one group of people in housing need over another, despite different terms and conditions of funding for refugee groups available from UK Government. LAs ensured that support across different refugee and visa schemes was equitable, as far as they were able within the specific requirements, and this is the way local government would wish to take in moving forward.
21. The use of hosts under the HFU scheme has showcased a goodwill of Welsh people and serves as a model that could be used for other cohorts. WLGA, WSMP and WG have managed to support LAs with issues around move-on and meeting specific needs in the best way possible whilst managing the response at a national level.
22. It should be noted however that the collective pressures on housing and homelessness provision continue to this day and the WLGA would encourage WG to continue its collaborative approach adopted during the Ukraine response with WLGA, LAs and other key stakeholders to address the wider burdens. The WLGA is keen to continue building a coherent system for all, with fairness and equity being at the centre of it whilst recognising individual, person-centred needs.

⁷ Annex A: Population Allocation [Homes for Ukraine: framework for accommodation \[HTML\] | GOV.WALES](#)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

Drwy e-bost

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Adrian,

Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai a'r adroddiad cysylltiedig yn disgrifio canfyddiadau ac argymhellion y peilot paru data fferylliaeth gymunedol gan Archwilio Cymru. O ystyried maint y gwariant cyhoeddus ar feddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol, mae mynd i'r afael â thwyll a gwallau o bwys sylweddol ac rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am gymryd yr amser i ymchwilio mor drylwyr i risg yn y sector fferylliaeth gymunedol.

Rwy'n arbennig o falch na wnaeth y peilot dwys hwn, a oedd yn cynnwys bron i 30% o fferyllfeydd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd, ganfod unrhyw dystiolaeth o dwyll na gwallau systemig. Rwy'n credu bod y canfyddiadau hyn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o ystyried maint mawr y sampl, y cymysgedd o fferyllfeydd yn y sampl a'r presgripsiynau a ddosbarthwyd, a hyd cyfnod y gwaith maes. Mae'r adroddiad felly'n rhoi sicrwydd sydd i'w groesawu yn y maes hwn sy'n wynebu gwariant uchel a chraffu.

Er nad ydych yn gwneud argymhellion penodol. Rydych chi'n gofyn tri chwestiwn y dylai GIG Cymru eu gofyn iddo'i hun, o ystyried canfyddiadau eich peilot.

A ydych yn fodlon ar y dulliau presennol ym mhob bwrdd iechyd, ac ar draws GIG Cymru, i adnabod ac ymchwilio i allanolion mewn perthynas â chost uchel a risg o dwyll ar gyfer gweithgarwch contractwyr dosbarthu?

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

e-bost • e-mail:
andrew.evans@llyw.cymru
andrew.evans@gov.wales

Gwefan • website:
www.llyw.cymru
www.llyw.cymru

Fel yr wyf wedi nodi uchod mae'r adroddiad yn rhoi llawer o sicrwydd gan nad oedd archwilyr yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu wallau systemig yn y sector fferylliaeth gymunedol. Wrth gwrs, ni allwn laesu dwylo o ystyried y gallai fod rhai mathau o weithgarwch twyllodrus na ymchwiliwyd iddynt gan y peilot, neu dwyll a all fod yn digwydd mewn byrddau iechyd nad oeddent wedi'u cynnwys yn y sampl.

Mae enghreifftiau o arferion twyllodrus arwyddocaol wedi digwydd yn y sector fferylliaeth gymunedol, fel y rhai a ddisgrifir yn yr adroddiad. Mae'n galonogol bod yr achosion hanesyddol hyn wedi'u canfod gan fyrddau iechyd gan weithio'n agos gyda Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG, trwy archwiliadau cadw cydbwysedd sy'n dyddio'n ôl i'r amser cyn y peilot.

Nododd y peilot risgiau mewn tri phrif faes: camgymeriadau prisio, eitemau drud ac archebion arbennig.

O ran camgymeriadau prisio, mae rhwng 6 miliwn a 7 miliwn o bresgripsiynau yng Nghymru yn cael eu prosesu i'w talu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru bob mis. Mae cywirdeb y taliadau am bresgripsiynau yn gyson uchel, gyda chyfradd gwallau o ddim ond tua 1 o bob 1000 o'r presgripsiynau a brosesir. Pan fydd camgymeriadau prosesu yn digwydd, maent yr un mor debygol o arwain at dandaliadau i fferyllfeydd ag y maent o arwain at ordaliadau gan y GIG. Dim ond gordaliadau yr oedd gwaith Archwilio Cymru yn ei ystyried, ac felly mae'n debygol y byddai ymchwiliad pellach i wallau yn dileu unrhyw arbedion posibl i'r GIG dros amser. Cytunir ar lefel y cywirdeb prisio rhwng y GIG a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar ran y contractwyr fferylliaeth, felly nid ydym yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â thandaliadau a gordaliadau. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn bosibl i wneud cywiriadau mewn perthynas â gwallau unigol ar sail ad hoc.

Gan droi at eitemau drud, rwy'n cytuno bod gwiriadau ychwanegol gan fyrddau iechyd yn debygol o wella sut mae risgiau'n cael eu rheoli yn y maes hwn. Er fy mod yn ymwybodol efallai fod byrddau iechyd yn cynnal rhai gwiriadau ar bresgripsiynau drud eisoes, mae archwiliadau o'r fath yn canolbwyntio'n gyffredinol ar bresgripsiynydd y feddyginiaeth yn hytrach na'r fferyllfa lle cafodd ei dosbarthu. Rwy'n cytuno â'ch asesiad y byddai gan fyrddau iechyd fwy o sicrwydd pe bai archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar fferyllfeydd sy'n dosbarthu nifer fawr o bresgripsiynau drud. Felly, byddwn yn cyflwyno tri cham i wella'r gwaith y mae byrddau iechyd yn ei wneud yn y maes hwn.

Yn gyntaf, rydym wedi comisiynu Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) i ddatblygu dangosfwrdd rhyngweithiol o eitemau drud y gall byrddau iechyd gael mynediad iddo a'i ddefnyddio i nodi presgripsiynau drud sy'n cael eu rhoi gan ymarferwyr cyffredinol ac adrannau cleifion allanol mewn ysbytai yn eu hardal. Mae'r dangosfwrdd yn caniatáu i ddefnyddwyr y byrddau iechyd gael mynediad at ddata cyfanredol ac unigol a, bresgripsiynau, gan gynnwys y delweddau o bresgripsiynau unigol a gedwir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ail, byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatblygu adroddiad misol sy'n manylu ar yr eitemau drud sy'n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd ym mhob ardal bwrdd iechyd a sicrhau bod yr adroddiad hwn ar gael yn rheolaidd i fyrddau iechyd.

Yn olaf, byddwn yn ysgrifennu at fyrddau iechyd gan ddarparu gwybodaeth am y dangosfwrdd rhyngweithiol a'r adroddiad o eitemau drud mewn fferyllfeydd cymunedol. Byddwn yn gofyn iddynt gadarnhau pa drefniadau y byddant yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr offer newydd yn cael eu defnyddio i leihau'r risg y bydd twyll neu wallau yn digwydd o fewn y bwrdd iechyd.

A yw gwersi allweddol ac arfer gorau mewn perthynas â'r materion hyn yn cael eu rhannu rhwng byrddau iechyd? Er enghraifft, a yw'r byrddau iechyd yn rhannu enghreifftiau o ble y mae twyll wedi cael ei adnabod i'w gwneud yn ymwychodol o risgiau?

Rwy'n cytuno ei bod yn debygol y bydd manteision sylweddol yn deillio o rannu'r gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau rhwng byrddau iechyd. Felly, byddwn yn ysgrifennu at Bennaeth Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwyr Fferylliaeth pob bwrdd iechyd yn gofyn pa drefniadau y gellid eu rhoi ar waith i hwyluso rhannu gwybodaeth o'r fath.

A oes cyfle i'r GIG yng Nghymru roi rheolaethau cost-ffeithiol ychwanegol ar waith mewn perthynas â chostau amrywiol Archebion Arbennig?

Mae archebion o feddyginiaethau arbennig yn aml yn llawer drytach na meddyginiaethau trwyddedig, oherwydd natur bwrpasol y cynnyrch ac mae'n cynnwys costau dod o hyd i ddeunyddiau crai, gweithgynhyrchu, rheoli ansawdd, neu fewnforio cynnyrch a'u dosbarthu.

Mae natur archebion arbennig yn eu gwneud yn llawer mwy tebygol amrywio yn eu prisiau. Mae hyn yn deillio o newidiadau i brisiau deunyddiau crai neu o'r angen brys i weithgynhyrchu archebion arbennig lle gallai tâl ychwanegol fod yn daladwy i'w ddanfon yn gyflymach.

Mae camau wedi cael eu cymryd dros nifer o flynyddoedd i leihau costau archebion meddyginiaeth arbennig i'r GIG. Yn 2011, cyflwynwyd prisiau ad-dalu safonol ar gyfer yr archebion meddyginiaeth arbennig y rhoddir presgripsiwn ar eu cyfer amlaf (er enghraifft hylifau, hufenau ac eli a wnaed i fformiwla unigol). Rhwng 2018, pan ddechreuodd Archwilio Cymru ar ei waith maes, a 2023 gostyngodd cyfanswm y gwariant blyneddol ar y meddyginiaethau hyn fwy na 50% (o £1.01 miliwn i £0.48 miliwn y flwyddyn) o ganlyniad i'r newidiadau.

Yn fwy diweddar ym mis Mawrth 2022, gwnaed newidiadau pellach i leihau costau meddyginiaethau heb drwydded, wedi'u fewnforio, trwy gymell contractwyr fferylliaeth i ddod o hyd i'r meddyginiaethau hyn am y pris rhataf posibl, gan leihau amrywiad a phrisiau gormodol nad ydynt yn adlewyrchu cost gweithgynhyrchu'r archebion meddyginiaeth arbennig. Yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn y newidiadau pellach hyn, gostyngodd costau cymaint â 5% (o £0.65 miliwn i £0.62 miliwn).

Mae costau ad-dalu archebion meddyginiaeth arbennig wedi bod yn destun craffu ers nifer o flynyddoedd gan gynnwys fel rhan o [ymgyngoriad](#) gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn 2019. Mae amryw o ddulliau, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr fferylliaeth gael dyfynbrisiau gan sawl gweithgynhyrchwr, ceisio cymeradwyaeth ganolog i osod archebion, a gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer

archebion meddyginiaeth arbennig, i gyd wedi'u cynnig a'u hystyried fel rhai sy'n annhebygol o arwain at arbedion cost sylweddol.

O ystyried y newidiadau a wnaed ers gwaith maes Archwilio Cymru, yr ymgynghoriad blaenorol a'r dadansoddiad o opsiynau, a'r gostyngiad sylweddol mewn costau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid wyf o'r farn fod yr un potensial yn bodoli i gyflawni'r arbedion a amcangyfrifwyd gan Archwilio Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae potensial o hyd i fyrddau iechyd adolygu presgripsiynau unigol ar gyfer archebion meddyginiaeth arbennig cost uchel y gellid eu disodli gyda meddyginiaeth trwyddedig safonol, rhatach. Bydd y dangosfwrdd rhyngweithiol ar gyfer eitemau drud a ddatblygwyd gan WAPSU yn cefnogi byrddau iechyd i nodi cyfleoedd ychwanegol i gwestiynu'r achosion pan fo meddyginiaeth arbennig didrwydded drud yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn dangos y camau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau bod twyll yn cael ei nodi a'i atal lle bo hynny'n bosibl yn y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru. Bydd y camau ychwanegol y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad uniongyrchol i'r peilot paru data yn cryfhau dulliau gweithredu byrddau iechyd ymhellach ac rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am eich diddordeb a'ch cymorth yn y maes pwysig hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Cyllid Senedd Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir,



Andrew Evans FRPharmS
Prif Swyddog Fferyllol/Chief Pharmaceutical Officer
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

Eitem 2.9

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Local Government, Housing & Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol
Audit Wales
1 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

12 Medi 2024

Annwyl Archwilydd Cyffredinol

Diolch am eich adroddiad diweddar ar **dai fforddiadwy yng Nghymru**. Mae'n bleser cael amgáu'n hymateb manwl i'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn glir eu hymrwymiad i drechu digartrefedd a darparu cartrefi mawr eu hangen yng Nghymru. I gefnogi hynny, mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol rhent ychwanegol.

I'r un perwyl, maen nhw wedi buddsoddi mwy o gyllid nag erioed yn y cyflenwad tai, gyda £1.4bn wedi'i fuddsoddi eisoes yn nhymor y Senedd hon. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi £361m yn y Grant Tai Cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Er hynny, mae digwyddiadau mawr na ellid fod wedi'u rhagweld wedi effeithio ar y sector adeiladu tai, nid yng Nghymru yn unig ond yn holl wledydd y DU. Mae'n anochel bod y chwyddiant uchel wedi effeithio ar ein cyllideb a bod hynny wedi arwain at gostau adeiladu uwch.

Serch hynny, nid yw gweinidogion Cymru wedi llacio'u huchelgais i ddarparu mwy o gartrefi. Er i'r amodau presennol ei gwneud hi'n anoddach nag erioed, maen nhw wedi lansio nifer o fentrau i gyflenwi mwy o gartrefi wir fforddiadwy cyn gynted â phosibl - mentrau fel y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro a Chynllun Lesio Cymru.

Mae buddsoddi yn y cynlluniau hyn yn darparu cartrefi tymor hir ar gyfer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro. Rydym hefyd yn gwybod bod costau cartrefi dros dro yn cael effaith arwyddocaol ar adnoddau awdurdodau lleol. Gall buddsoddi cyfalaf yn y cynlluniau hyn leihau'r pwysau hwnnw.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 32

Mae rhoi llety tymor hir i bobl iddynt ymgartrefu a dechrau ailadeiladu eu bywydau ynddynt, yn lleihau'r costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Rydym yn gwybod bod cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd, iechyd meddwl a gwaith ac addysg.

Mae nifer o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn dibynnu ar ei gilydd, sef argymhellion 1, 3 a 5 sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun tymor hir. Byddwn yn gweithio ymhellach ar yr argymhelliad hwn ac yn dwysáu ein hymdrechion. Ond dylwn ddweud bod cynlluniau tymor hir eisoes ar waith yn enwedig o ran delio â'r angen am dai. Mae hyn yn ei dro yn bwydo'r Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Prosbectws ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol gan ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud.

Mae'ch adroddiad yn gyfraniad gwerthfawr at ein gwaith yn y maes hwn, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i roi'r argymhellion ar waith.

Yn gywir



Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Teitl yr adroddiad: Tai Fforddiadwy

Dyddiad Cwblhau: Medi 2024

Tudalen y pecyn 34	Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	A1	Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith manwl i gynllunio ar gyfer senarios er mwyn darparu arwydd eglur a chynnar o'r cyllid ar gyfer y cynlluniau tai fforddiadwy allweddol yn 2025-26. Dylai cynllunio ar gyfer senarios gynnwys: - y deilliannau tebygol, o ran y cartrefi a gyflawnir; - costau a manteision newid y cydbwysedd rhwng tai a adeiledir o'r newydd a chaffaeliadau, yn enwedig trwy'r Grant Tai Cymdeithasol; ac - asesiad o'r cyllid sy'n ofynnol yn 2025-26 i ganlyn arni â chynlluniau a fydd yn cyflawni y tu allan i'r cyfnod targed, er mwyn osgoi ymyl dibyn.	Derbyn. Mae rhaglen waith eisoes ar y gweill sy'n cyd-fynd â'r argymhelliad hwn. Mae'r hyn sydd gennym ar y gweill i gynllunio ar gyfer ein senarios yn cynnwys: Er mwyn mireinio a gwella ein rhagolygon cyflawni, byddwn yn gwella'r data a gesglir o'r sector a'i integreiddio o fewn y porth Cartrefi a Lleoedd. Mae'r porth eisoes wedi'i ddiweddarau er mwyn cofnodi data'r categori 'risg a heriau i gyflawni' a'r dyddiadau a'r costau cyflawni disgwylid. Disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod y data hwn yn gywir ac o ansawdd uchel.	Rhagfyr 2024	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth y Cyflenwad Tai / Pennaeth Cyllid Tai

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		- Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i ddatblygu modelau sy'n ymgorffori costau adeiladau newydd a chaffaeliadau a'r newidiadau a ragwelir i'r costau. Bydd hynny'n caniatáu profion sensitifrwydd ac amcanestyniadau ariannu cywir. Caiff rhagor o waith dadansoddi costau a manteision ei wneud ar ddarparu adeiladau newydd a chaffaeliadau. - Bydd allbynnau'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio i ddiweddarau ein hasesiad o'r cyllid sydd wedi'i ymrwymo i gynlluniau yn 2025-26 a fydd yn cael eu cynnal yn nhymor nesaf y llywodraeth. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen SHG yn cael ei rhedeg fel rhaglen dreigl 4 blynedd, gyda chynlluniau newydd yn ymuno â'r rhaglen yn rheolaidd.	Tachwedd 2024 Gorffennaf 2025	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A2	I ategu tryloywder a gwaith i graffu ar gynnydd yn erbyn yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar faint o'r cartrefi a gyfrifwyd tuag at y targed sy'n gartrefi a adeiledir o'r newydd ac yn gartrefi carbon isel.	Derbyn – Mae dadansoddiad o'r hyn a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol fel gwaith adeiladu newydd a chaffael eisoes wedi'i gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Ystadegol Cymru o'r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ychwanegu at Stats Cymru. Mae'n ofynnol i bob cartref sy'n cyfrif tuag at y targed fodloni safonau penodol gan gynnwys effeithlonrwydd ynni. Bydd dadansoddiad o'r cartrefi hyn a'r safonau y maent yn eu bodloni yn cael ei ddarparu yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb adrodd ar ddata carbon isel ar gyfer y targed presennol neu unrhyw darged yn y dyfodol.	Mawrth 2025 Gorffennaf 2025 Mehefin 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth Cyflenwad Tai / Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol Tai

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A3	Dylai Llywodraeth Cymru asesu a nodi'r opsiynau ar gyfer parhau i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy dros y tymor hwy. Dylai hyn gynnwys ystyried rhinweddau parhau i fod â tharged nad yw'n gyson â'r diffiniad o dai fforddiadwy ar gyfer ystadegau gwladol.	Derbyn – Mae perthynas rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhellion 1 a 5. Mae cynllunio tymor hir eisoes yn rhan o'r gwaith datblygu tai. Pennir amcangyfrifon cenedlaethol o'r angen am dai ar sail cyfnod o 20 mlynedd. Mae awdurdodau lleol yn asesu'r angen am dai ar sail cyfnod o 15 mlynedd drwy'r broses Asesu'r Farchnad Tai Leol (LHMA). Bydd hyn yn bwydo'u cynlluniau datblygu lleol sy'n disgrifio cynigion a pholisïau defnydd tir yr awdurdod ar gyfer datblygu tir yn ei ardal. Mae hyn hefyd yn seiliedig ar gyfnod o bymtheg mlynedd. Mae prospectws yr SHG hefyd yn defnyddio data'r LHMA i lywio'r ddarpariaeth. Mae'r SHG yn rhaglen 4 blynedd dreigl a byddwn yn ystyried estyn y cyfnod hwnnw trwy Argymhelliad 6. Byddwn hefyd yn asesu opsiynau tymor hwy gan gynnwys buddsoddi mewn caffael yn	Mawrth 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth Cynllunio / Pennaeth Cyflenwad Tai / Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol Tai

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		hytrach na gwaith adeiladu newydd ac ystyried yr holl opsiynau cyflawni gan gynnwys y cymysgedd daliadaethau, defnyddio tai'r farchnad a dulliau cyllido amgen. Mae'r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yn Ystadegau Cymru yn caniatáu dadansoddiad effeithiol o dueddiadau a chymharu dulliau cyflawni ar draws cyfnodau amser gwahanol. Adroddir ar sail y targed hwn yn is-adran o'r ystadegau. Bydd ystyried manteision alinio'n llawn â'r diffiniad o dai fforddiadwy ar gyfer ystadegau cenedlaethol yn lliwio unrhyw darged yn y dyfodol.		
A4	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull o asesu'r angen am dai, gan gynnwys: • asesu pam fod amcangyfrifon cenedlaethol i'w gweld fel pe baent wedi tanamcangyfrif maint yr angen	Derbyn mewn egwyddor - Mae gwaith yn mynd rhagddo i amcangyfrif yr angen am dai yn well. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi'i ohirio gan nad oes data ar gael oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.	Rhagfyr 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	presennol yn sylweddol a sut y gellir cywiro hynny; • datblygu ei dealltwriaeth am y galw sylfaenol, yn ogystal â'r angen, fel rhan o'i dulliau asesu; • adnabod a gweithredu ar wersi o gyflwyno'r dull diweddaedig o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol; a • sut i gysoni ei chyllid ar gyfer tai fforddiadwy â'r angen a adnabuwyd.	- Mae'r amcangyfrifon cenedlaethol yn asesiad o'r angen am dai ar adeg penodol (cawsant eu cyhoeddi ym mis Awst 2020, yn seiliedig ar ddata 2019). Mae'r angen, i raddau helaeth, wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny oherwydd digwyddiadau byd-eang na ellir bod wedi'u rhagweld. Fe wnaeth pandemig Covid-19 a'n polisi 'gadael neb allan', ddatgelu gwir faint digartrefedd yng Nghymru. Felly, ni fyddai'r digartrefedd cudd hwn wedi'i nodi mewn asesiadau cynharach o'r angen am dai. Ers y pandemig, mae'r data ar nifer y digartrefedd sy'n cyflwyno'u hunain ar gyfer gwasanaethau bellach yn adlewyrchiad llawer cywirach o'r angen. Yn ogystal â deall lefelau digartrefedd cudd yn well, mae'n bwysig hefyd nodi bod ffactorau byd-eang ac economaidd wedi cynyddu'r galw yn y system hefyd, yn enwedig yr argyfwng costau byw, yr		Cyflenwad Tai / Tai KAS

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		argyfwng dyngarol yn sgil y rhyfel yn yr Wcrain ac Afghanistan, ac effaith barhaus gwasgaru ceiswyr lloches. Mae ffactorau allanol o'r fath yn cael effaith sylweddol ar yr angen am dai ac maen nhw'n anodd eu rhagweld ac allan o reolaeth Llywodraeth Cymru. - Mae cydnabyddiaeth bod yna ardaloedd lle ceir angen neu alw cudd am dai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn fach. Yn aml mae unigolion yn dewis peidio ag ymuno â rhestrau aros am y rheswm hwnnw. Mae'r dull newydd o Asesu'r Farchnad Tai Leol (LHMAs) yn golygu bod awdurdodau lleol yn cynnwys y rheini sydd mewn cartrefi anaddas ac ar restr aros wrth gyfrif yr angen presennol am dai cymdeithasol nad yw'n cael ei ddiwallu. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb casglu'r data hwn ar lefel genedlaethol er mwyn llywio'r galw cenedlaethol a thargedau'r dyfodol.	Mehefin 2025 Ionawr 2025	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		- Mae'r cylch cyntaf o LHMA newydd ei gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd, ac yn ymgynghori ag Awdurdodau Lleol ar yr hyn a weithiodd yn dda a'r meysydd sydd angen eu gwella. - Mae LHMA's yn ffynhonnell o ddata allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Prospectws ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r SHG wedi'i gynllunio i ariannu blaenoriaethau tai strategol Awdurdodau Lleol. Datblygwyd fformiwla'r SHG ar y cyd â'r sector. Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o adolygu fformiwla'r SHG pan fydd yr amcangyfrifon newydd o'r angen am dai ar gael ochr yn ochr â LHMA's.	Rhagfyr 2025	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A5	Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu achos busnes llawn ar gyfer buddsoddi'n barhaus mewn tai fforddiadwy. Dylai hyn gynnwys elfennau allweddol o arfer da mewn arfarnu rhaglenni, megis: • arfarnu'r opsiynau, gan gynnwys rhinweddau cymharol cartrefi a adeiledir o'r newydd a chaffaeliadau, gan gynnwys y costau hirdymor a'r arbedion byrdymor sy'n deillio o leihau'r defnydd o lety dros dro; • dadansoddiad o sensitifrwydd, i gynnwys yr effeithiau ar gostau a chyflawni pe bai newidiadau mewn manylebau dylunio neu bwysau pellach o ran costau chwyddiannol; • cynllunio ar gyfer gwireddu manteision, gan gynnwys cysoni'r amcanion buddsoddi â'r nodau llesiant, gan adnabod dulliau o wreiddio manteision mewn taliadau grant a chontractau, a	Derbyn – Byddwn yn datblygu achos busnes llawn dros barhau i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad 1. - Mae'r model ariannol presennol yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd o gostau chwyddiant. Byddwn yn gweithio'n agos i sicrhau bod unrhyw opsiynau ar gyfer newid safonau yn cael eu hymgorffori yn y model fel y gwelir bod angen. - Cefnogir y gwaith i gyrraedd y targed presennol trwy lywodraethu cryf gan gynnwys Bwrdd Rhaglen, Grŵp Llywio a chyfres o ddogfennau llywodraethu gan gynnwys cynllun gwireddu manteision ac Asesiad Effaith Integredig. Mae'r dogfennau hyn yn fyw a byddwn yn dal i'w hadolygu drwy weddill tymor y targed. Penderfynir ar y gwaith rheoli y bydd ei	Gorffennaf 2025 Mawrth 2025 Rhagfyr 2024	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth Cyflenwad Tai / Uwch Reolwr Tai Fforddiadwy

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	system o fonitro ac adrodd ar yr ystod lawn o fanteision sy'n deillio o'r buddsoddiad; ac • asesiad effaith integredig llawn, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.	angen i gefnogi'r targed yn y dyfodol ar ddechrau'r targed.		
A6	Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull hirdymor o gyllido tai fforddiadwy, gan ddysgu gwersi o'r rhaglen ar gyfer adeiladau ysgolion ac addysg bellach, gyda golwg ar esmwytháu brigau a chafnau yn y broses gyflawni.	Derbyn mewn Egwyddor – Mae amserlen y Grant Tai Cymdeithasol eisoes yn un tymor hwy, gan ddarparu cefnogaeth dros bedair blynedd. Bydd swyddogion yn ystyried posibiliadau cyllido tymor hwy a ddefnyddir gan gydweithwyr Addysg ac a ellir ei gymhwyso i gyllid ar gyfer tai fforddiadwy.	Mawrth 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi / Pennaeth Cyllid Tai
A7	Yn unol â'i hymrwymiaadau mewn ymateb i argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dylai Llywodraeth Cymru	Derbyn – Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r galluedd o fewn adrannau cynllunio lleol. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad i weld beth yw'r farn am y cynigion i wneud	Rhagfyr 2025	Pennaeth Cynllunio / Dirprwy

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i ddatblygu datrysiadau cynaliadwy i'r cyfyngiadau o ran capasiti a chyflawni yng ngwasanaethau cynllunio llywodraeth leol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datblygu'r proffesiwn cynllunio a mwy o weithio rhanbarthol.	awdurdodau cynllunio'n fwy cydnerth ac i wella'u perfformiad. Bydd y cynigion hynny'n cynnwys: • Cynyddu ffioedd gwneud cais cynllunio (gan gynnwys llwybr i adfer yr holl gostau) • Mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio trwy adfywio ac ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad • Cefnogi cydnerthedd, capasiti a galluoedd Awdurdodau Cynllunio Lleol trwy gadw sgiliau a thrwy fwrariaethau a phrentisiaethau. • Gwella cydnerthedd ac adnoddau trwy Gyd-bwyllgorau Corfforaetho, darparu gwasanaethau ar y cyd a hybiau sgiliau cynllunio ac estyn cyfnod Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Daw cyfnod cynta'r cymorth wedi'i dargedu trwy Reoliadau Ffioedd newydd a chynyddu'r ffioedd cynllunio erbyn Rhag 2025. Bydd hynny'n rhoi Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn sefyllfa		Gyfarwyddwr Mwy o Gartrefi

Cyf	Argymhelliad	Ymateb rheolaethol Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		ariannol mwy cynaliadwy ac yn helpu i wneud gwasanaethau cynllunio'n fwy cydnerth a gwella'u capasiti. Bydd y sylwadau a ddaw i law trwy'r ymgynghoriad yn ein helpu gyda cham nesa'r cymorth, pan fyddwn, gan ddibynnu ar yr ymatebion hynny, yn ystyried mesurau eraill fel bwrsariaethau a sut i wella gwaith rhanbarthol a'i hyrwyddo mewn CDLlau a CJs. Yn ein barn ni, bydd hynny'n gwella capasiti a chydnerthedd.		

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6



Tai fforddiadwy

Medi 2024



Tudalen y pecyn 80

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Ffeithiau allweddol	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	9

Adroddiad manwl

1 Gwariant a pherfformiad yn erbyn y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol	12
2 Trefniadau llywodraethu a rheoli	33

Atodiad

1 Ynglŷn â'n gwaith	50
---------------------	----

Ffeithiau allweddol

20,000 – nifer y cartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu a dargedir rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026.

Rhwng 8,859 a 9,197 – nifer y cartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed a gyflawnwyd erbyn mis Mawrth 2024, yn seiliedig ar amcangyfrifon Llywodraeth Cymru.

19,913 – nifer y cartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed a gyflawnwyd neu sydd yn yr arfaeth gyda photensial i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2026.



£1.27 biliwn – gwariant Llywodraeth Cymru rhwng 2021-22 a 2023-24 ar gynlluniau sy'n cyfrannu at y targed (heb gynnwys peth cymorth ar ffurf benthychiadau):

- £1.10 biliwn ohono'n cwmpasu'r cynlluniau craidd sy'n rhoi cyllid uniongyrchol i adeiladu neu gaffael cartrefi fforddiadwy.
- £166.5 miliwn ohono'n cwmpasu cynlluniau sy'n rhoi cymorth anuniongyrchol i gyrraedd y targed.

£730 miliwn – y gyllideb gyfalaf dybiannol ar gyfer cynlluniau sy'n rhoi cyllid uniongyrchol i adeiladu neu gaffael cartrefi fforddiadwy trwy 2024-25 a 2025-26 (gyda £380 miliwn wedi'i gytuno ar gyfer 2024-25 a £350 miliwn tybiannol ar gyfer 2025-26).



£580 miliwn i £740 miliwn – ein hamcangyfrif ni o'r swm y gallai fod ei angen ar ben rhagdybiaethau cyllidebol presennol i gyflawni'r holl gartrefi sydd yn yr arfaeth¹.

15,860 i 16,670 – ein hamcangyfrif ni o nifer y cartrefi y gellid eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2026 heb y cyllid ychwanegol².



Nodiadau:

- 1 Mae'r amcangyfrif yn defnyddio cyfraddau grant cyfartalog yn hytrach na chostau gwirioneddol cyflawni cynlluniau.
- 2 Mae'r amcangyfrif yn defnyddio ffigyrau gwirioneddol ar gyfer 2021-22 a 2022-23, amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, ac amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer 2024-25 a 2025-26.



Negeseuon allweddol

Cyd-destun

- 1 Mae mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da'n un o gonglfeini iechyd a llesiant ac yn flaenoriaeth bolisi hirsefydlog. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd¹ erbyn mis Mawrth 2026. Mae'r targed yn adeiladu ar ymrwymiad blaenorol i gyflawni 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn nhymor blaenorol y Senedd. Aeth Llywodraeth Cymru y tu hwnt i'r targed hwnnw, ond mae diffiniad gwahanol yn gwneud y targed cyfredol yn fwy o her.
- 2 Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid sy'n cyfrannu at gyflawni cartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed trwy amryw ddulliau, yn bennaf y Grant Tai Cymdeithasol ac yn fwy diweddar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Landlordiaid cymdeithasol sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o gartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed. Awdurdodau lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)² yw landlordiaid cymdeithasol.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gwariant a pherfformiad yn erbyn y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol a'r trefniadau llywodraethu a rheoli tanategol. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Casgliad ar y cyfan

- 4 Mae'r broses o gyflawni cartrefi fforddiadwy wedi bod yn araf ac yn ddrutach nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, yn rhannol oherwydd pwysau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2026 bydd angen iddi wario cryn dipyn yn fwy nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Bydd angen iddi gyflawni'r holl gynlluniau sydd yn yr arfaeth hefyd, yr ystyrir bod rhai ohonynt yn dwyn risgiau, a nifer fach yn rhagor.
- 5 Ceir agweddau cadarnhaol i'r trefniadau llywodraethu a rheoli tanategol, gan gynnwys dull cydweithredol a'r prosesau craidd ar gyfer rheoli cyllid grant. Ceir meysydd i'w gwella hefyd o ran dull mwy hirdymor o ymdrin â'r angen, cynllunio a chyllido, a gwneud mwy i sicrhau bod buddsoddi mewn tai fforddiadwy'n cyfrannu at amcanion polisi ehangach.

¹ Rydym yn cyfeirio'n benodol at darged 'cartrefi cymdeithasol' Llywodraeth Cymru lle y bo'n berthnasol. Yn fwy cyffredinol, rydym yn cyfeirio at gyflawni 'tai fforddiadwy'. Mae'r holl gartrefi cymdeithasol ychwanegol sy'n cyfrif tuag at y targed yn perthyn i'r dosbarth tai fforddiadwy. Fodd bynnag, nid yw'r targed cartrefi cymdeithasol yn cynnwys rhai cartrefi fforddiadwy. Mae yn darparu eglurhad pellach.

² A adwaenir hefyd fel cymdeithasau tai.

Materion allweddol

Gwariant a pherfformiad yn erbyn y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol

- 6 Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy'n glir. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu. Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei bod yn cyfrif rhai cartrefi nad ydynt yn rhai a adeiledir o'r newydd ac nad ydynt yn rhai carbon isel.
- 7 Erbyn diwedd 2023-24, dair blynedd i mewn i raglen bum mlynedd, mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif ei bod wedi sicrhau llai na hanner (rhwng 8,859 a 9,197) yr 20,000 o gartrefi cymdeithasol³. Mae wedi ceisio gwrthbwyso cynnydd araf o ran adeiladu cartrefi newydd â mwy o ffocws ar gaffael eiddo presennol. Serch hynny, mae'r 19,913 o gartrefi a gyflawnwyd neu sydd yn yr arfaeth i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2026 ychydig bach yn is na'r targed. Ceir tebygolrwydd uchel na fydd rhai o'r cynlluniau yn yr arfaeth sy'n dwyn mwy o risg yn cael eu cyflawni mewn pryd neu o gwbl, beth bynnag fo'r sefyllfa o ran cyllid.
- 8 Mae costau cynyddol wedi golygu bod gwariant ar dai fforddiadwy wedi bod yn uwch nag a ddisgwyliid yn wreiddiol. Yn 2021, roedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y byddai'n gwario oddeutu £1.6 biliwn ar gynlluniau cyfalaf craidd i gyrraedd y targed.
- 9 O ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £1.10 biliwn ar gynlluniau – yn bennaf y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro – sy'n rhoi cyllid uniongyrchol i adeiladu cartrefi sy'n cyfrannu at y targed. Gwariodd £166.5 miliwn hefyd ar gynlluniau sy'n rhoi cymorth anuniongyrchol i gyrraedd y targed. Nid yw'r cyfanswm hwn o £1.27 biliwn yn cynnwys peth cyllid ychwanegol ar ffurf benthyciadau i landlordiaid cymdeithasol trwy ddulliau eraill.
- 10 Ar gyfer 2024-25, mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb o £330 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a £50 miliwn ar hyn o bryd ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Er nad oes cyllideb wedi cael ei phennu eto ar gyfer 2025-26, mae swyddogion yn seilio'u cynlluniau ar gyllideb dybiannol o £300 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a £50 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.

3 Ffigwr yn seiliedig ar ystadegau swyddogol ar gyfer 2021-22 a 2022-23, ac amcangyfrifon ar gyfer 2023-24.

- 11 Mae modelu faint fydd yn ei gostio i Lywodraeth Cymru gyflawni'r cartrefi sy'n dal yn yr arfaeth yn gymhleth. Rydym ni'n amcangyfrif y gallai fod ar Lywodraeth Cymru angen cymaint â rhwng £580 miliwn a £740 miliwn o gyllid cyfalaf yn ychwanegol at dybiaethau cyllidebol presennol i gyflawni'r holl brosiectau sydd ganddi yn yr arfaeth hyd at fis Mawrth 2026. Heb gyllid ychwanegol, rydym ni'n amcangyfrif y bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn cyflawni rhwng 15,860 ac 16,670 o gartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed o 20,000.
- 12 Mae opsiynau i wneud i gyllid ymestyn ymhellach yn cynnwys symud y cydbwysedd ymhellach tuag at gaffaeliadau, dibynnu'n fwy ar dai rhent canolradd yn hytrach na thai rhent cymdeithasol a gostwng safonau adeiladu. Fodd bynnag, efallai na fydd yr opsiynau hyn yn cynnig gwell gwerth am arian at ei gilydd a/neu dros y tymor hwy.

Trefniadau llywodraethu a rheoli

- 13 Mae Llywodraeth Cymru'n deall yr angen dybryd am dai fforddiadwy, gyda niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro. Fodd bynnag, nid oes ganddi asesiad tymor hwy ac mae amcangyfrifon cenedlaethol o bosibl yn tanddatgan yr angen a'r galw. Hefyd, nid yw'r patrwm o ran cyflawni tai fforddiadwy'n cyd-fynd â'r amcangyfrifon o'r angen.
- 14 Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi gwella'i dealltwriaeth am yr angen lleol am dai fforddiadwy trwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu a diweddarau prospectws tai. Mae hefyd yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer asesu'r angen lleol am dai trwy broses ddiweddaredig ar gyfer Asesu'r Farchnad Dai Leol. Fodd bynnag, bu oedi cyn rhoi hyn ar waith sydd wedi golygu bod awdurdodau cynllunio lleol fel rheol wedi bod yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol heb asesiad diweddaredig.
- 15 Mae trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r Grant Tai Cymdeithasol yn gadarn ar y cyfan ac wedi cael eu cryfhau gyda'r nod o sicrhau mwy o werth am arian. Mae newidiadau'n cynnwys dull newydd o asesu'r cyllid grant y mae ei angen ar gyfer cynlluniau unigol.
- 16 Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n dda gyda phartneriaid fel rheol, gan ei helpu i ymateb i rai risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau costau chwyddiannol ac effaith rheoliadau ar lygredd afonydd a draenio trefol. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod diffyg dull cyfunol a chydlynus o fynd i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti mewn gwasanaethau cynllunio lleol.

- 17 Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei data monitro. Yn 2023, datblygodd borth data sy'n galluogi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth gyfoes am statws cynlluniau; gan roi trosolwg well mewn amser real o'r cynnydd ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i sicrhau bod buddsoddi mewn tai fforddiadwy'n cyfrannu at amcanion polisi ehangach o'r dechrau un.



Mae chwyddiant prisiau wedi taro'r rhaglen tai fforddiadwy'n galed. Yn awr mae Llywodraeth Cymru'n wynebu dewisiadau anodd ynglŷn â'i blaenoriaethau cyllido a'i dull os yw'n dal i fod yn ymrwymedig i gyrraedd neu fynd yn agos at ei tharged o 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2026.

Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i hyn yn brawf pellach ar y modd y mae'n cymhwyso'r ffyrdd o weithio a ddisgwylir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys sut y mae'n taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor, yn adeiladu ar ei dull cydweithredol, ac yn ceisio cynyddu i'r eithaf y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan y gwariant cyhoeddus sylweddol yn y maes yma.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol
Cymru





Argymhellion

Argymhellion

Cyrraedd y targed cyfredol

A1 Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith manwl i gynllunio ar gyfer senarios er mwyn darparu arwydd eglur a chynnar o'r cyllid ar gyfer y cynlluniau tai fforddiadwy allweddol yn 2025-26. Dylai cynllunio ar gyfer senarios gynnwys:

- y deilliannau tebygol, o ran y cartrefi a gyflawnir;
- costau a manteision newid y cydbwysedd rhwng tai a adeiledir o'r newydd a chaffaeliadau, yn enwedig trwy'r Grant Tai Cymdeithasol; ac
- asesiad o'r cyllid sy'n ofynnol yn 2025-26 i ganlyn arni â chynlluniau a fydd yn cyflawni y tu allan i'r cyfnod targed, er mwyn osgoi ymyl dibyn.

A2 I ategu tryloywder a gwaith i graffu ar gynnydd yn erbyn yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar faint o'r cartrefi a gyfrifwyd tuag at y targed sy'n gartrefi a adeiledir o'r newydd ac yn gartrefi carbon isel.

Argymhellion

Datblygu dull hirdymor o gyflawni tai fforddiadwy

- A3 Dylai Llywodraeth Cymru asesu a nodi'r opsiynau ar gyfer parhau i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy dros y tymor hwy. Dylai hyn gynnwys ystyried rhinweddau parhau i fod â tharged nad yw'n gyson â'r diffiniad o dai fforddiadwy ar gyfer ystadegau gwladol.
- A4 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull o asesu'r angen am dai, gan gynnwys:
- asesu pam fod amcangyfrifon cenedlaethol i'w gweld fel pe baent wedi tanamcangyfrif maint yr angen presennol yn sylweddol a sut y gellir cywiro hynny;
 - datblygu ei dealltwriaeth am y galw sylfaenol, yn ogystal â'r angen, fel rhan o'i dulliau asesu;
 - adnabod a gweithredu ar wersi o gyflwyno'r dull diweddaedig o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol; a
 - sut i gysoni ei chyllid ar gyfer tai fforddiadwy â'r angen a adnabuwyd.

Argymhellion

- A5 Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu achos busnes llawn ar gyfer buddsoddi'n barhaus mewn tai fforddiadwy. Dylai hyn gynnwys elfennau allweddol o arfer da mewn arfarnu rhaglenni, megis:
- arfarnu'r opsiynau, gan gynnwys rhinweddau cymharol cartrefi a adeiledir o'r newydd a chaffaeliadau, gan gynnwys y costau hirdymor a'r arbedion byrdymor sy'n deillio o leihau'r defnydd o lety dros dro;
 - dadansoddiad o sensitifrwydd, i gynnwys yr effeithiau ar gostau a chyflawni pe bai newidiadau mewn manylebau dylunio neu bwysau pellach o ran costau chwyddiannol;
 - cynllunio ar gyfer gwireddu manteision, gan gynnwys cysoni'r amcanion buddsoddi â'r nodau llesiant, gan adnabod dulliau o wreiddio manteision mewn taliadau grant a chontractau, a system o fonitro ac adrodd ar yr ystod lawn o fanteision sy'n deillio o'r buddsoddiad; ac
 - asesiad effaith integredig llawn, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
- A6 Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull hirdymor o gyllido tai fforddiadwy, gan ddysgu gwersi o'r rhaglen ar gyfer adeiladau ysgolion ac addysg bellach, gyda golwg ar esmwytháu brigau a chafnau yn y broses gyflawni.
- A7 Yn unol â'i hymrwymyiadau mewn ymateb i argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i ddatblygu datrysiadau cynaliadwy i'r cyfyngiadau o ran capasiti a chyflawni yng ngwasanaethau cynllunio llywodraeth leol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datblygu'r proffesiwn cynllunio a mwy o weithio rhanbarthol.



**Gwariant a
pherfformiad yn erbyn
y targed o 20,000 o
gartrefi cymdeithasol**

01

- 1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn bwrw golwg ar y cynnydd tuag at y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol ers 2021 a'r rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Yr hyn y gwnaethom chwilio amdano

Fe chwiliom ni am dystiolaeth bod digon o gynlluniau yn yr arfaeth a digon o adnoddau i Lywodraeth Cymru gyrraedd ei tharged cartrefi cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2026.

Mae'r uchelgais i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy'n glir, ond nid yw'r Rhaglen Lywodraethu'n disgrifio'r targed o 20,000 yn fanwl gywir

- 1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n cynnwys targed i 'adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu' rhwng 2021 a 2026⁴. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2021 fe wnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd hi'n glir y byddai Llywodraeth Cymru'n cyfrif rhai cartrefi nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad hwnnw.
- 1.3 **Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrif rhai cartrefi nad ydynt yn rhai a adeiledir o'r newydd.** Mae cartrefi a adeiledir o'r newydd yn cynnwys tai cymdeithasol a gyflawnir gan landlordiaid cymdeithasol⁵. Maent hefyd yn cynnwys cartrefi fforddiadwy ar ddatblygiadau preifat a sicrhawyd trwy 'gytundebau adran 106' dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990⁶. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrif unedau eiddo presennol a gaffaelir a lesiodd hirdymor ar eiddo mewn perchnogaeth breifat y mae awdurdodau lleol yn eu sicrhau trwy Gynllun Lesio Cymru (gweler **paragraffau 1.12 i 1.14**). Roedd caffaeliadau'n cyfrif tuag at y targed blaenorol o 20,000 o gartrefi.

4 Ffigwr gros yw'r targed o 20,000. Bob blwyddyn collir rhai tai fforddiadwy i werthiannau a dymchweliadau. Felly, bydd y cynnydd net mewn tai fforddiadwy'n llai na nifer y cartrefi a gyflawnir trwy'r targed (gweler **paragraff 2.6**).

5 Defnyddiwn y term 'landlordiaid cymdeithasol' i olygu awdurdodau lleol (y mae 11 ohonynt yn dal i feddu ar stoc dai) a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC, a adwaenir yn gyffredin fel cymdeithasau tai). Mae 31 o LCC gweithredol yng Nghymru ond nid yw pob un yn darparu tai fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn.

6 Mewn rhai achosion, gall y datblygwr wneud taliad yn lle cyflawni tai newydd. Fe wnaeth swm y cyllid o'r fath a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn gan awdurdodau lleol godi o £19.8 miliwn ym mis Mawrth 2021 i £27.0 miliwn ym mis Mawrth 2023.

- 1.4 **Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrif rhai cartrefi nad ydynt yn rhai carbon isel.** Rhaid i gartrefi a adeiledir o'r newydd sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru gyrraedd safonau carbon isel (**Arddangosyn 1**). Nid oes angen i gartrefi a adeiledir o'r newydd sy'n deillio o gytundebau adran 106 a chartrefi a ddarperir trwy gaffaeliadau a lesio gyrraedd yr un safonau. Dros amser, efallai y bydd angen i gartrefi adran 106 gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)⁷, ond nid yw hyn yn ofynnol i gyfrif tuag at y targed cartrefi cymdeithasol. Mae **paragraff 1.15** yn nodi'r safonau mewn perthynas â chaffaeliadau.

Arddangosyn 1: safonau wedi'u cryfhau ar gyfer tai fforddiadwy a adeiledir o'r newydd

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (GADC) ar gyfer tai fforddiadwy yn 2021, am y tro cyntaf ers 2005.

Mae GADC yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer yr holl gartrefi fforddiadwy newydd neu adferedig a gyllidir ag arian cyhoeddus nad oeddent yn safonau 2005:

- systemau gwresogi nad ydynt yn defnyddio tanwyddau ffosil;
- allyriadau carbon isel iawn; a
- band eang sy'n barod i drosglwyddo data ar gyfradd gigadid.

Dim ond y safonau ynglŷn ag isafswm gwagle yn GADC y mae'n rhaid i gartrefi nas cyllidir ag arian cyhoeddus – er enghraifft, cartrefi fforddiadwy ar ddatblygiadau preifat dan gytundebau 106 – eu cyrraedd. Mae'r safonau hyn ynglŷn â gwagle yr un fath fwy neu lai ag yn 2005, er bod angen i ystafelloedd gwely fod ychydig yn fwy yn awr.

Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru yn 2021 fod y gofynion newydd yn ychwanegu oddeutu 13% at gost cartrefi cymdeithasol a adeiledir o'r newydd.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

⁷ Mae SATC yn pennu safonau gofynnol ar gyfer ansawdd tai cymdeithasol, gan gynnwys ar effeithlonrwydd ynni. Daeth SATC newydd yn weithredol yn 2023 gyda chanllawiau cysylltiedig wedi'u diweddaru ers hynny: Llywodraeth Cymru, Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, Ebrill 2024.

1.5 **Mae ‘cartrefi cymdeithasol’ yn cynnwys cartrefi nad ydynt yn dai rhent cymdeithasol.** Yn gyson â'r targed blaenorol o 20,000 o gartrefi, rhaid i gartrefi fod ar gael i'w rhentu ar gyfradd is na'r farchnad. Mae hynny'n cynnwys:

- tai rhent cymdeithasol, gyda rhenti'n cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru;
- tai rhent canolradd, lle mae rhenti'n uwch na rhenti cymdeithasol ond yn dal islaw rhenti'r farchnad (a all gynnwys tai rhent cymdeithasol a phreifat); a
- rhanberchnogaeth, lle mae'r tenant yn prynu cyfran ac yn rhentu'r gyfran sy'n weddill gan landlord cymdeithasol.

1.6 Mae'r targed cyfredol yn dal i fod yn fwy o her na tharged 2016-2021. Roedd y targed hwnnw'n un i gyflawni 20,000 o gartrefi fforddiadwy ond roedd y cyfrif ar ddiwedd y cyfnod o 23,061 yn cynnwys 187 o gartrefi rhannu ecwiti ac 8,875 o gartrefi Cymorth i Brynu⁸. Nid yw'r targed cyfredol yn cynnwys y categorïau hyn.


Mae Llywodraeth wedi ymateb i gynnydd araf gyda chartrefi a adeiledir o'r newydd trwy gynyddu caffaeliadau ond nid oes ganddi ddigon o gynlluniau yn yr arfaeth i gyrraedd y targed

Am amryw resymau, mae'r cynnydd o ran adeiladu cartrefu fforddiadwy newydd wedi bod yn araf

1.7 Gyda tharged a oedd yn gryn her yn pwysleisio cartrefi a adeiledir o'r newydd, roedd angen i Lywodraeth Cymru adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'r gyfradd adeiladu wedi gostwng ers 2020-21, pan adeiladwyd 3,045 o gartrefi fforddiadwy newydd (**Arddangosyn 2**). Roedd y gostyngiad yn arbennig o fawr yn 2021-22 pan adeiladwyd 2,278 o gartrefi newydd. Bu rhywfaint o adferiad i 2,829 yn 2022-23.

8 Mae Cymorth i Brynu (Cymru) yn darparu benthyciad ecwiti a rennir i brynwyr cymwys cartrefi a adeiledir o'r newydd.

Arddangosyn 2: cartrefi fforddiadwy a gyflawnwyd, 2019-20 i 2022-23



Ffynhonnell: [Datganiadau ystadegol tai fforddiadwy](#) blynyddol Llywodraeth Cymru

- 1.8 Mae rhwystrau posibl i ganlyn arni â chartrefi a adeiledir o'r newydd yn cynnwys cyfyngiadau amgylcheddol mewn perthynas â draenio cynaliadwy a gofynion o ran rhyddhau ffosffadau, materion o ran y cyflenwad o dir, a chapasiti yn y system gynllunio. Mae **Rhan 2** o'r adroddiad hwn yn ystyried y materion hyn mewn mwy o fanylder.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i liniaru'r diffyg mewn tai a adeiledir o'r newydd trwy sefydlu cynlluniau i gyllido mwy o gaffaeliadau a lesioedd hirdymor

- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynyddu caffaeliadau. Mae wedi cael gwared ar y cap ar faint o Grant Tai Cymdeithasol ellir ei ddefnyddio ar gyfer caffaeliadau. Mae hefyd wedi sefydlu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro a Chynllun Lesio Cymru. Roedd yr adborth a gawsom ni'n dynodi bod awdurdodau lleol yn croesawu'r cyllid a hyblygrwydd ychwanegol a gynigir gan y cynlluniau. Hefyd, mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi amlygu adborth cadarnhaol gan LCC am y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro⁹.

9 Cartrefi Cymunedol Cymru, [Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r cyflenwad o dai cymdeithasol](#), Ebrill 2024

Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro

- 1.10 Fe lansiodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn 2022 i ymateb i bwysau ar lety dros dro o ganlyniad i ddigartrefedd cynyddol. Canolbwyntiodd camau cychwynnol ar adnewyddu tai cymdeithasol heb eu meddiannu er mwyn eu defnyddio unwaith eto. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r rhaglen i gynnwys caffael unedau eiddo preifat a datrysiadau arloesol fel tai modwlar i'w defnyddio dros dro ar safleoedd sy'n aros i gael eu datblygu'n barhaol ('defnydd yn y cyfamser').
- 1.11 Ar draws 2022-23 a 2023-24, fe gymeradwyodd Llywodraeth Cymru grantiau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro ar gyfer 1,724 o unedau eiddo. O'r rhain, mae 1,110 yn cyfrannu at y targed cartrefi cymdeithasol heb gynnwys 614 o gartrefi gwag wedi'u hadnewyddu a oedd eisoes yn rhan o'r stoc tai cymdeithasol.

Cynllun Lesio Cymru

- 1.12 Fe lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Lesio Cymru yn 2022-23 yn dilyn cynllun peilot dwy flynedd mewn tri awdurdod lleol. Mae'r cynllun yn cynnig cymhellion i landlordiaid preifat lesio eiddo i awdurdod lleol, sy'n is-lesio i denantiaid sydd mewn angen o ran tai. Mae rhenti'n cael eu capio ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol¹⁰ ar gyfer yr ardal. Mae'r cyfraddau hynny bellach ymhell islaw cyfraddau'r farchnad ac yn galluogi unedau eiddo i gael eu cyfrif fel tai fforddiadwy. Mae landlordiaid yn cael budd o lesioedd hirdymor o 5 i 20 mlynedd, incwm rhent a warentir, a gwaith cynnal a chadw a reolir ac a gyllidir gan yr awdurdod lleol.
- 1.13 Bydd Cynllun Lesio Cymru'n rhedeg tan ddiwedd 2026-27 gyda tharged i sicrhau 1% o'r stoc tai rhent preifat yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt, sy'n cyfateb i 1,601 o unedau eiddo ar hyn o bryd¹¹. Cyflawnodd y cynllun 70 o unedau eiddo yn 2022-23, 4 yn llai na'r targed o 74 a 124 o unedau eiddo yn 2023-24 yn erbyn targed o 155. Ar y cyfan, mae'r hyn a gyflawnwyd dros y ddwy flynedd yn 12% o gyfanswm y targed 5 mlynedd.
- 1.14 Mae swyddogion yn disgwyl cynnydd cyflym yn yr unedau eiddo a gyflawnir mewn blynyddoedd diweddarach wrth i'r rhaglen gynyddu o ran maint. Bydd yr 16 o awdurdodau lleol sy'n cyfranogi, o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2024, yn cyflawni 961 o gartrefi fforddiadwy erbyn mis Mawrth 2026 os byddant i gyd yn cyrraedd eu targedau carreg filltir ac yn dal i fyny ar ddiffygion cynharach.

10 Defnyddir Lwfans Tai Lleol i gyfrifo'r uchafswm y gall pobl sy'n rhentu gan landlord preifat ei hawlio mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol.

11 Byddai'r targed yn 2,179 o unedau eiddo pe bai'r holl awdurdodau lleol yn ymuno â'r cynllun; roedd 16 wedi ymuno erbyn diwedd 2023-24. Mae un awdurdod yn mynd i fod yn ymuno yn ystod 2024-25 ac mae dau'n rhedeg cynlluniau ar wahân odd tebyg.

Mewn ymateb i bwysau ar lety dros dro, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiwygio safonau ansawdd ar gyfer caffaeliadau i'w gwneud yn bosibl prynu ystod ehangach o unedau eiddo

1.15 Ym mis Gorffennaf 2023, fe newidiodd Llywodraeth Cymru'r safonau ar gyfer caffaeliadau i alluogi ystod ehangach o unedau eiddo i gael eu prynu¹². Rhaid i unedau eiddo 'defnydd yn y cyfamser' (gweler **paragraff 1.10**) yn syml fod yn ffit i fod yn gartref. Ar gyfer pob caffaeliad arall, lle na ellir ateb GADC 2021 neu gyrraedd SATC ar y dechrau¹³, gellir prynu'r eiddo serch hynny os yw'n cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer eiddo rhent, sef ei fod yn ffit i fod yn gartref a hefyd (yn nhrefn blaenoriaeth):

- ei fod yn gallu ateb GADC neu gyrraedd SATC o fewn 10 mlynedd; neu
- nad yw'n gallu ateb GADC neu gyrraedd SATC o fewn 10 mlynedd, ac os felly gellir ei brynu serch hynny a'i ddefnyddio am isafswm o 5 mlynedd ac uchafswm o 10 mlynedd pan fo'n rhaid ei werthu ar y farchnad agored.

1.16 Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ni fod y newid yn ymateb i alwadau am bragmatiaeth a chysondeb yn wyneb niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro. Roedd yn ceisio taro cydbwysedd rhwng yr ysgogiad i sicrhau mwy o lety ar y naill law a safonau gofynnol i ddiogelu urddas a llesiant tenantiaid ar y llaw arall.

Mae Llywodraeth Cymru ychydig bach yn brin o fod â digon o gynlluniau yn yr arfaeth i gyrraedd y targed ac mae mynd yn agos yn dibynnu ar gyflawni'n gyflymach yn y ddwy flynedd olaf gan gynnwys cwblhau nifer sylweddol o gynlluniau sy'n dwyn mwy o risg

1.17 Rhwng 2021-22 a 2022-23, cyflawnodd landlordiaid cymdeithasol 5,775 o unedau eiddo o fewn diffiniad y targed (**Arddangosyn 3**). Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru'n awgrymu bod rhwng 3,084 a 3,422 o gartrefi fforddiadwy sy'n cyfrif tuag at y targed wedi cael eu cyflawni yn 2023-24. Felly byddai cyfanswm y cartrefi a gyflawnwyd yn unol â'r targed rhwng 2021-22 a 2023-24 wedi bod rhwng 8,859 a 9,197 o gartrefi.


12 Bu ychydig bach mwy o lacio ym mis Medi 2023 i ganiatáu ystafelloedd gwely llai lle nad yw ailfodelu'n ymarferol, a lle na fyddai'r ystafell ond yn cael ei meddiannu gan blentyn dan 10 oed.

13 Lle mae eiddo'n cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu neu ei ailfodelu, dylai GADC fod yn berthnasol (**Arddangosyn 1**). Ar gyfer caffael anheddau presennol neu wneud mân waith ailfodelu, SATC yw'r safon.


1.18 Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau yn yr arfaeth y rhoddwyd sgôr risg iddynt, gan dynnu ar gynlluniau lleol (gweler **paragraffau 2.11 a 2.12**). O ran y sefyllfa ym mis Mehefin 2024, pe bai'r holl gynlluniau sydd yn yr arfaeth yn cael eu cyflawni erbyn diwedd 2025-26, gan gynnwys 2,871 o rai â sgôr risg ambr a 1,001 o rai â sgôr risg coch, byddai hyn yn cyflawni 19,913 o gartrefi fforddiadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru opsiynau cyfyngedig i gynyddu'r niferoedd a gyflawnir a rheoli'r tebygolrwydd uchel na fydd rhai cynlluniau â sgôr risg ambr neu goch yn cael eu cyflawni mewn pryd neu o gwbl, beth bynnag fo'r sefyllfa o ran cyllid (gweler **paragraffau 1.42 i 1.46**). Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau i adeiladu tai newydd a allai'n realistig gael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2026 eisoes yn yr arfaeth.

Arddangosyn 3: niferoedd y tai fforddiadwy a gyflawnwyd, yn rhai gwirioneddol a rhagamcanol yn ôl sgôr risg¹, rhwng 2021-22 a 2025-26² (yn ôl y sefyllfa ym mis Mehefin 2024)

Arddangosyn 3a: niferoedd y tai a gyflawnwyd yn flynyddol



Arddangosyn 3b: niferoedd cronrus a gyflawnwyd



Nodiadau:

- 1 I awdurdodau lleol mae'r sgôr risg yn adlewyrchu risgiau i gyflawni erbyn mis Mawrth 2026. I LLC, mae'n adlewyrchu'r risg i gyflawni yn y ffrâm amser a ragwelir. Mae'r ffigyrau a'r sgoriau'n cynrychioli'r data a oedd ar gael ym mis Mehefin 2024 ond yn tynnu i raddau helaeth ar ddata a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol yn hydref 2023.
- 2 Mae'r ffigyrau ar gyfer 2021-22 a 2022-23 yn cynrychioli'r alldro. Er mwyn cysondeb rydym wedi defnyddio ffigyrau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai yn yr arfaeth fel sail i'r amcanestyniadau rhwng 2023-24 a 2025-26. Bwriedir adrodd ar y niferoedd gwirioneddol a gyflawnwyd ar gyfer 2023-24 yn hydref 2024. Ar gyfer datganiad ystadegol Tachwedd 2023, roedd landlordiaid cymdeithasol wedi amcangyfrif ar wahân y byddent yn cyflawni 3,135 o gartrefi fforddiadwy yn 2023-24 (gan gynnwys cynlluniau rhannu ecwiti na fyddent yn cyfrif tuag at y targed).
- 3 Mae 'cyflawni unionlin' yn golygu bod niferoedd cyfwerth o 4,000 o gartrefi y flwyddyn yn cael eu cyflawni. Nid oedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl patrwm unfurf. Mae **paragraffau 2.21 i 2.25** yn ystyried heriau o ganlyniad i'r proffil cyflawni anwastad.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £1.27 biliwn ar gynlluniau sy'n cyfrannu at y targed, gyda chostau'n uwch na'r disgwyl yn bennaf oherwydd pwysau allanol

Rhwng 2021-22 a 2023-24, fe wariodd Llywodraeth Cymru £1.27 biliwn ar gynlluniau sy'n cyfrannu at y targed

- 1.19 Rhwng 2021-22 a 2023-24, fe wariodd Llywodraeth Cymru oddeutu £1.10 biliwn ar gynlluniau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at adeiladu neu gaffael cartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed. Darparodd £166.5 miliwn pellach ar gynlluniau sy'n rhoi cymorth anuniongyrchol i gyflawni. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys benthyciadau i LCC a gyllidwyd â chyfalaf trafodion ariannol¹⁴.
- 1.20 Fe geisiodd ni archwilio sut y mae'r gwariant hwnnw'n cymharu â'i chynlluniau cychwynnol a ddisgrifiwyd yn 2021. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r fath yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ffrydiau cyllido newydd nad oeddent yn cael eu rhagweld yn 2021.
- 1.21 Hefyd, er bod cynllun 2021 yn cynnwys manylion llawn cyllid craidd y Grant Tai Cymdeithasol, nid oedd yn cynnwys cyfrif llawn o gostau cynlluniau a fyddai'n cyfrannu'n anuniongyrchol at y targed. Felly, mae'r dadansoddiad a ganlyn yn bwrw golwg i ddechrau ar y cyllid craidd sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyrraedd y targed ac yn archwilio'r ffrydiau cyllid sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol ar wahân.

Cynlluniau sy'n darparu cyllid uniongyrchol i adeiladu neu gaffael cartrefi


- 1.22 Daw'r rhan fwyaf o gyllid craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy o gyllideb y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Dim ond i landlordiaid cymdeithasol, ac nid datblygwyr preifat, y mae'r cynlluniau ar gael. Mae'r grantiau wedi'u bwriadu i lenwi'r 'bwch hyfywedd' rhwng adnoddau landlord cymdeithasol ei hun a'r swm y mae ei angen er mwyn i brosiect symud yn ei flaen, yn seiliedig ar fodel hyfywedd safonol (gweler **paragraff 2.18**)¹⁵.

¹⁴ Dim ond ar gyfer buddsoddiadau benthyca ac ecwiti yn y sector preifat y gellir defnyddio cyfalaf trafodion ariannol a rhaid ad-dalu o leiaf 80% i Drysorlys EF.

¹⁵ Nid yw'r model hyfywedd yn berthnasol i gaffaeliadau sy'n arwain at ddefnyddio cartrefi cymdeithasol gwag unwaith eto. Yn yr achosion hynny cyflwynir y grant i 80% o'r gost.

- 1.23 Yn 2021, roedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y byddai angen £1.6 biliwn o gyllid cyfalaf y Grant Tai Cymdeithasol dros bum mlynedd i gyflawni 17,500 o'r targed o 20,000 o gartrefi. Roedd yn disgwyl i'r 2,500 o gartrefi a oedd yn weddill gael eu cyflawni gan ddefnyddio arian landlordiaid cymdeithasol eu hunain neu gytundebau adran 106. Lluniwyd yr amcangyfrif hwn cyn creu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, sydd wedi dod yn ffynhonnell graidd ar gyfer darparu cyllid i gyrraedd y targed.
- 1.24 Gwariodd Llywodraeth Cymru £1.10 biliwn ar y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro rhwng 2021-22 a 2023-24 (**Arddangosyn 4**). Roedd hyn yn cymharu ag asesiad cychwynnol o £910 miliwn o Grant Tai Cymdeithasol yr oedd ei angen ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Arddangosyn 4: y gwariant neu'r gyllideb ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro o'i gymharu â'r cyllidebau cyfalaf craidd yr amcangyfrifwyd yn wreiddiol y byddai eu hangen ar gyfer tai fforddiadwy, rhwng 2021-22 a 2025-26^{1, 2, 3}



Nodiadau:

- 1 Gwariant gwirioneddol yw'r ffigyrau ar gyfer 2021-22, 2022-23 a 2023-24. Y gyllideb yw'r ffigyrau ar gyfer 2024-25. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu cyllideb ar gyfer 2025-26 eto.
- 2 Ar gyfer 2022-23, rydym wedi gwahanu'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro er bod Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro fel rhan o'r Grant Tai Cymdeithasol y flwyddyn honno. Ar gyfer 2023-24, roedd gan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro ei chyllideb ei hun. Dim ond gwariant ar gartrefi sy'n cyfrif tuag at y targed y mae ffigyrau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro'n ei gynnwys. Mae gwariant ar ddefnyddio cartrefi cymdeithasol presennol unwaith eto wedi cael ei dynnu allan.
- 3 Mae ffigyrau ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn cynnwys benthyciadau ad-daladwy i LCC a oedd yn werth £25 miliwn yn 2021-22 a £6 miliwn yn 2023-24 (nid oedd unrhyw fenthyciadau yn 2022-23).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

- 1.25 Ar ben y cyllid cyfalaf cyffredinol trwy'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, mae Llywodraeth Cymru'n darparu benthyciadau ad-daladwy i LCC i roi cymorth i adeiladu cartrefi newydd, a gyllidir â chyfalaf trafodion ariannol. Er enghraifft, darparodd Llywodraeth Cymru £56 miliwn mewn benthyciadau o'r fath yn 2023-24.
- 1.26 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid refeniw i roi cymorth i gyrraedd y targed. Mae'n darparu £13.1 miliwn y flwyddyn i landlordiaid cymdeithasol i gefnogi costau benthyca hirdymor. Mae peth o'r cyllid hwn yn talu am gartrefi a adeiladwyd dan dargedau blaenorol ac mae peth yn cefnogi cartrefi a gyflawnir fel rhan o'r targed cyfredol.
- 1.27 Gwariodd Llywodraeth Cymru hefyd £0.5 miliwn o gyllid refeniw yn 2022-23 ac £1.10 miliwn yn 2023-24 ar Gynllun Lesio Cymru, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y targed. Mae wedi cyllidebu £1.5 miliwn ar gyfer y cynllun yn 2024-25.

Cynlluniau sy'n rhoi cymorth anuniongyrchol i gyrraedd y targed

- 1.28 Mae ffynonellau cyllid eraill yn rhoi cymorth anuniongyrchol i gyrraedd y targed ar ben y cynlluniau craidd (**Arddangosyn 5**). Rhwng 2021-22 a 2023-24, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £166.5 miliwn ar gynlluniau sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol at y targed. Mae wedi cyllidebu £81 miliwn ar gyfer y cynlluniau hyn yn 2024-25.

Arddangosyn 5: Cynlluniau Llywodraeth Cymru sy’n rhoi cymorth anuniongyrchol i gyrraedd y targed cartrefi cymdeithasol, rhwng 2021-22 a 2024-25

Cynllun	Disgrifiad	Gwariant: Rhwng 2021-22 a 2023-24	Cyllideb: 2024-25
Cronfa Tai â Gofal	Mae’n cefnogi byw’n annibynnol ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth.	£113.2 miliwn	£60.5 miliwn
		wedi’i rannu fel a ganlyn	
	Mae’n cyllido cost gyfalaf cynlluniau newydd, fel arfer ochr yn ochr â’r Grant Tai Cymdeithasol.	2021-22 = £38.9 miliwn ¹	
		2022-23 = £31.2 miliwn	
		2023-24 = £43.1 miliwn	
	Mae cyllid yn llifo trwy fyrddau iechyd sy’n datblygu cynlluniau gyda phartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.		
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	Cyllid grant cyfalaf i ddatblygu tir y sector cyhoeddus i’w ddefnyddio ar gyfer tai, yn bennaf tai fforddiadwy.	£53.3 miliwn	£20.5 miliwn
		wedi’i rannu fel a ganlyn	
		2021-22 = £26.6 miliwn	
		2022-23 = £22.2 miliwn	
		2023-24 = £4.5 miliwn	
Cyfansymiau		£166.5 miliwn	£81 miliwn

Nodyn:

1 Sefydlwyd y Gronfa Tai gyda Gofal yn 2022-23. Y gyllideb gyfwerth o’r Gronfa Gofal Integredig a’i rhagflaenodd yw’r ffigwr ar gyfer 2021-22.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru


- 1.29 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu benthyciadau i LCC i gaffael a pharatoi tir ar gyfer tai fforddiadwy cyn cymeradwyo'r Grant Tai Cymdeithasol. Fel arfer mae'r benthyciad yn cael ei ad-dalu a'i ailgylchu o fewn y flwyddyn. Er enghraifft, yn 2023-24 darparodd Llywodraeth Cymru £38.4 miliwn mewn benthyciadau o'r fath â chyfalaf trafodion ariannol.
- 1.30 Ar ben cynlluniau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, mae cyllid gan landlordiaid cymdeithasol eu hunain a datblygwyr preifat yn cyfrannu at y targed. Hefyd, lle mae landlordiaid cymdeithasol yn gwerthu tai â gyllidwyd â'r Grant Tai Cymdeithasol, rhaid iddynt ailgylchu derbyniadau cyfalaf trwy eu buddsoddi mewn tai fforddiadwy ychwanegol. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i ategu'r Grant Tai Cymdeithasol neu ar dai fforddiadwy nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol, megis unedau eiddo rhannu ecwiti newydd. Nid ydym wedi archwilio'r defnydd o'r ffynonellau cyllid hyn na'u maint.

Mae cyfuniad o ffactorau, sy'n bennaf y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, wedi cynyddu costau adeiladu tai newydd

Chwyddiant prisiau a sbardunwyd gan ddigwyddiadau byd-eang

- 1.31 Mae effeithiau economaidd pandemig COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin wedi cynyddu costau adeiladu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu costau awgrymedig gwaith i gyflawni tai fforddiadwy a adeiledir o'r newydd, a ddefnyddir ganddi i bennu cyllid grant, yn sylweddol. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos sut y mae'r codiadau hyn yn cymharu â mynegeion y DU o bwysau costau ar adeiladu.

Arddangosyn 6: newidiadau mewn costau adeiladu a chostau awgrymedig ar gyfer tai cymdeithasol, rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mehefin 2023^{1, 2}



Nodiadau:

- 1 Mae'r Arddangosyn hwn yn cymharu sut y mae pob mesur wedi cynyddu'n ganrannol ers mis Tachwedd 2020 (100). Mae'r dyddiadau diweddarach yn adlewyrchu pryd y newidiodd Llywodraeth Cymru ei chostau awgrymedig.
- 2 Meincnod ar gyfer cost adeiladu unedau eiddo anghenion cyffredinol o wahanol feintiau a mathau (gwaith yn unig) ar y cyfan yw costau awgrymedig. Cânt eu diweddarau o bryd i'w gilydd i adlewyrchu prisiau, rheoliadau a gofynion ansawdd dylunio cyfredol, a chynigion tendro. Maent yn seiliedig ar safle 'rhesymol' heb gostau annormal na gofynion cynllunio caeth

Ffynhonnell:

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Mynegeion Prisiau Allbwn Adeiladu](#), diweddariad Mai 2024; Llywodraeth y DU, [Ystadegau deunyddiau a chydrannau adeiladu: Mai 2024](#), Mehefin 2024; a Llywodraeth Cymru, [Costau / Argostau Derbyniol i'w Defnyddio Gyda Thai a Gyllidir â'r Grant Tai Cymdeithasol yng Nghymru](#), Mehefin 2023 a fersiynau blaenorol mis Mai 2022, mis Awst 2021 a mis Tachwedd 2020


- 1.32 Fe wnaeth costau awgrymedig ar gyfer tai a byngalos gynyddu 42%, a fflatiau 60%, rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mehefin 2023. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y codiadau'n rhannol yn adlewyrchu effaith safonau adeiladu newydd ers 2021. Dywedodd wrthym hefyd fod y cynnydd sydyn yng nghostau awgrymedig fflatiau'n cywiro tanamcangyfrif hanesyddol o'r costau hyn.

- 1.33 Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol trwy Fenter Cost Deunyddiau i dalu 40-45% o gostau ychwanegol annisgwyl contractau presennol. Fe wnaeth landlordiaid cymdeithasol gyllido tua'r un swm ac fe ysgwyddodd contractwyr weddill y gost. Fe gostiodd y Fenter Cost Deunyddiau £10.6 miliwn i Lywodraeth Cymru yn 2021-22 ac £17.0 miliwn yn 2022-23.
- 1.34 Byddai Llywodraeth Cymru wedi gallu ei gwneud hi'n ofynnol i gontractwyr dalu'r costau uwch ar gontractau presennol. Fodd bynnag, roedd yn pryderu ynghylch risg fyrdymor y byddai contractwyr yn mynd yn fethdalwyr.
- 1.35 Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gofyn i ymgeiswyr am grantiau ddefnyddio cymalau amrywiadau mewn prisiau i reoli codiadau mewn costau. Dylai'r cymalau hyn olygu nad oes angen i gontractwyr gynnwys premiymau risg mawr mewn cynigion gan y byddant yn cael eu diogelu rhag codiadau sylweddol mewn costau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Cyfraddau llog cynyddol

- 1.36 Mae cyfraddau llog wedi cynyddu cost ad-dalu dyled y mae landlordiaid cymdeithasol fel rheol yn ei defnyddio i ariannu eu cyfraniad at gynlluniau tai fforddiadwy. Mae codiadau yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr wedi bwydo drwodd i gyfraddau uwch gan fenthycwyr masnachol ar gyfer LLC a chan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer awdurdodau lleol.
- 1.37 Mae model cyllido Llywodraeth Cymru'n defnyddio cyfradd llog dybiedig sy'n seiliedig ar gyfraddau cyfartalog a gyflawnwyd gan LLC wrth gaffael dyled newydd. Mae'r gyfradd hon wedi codi'n sylweddol o 3.75% ym mis Ebrill 2022 i 5.50% ym mis Mehefin 2023 (**Arddangosyn 7**). Mae'r gyfradd benthyciadau ar gyfer awdurdodau lleol wedi codi o 2.50% i 3.87% dros yr un cyfnod.

Arddangosyn 7: newidiadau yn y cyfraddau benthyca a wynebwyd gan landlordiaid cymdeithasol, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mehefin 2023



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

Setliadau rhent

- 1.38 Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru bolisi rhent cymdeithasol yn 2019. Fe wnaeth y polisi gapio'r cynnydd ar y cyfan mewn rhenti cymdeithasol ar gyfer pob landlord cymdeithasol ar lefel chwyddiant, fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), gan ychwanegu 1% am bum mlynedd o 2020-21. Fodd bynnag, pe bai chwyddiant yn mynd yn uwch na 3%, y Gweinidog sy'n gyfrifol am dai fyddai'n penderfynu ar y cap.
- 1.39 Ar gyfer 2022-23, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gapio'r cynnydd mwyaf ar y cyfan ar lefel Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr, sef 3.1%. Gan ystyried pwysau costau byw, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gapio'r cynnydd uchaf ar y cyfan islaw chwyddiant ar 6.5% ar gyfer 2023-24 (10.1% oedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr) ac ar y lefel chwyddiant o 6.7% ar gyfer 2024-25¹⁶. Mae'r codiadau is hyn yn effeithio ar y refeniw y mae landlordiaid cymdeithasol yn ei ddefnyddio i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer cost datblygiadau newydd. Mae hynny yn ei dro'n lleihau hyfywedd pob cynllun, gan gynyddu lefel y grant sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

16 Pennir rhenti cymdeithasol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn seiliedig ar dueddiadau chwyddiant yn y flwyddyn flaenorol.

Effeithiau ar y cyfan ar gostau unedau

- 1.40 Mae'r pwysau o ran costau a restrir uchod, ar y cyd â'r safonau adeiladu newydd (**Arddangosyn 1**), wedi achosi i'r grant sy'n ofynnol ar gyfer pob eiddo anghenion cyffredinol newydd godi. Cynyddodd 75% rhwng 2020-21 a 2023-24, o oddeutu £93,000 i oddeutu £163,000. Fe gynyddodd y grant sy'n ofynnol ar gyfer tai â chymorth i grwpiau ag anghenion arbennig 41% rhwng 2020-21 a 2023-24, o oddeutu £140,500 i oddeutu £197,500.
- 1.41 Mae'r grant gan Lywodraeth Cymru sy'n ofynnol i brynu unedau eiddo presennol yn sylweddol is nag ar gyfer adeiladu tai newydd. Tua £120,000 yr eiddo oedd cyfartaledd grantiau yn 2023-24, i fyny o £99,000 yn 2022-23.

I fynd yn agos at gyrraedd y targed, bydd angen i Lywodraeth Cymru gynyddu gwariant yn sylweddol, tra'i bod yn bosibl na fydd opsiynau i wneud i'r cyllid sydd ar gael fynd ymhellach yn ddymunol

- 1.42 Pennodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £330 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a £50 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn 2024-25¹⁷. Nid yw wedi pennu cyllideb ar gyfer 2025-26 eto. Fodd bynnag, at ddibenion cynllunio mae swyddogion wedi tybio cyllideb dybiannol o £300 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a £50 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.
- 1.43 Mae modelu faint fydd yn ei gostio i Lywodraeth Cymru gyflawni'r cartrefi sy'n dal yn yr arfaeth ganddi'n gymhleth. Nid yw prosiectau a gyllidir mewn un flwyddyn yn cael eu cwblhau tan y nesaf fel arfer. Mae hynny'n golygu bod llawer o gartrefi a gyflawnwyd yn gynnar yn y cyfnod targed hwn wedi cael eu cyllido, o leiaf yn rhannol, cyn 2021-22. I'r gwrthwyneb, mae cynlluniau a gyllidir am y tro cyntaf yn 2025-26 yn annhebygol o gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2026.
- 1.44 Gan adeiladu ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru, rydym ni'n amcangyfrif y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i gymaint â rhwng £580 miliwn a £740 miliwn yn ychwanegol i gyflawni'r cartrefi sydd ganddi yn yr arfaeth hyd at fis Mawrth 2026¹⁸. Mae yn nodi'r sail lawn ar gyfer ein hamcangyfrifon.

17 Er mai £50 miliwn yw cyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i landlordiaid cymdeithasol adnabod gwerth £100 miliwn o gaffaeliadau posibl fel cynllun wrth gefn pe bai cyllid ar gael.

18 Rydym ni'n tybio bod holl gyllid y Grant Tai Cymdeithasol yn 2024-25 a chyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn 2024-25 a 2025-26 yn cefnogi cynlluniau a gwblheir erbyn mis Mawrth 2026. Mae ein hachos sylfaenol yn tybio bod oddeutu 20% o'r cyllid tybiannol o £300 miliwn trwy'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2025-26 yn cyfrannu at gynlluniau sy'n cwblhau o fewn y flwyddyn. Mae ein hachos pesimistaidd yn tybio nad oes unrhyw gyfran o'r cyllid hwnnw'n cyfrannu at y targed.

- 1.45 Rydym ni'n amcangyfrif, heb gyllid ychwanegol, y byddai rhwng 15,860 ac 16,670 o gartrefi o fewn diffiniad y targed erbyn mis Mawrth 2026. Mae hyn yn tybio bod y nifer a gyflawnir yn 2023-24 yn cyfateb i ben uchaf amcangyfrif Llywodraeth Cymru (gweler **paragraff 1.17**). Byddai'r ddau senario'n golygu bod Llywodraeth Cymru ymhell o gyrraedd y targed o 20,000.
- 1.46 Ceir opsiynau i Lywodraeth Cymru wneud i gyllid ymestyn ymhellach (**Arddangosyn 8**). Fodd bynnag, efallai na fyddai'r rhain yn cynnig gwell gwerth am arian at ei gilydd a/neu dros y tymor hwy. Nid yw'r pwysau i sicrhau cartrefi'n syml yn ymwneud â chyrraedd y targed. Mae taer angen cartrefi fforddiadwy oherwydd niferoedd uchel iawn o bobl sydd mewn llety dros dro (gweler **paragraff 2.4**). Mae'r pwysau byrdymor hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r angen i barhau i gyflawni cartrefi fforddiadwy carbon isel a adeiledir o'r newydd y tu hwnt i fis Mawrth 2026.

Arddangosyn 8: prif opsiynau i gyflawni mwy o unedau o dai am gost is

Cynyddu caffaeliadau a lesio

Rydym ni'n amcangyfrif y byddai'r cyllid ychwanegol sy'n ofynnol i gyrraedd y targed yn gostwng rhwng £110 miliwn a £140 miliwn pe cyflawnid 50% o'r ddarpariaeth anghenion cyffredinol trwy gaffael unedau eiddo presennol.

Mae caffaeliadau o'r fath yn haws i'w sicrhau. Fodd bynnag, gallai costau cynnal a chadw uwch ar gyfer unedau eiddo hŷn ac unrhyw fuddsoddiad i gyrraedd nodau lleihau carbon ddileu arbedion cychwynnol ar gostau cyfalaf.

Gallai Llywodraeth Cymru gaffael unedau eiddo newydd sydd eisoes wedi cael eu hadeiladu hefyd. Ond mae'r gost unedol gyfartalog i Lywodraeth Cymru'n uwch na chartrefi a adeiledir o'r newydd sy'n cael eu cyflawni gan landlordiaid cymdeithasol.

Nid yw caffael unedau eiddo presennol yn ychwanegu at y stoc dai ddefnyddiadwy yn yr un ffordd â chartrefi a adeiledir o'r newydd oni bai eu bod yn golygu bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod oddeutu dwy ran o dair o'r 70 o gartrefi a ddarparwyd ym mlwyddyn gyntaf Cynllun Lesio Cymru wedi bod yn wag am fwy na chwe mis. Arweiniodd cam cyntaf y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro at feddiannu 374 o gartrefi cymdeithasol gwag unwaith eto, er nad yw'r rhain yn cyfrif tuag at y targed.

Gostwng safonau ansawdd	Gellid lleihau costau cartrefi a adeiledir o'r newydd trwy lacio safonau amgylcheddol a safonau o ran gwagle. Er enghraifft, yn 2021 amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai systemau gwresogi nad ydynt yn defnyddio tanwyddau ffosil yn golygu bod angen £5,775 yn ychwanegol mewn grant. Gallai newidiadau o'r fath ddwyn arbedion byrdymor ond byddent yn gwrthdaro â'r ffocws polisi tymor hwy ar ansawdd a chyflawni cartrefi carbon isel.
Newid cydbwysedd deiliadaeth	Tai cymdeithasol yw'r ddeiliadaeth ddrutaf, gyda chyfradd grant yn nodweddiadol dros 60%. Mewn cyferbyniad, mae'r gyfradd grant ar gyfer rhanberchnogaeth wedi'i chapio ar 25%, tra bo tai rhent canolradd rhwng y ddau ffigwr. Gallai newid cydbwysedd deiliadaeth alluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy unedau am ei chyllid. Fodd bynnag, byddai'n golygu bod tenantiaid yn talu mwy o'r costau trwy eu rhent.



Trefniadau llywodraethu a rheoli

02

Tudalen y pecyn 112

- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn bwrw golwg ar drefniadau Llywodraeth Cymru i roi cymorth i wireddu ei huchelgeisiau ar gyfer tai fforddiadwy.

Yr hyn y gwnaethom chwilio amdano

Fe chwiliom ni am dystiolaeth o ddealltwriaeth dda am yr angen a'r galw am dai fforddiadwy, systemau priodol i arfarnu prosiectau a gyllidwyd a goruchwylio'r broses gyflawni gan gynnwys sicrhau manteision ehangach, a threfniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i ymdrin â'r rhwystrau i gynydd.

Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru'n deall yr angen dybryd am dai fforddiadwy ond mae'r angen hirdymor yn aneglur ac nid yw'r patrwm cyflawni'n cyd-fynd â'r asesiad o anghenion

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr angen dybryd am dai fforddiadwy ond nid oes ganddi asesiad tymor hwy ac mae'n bosibl bod amcangyfrifon cenedlaethol yn tanddatgan yr angen a'r galw

- 2.2 Mae asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru'n dweud, rhwng 2019-20 a 2023-24, bod angen cyfartaledd o 3,510 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn¹⁹. Roedd hyn yn seiliedig ar anghenion newydd a oedd yn codi, oherwydd twf y boblogaeth, a diwallu anghenion presennol pobl a oedd yn byw mewn llety dros dro neu a oedd 'wedi'u celu' mewn cartrefi gorlawn.
- 2.3 Roedd yr asesiad hefyd yn dweud y byddai angen 73,000 o gartrefi ychwanegol fwy neu lai rhwng 2024 a 2039 ond nid oedd yn dweud faint ohonynt y byddai angen iddynt fod yn fforddiadwy. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n afresymol gwahanu y tu hwnt i bum mlynedd o ystyried ansicrwydd yn economeg y farchnad dai
- 2.4 Roedd yr amcangyfrifon yn tybio y byddai'r angen presennol heb ei ddiwallu wedi cael ei ddileu erbyn 2023-24²⁰. Roeddent yn nodi bod 2,229 o aelwydydd mewn llety dros dro ym mis Mehefin 2019. Fodd bynnag, erbyn mis Medi 2023, roedd y ffigwr hwnnw wedi mwy na dyblu i 5,700.

19 Llywodraeth Cymru, [Amcangyfrifon o'r Angen Ychwanegol am Dai yng Nghymru \(Sail 2019\)](#) Awst 2020. Mae'r diffiniad o dai fforddiadwy yn yr amcangyfrifon yn cynnwys pob math o dai fforddiadwy, nad yw rhai ohonynt yn cyfrif tuag at y targed o 20,000. Rydym wedi defnyddio'r ffigyrau o'r asesiadau cenedlaethol o anghenion yma. Nid yw cyfansymiau o'r ffigyrau cenedlaethol hyn yn gyson â'r rhai o'r ffigyrau rhanbarthol yr adroddwyd arnynt ar gyfer yr angen am dai fforddiadwy a thai'r farchnad. Roedd yr amcangyfrifon hefyd yn dangos y byddai angen cyfartaledd o 3,857 o dai'r farchnad bob blwyddyn.

20 Roedd yr amcangyfrifon yn cydnabod, erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd, y gallai ôl-groniad newydd fod wedi datblygu.


- 2.5 Rhwng 2019-20 a 2022-23, cyflawnwyd 12,590 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn erbyn yr asesiad a ddynododd fod angen 14,048. Ni all cyfanswm y diffyg o 1,458 ond esbonio'n rhannol pam fod yr angen presennol nas diwallwyd wedi cynyddu gymaint. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod digwyddiadau ers datblygu'r asesiadau wedi effeithio ar lefel yr angen, yn anad dim pandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw, a'i phenderfyniad i groesawu dinasyddion o Wcráin a oedd yn ffoi rhag y rhyfel.
- 2.6 Mae'r amcangyfrifon hefyd o bosibl yn tanddatgan faint o gartrefi fforddiadwy ychwanegol y mae eu hangen oherwydd nad ydynt yn rhoi cyfrif am dai fforddiadwy a gollir, er enghraifft trwy werthiannau neu ddymchweliadau. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data ar newidiadau net yn y stoc tai fforddiadwy. Mae'n adrodd ar faint y stoc tai cymdeithasol. Er bod y stoc honno'n tyfu, mae'n tyfu o lai na nifer y tai fforddiadwy a gyflawnir bob blwyddyn²¹.
- 2.7 Hefyd, mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar angen yn hytrach na'r galw posibl. Mae'r diffiniad o angen presennol nas diwallwyd yn dynn ac nid yw'n cynnwys y rhai y mae arnynt angen mathau eraill o dai neu sydd mewn llety anaddas. Mae angen sy'n codi o'r newydd yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a thueddiadau hanesyddol o ran aelwydydd yn ymffurfio.

Nid yw'r patrwm cyflawni tai fforddiadwy'n cyd-fynd â'r amcangyfrifon o'r angen

- 2.8 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol i awdurdodau lleol yn seiliedig ar fformiwla y cytunwyd arni yn 2011, gan ddefnyddio data ar amcanestyniadau aelwydydd, fforddiadwyedd, a gwariant hanesyddol. Mae'n dyrannu cyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gyfateb i'r angen presennol, yn seiliedig ar nifer y bobl mewn llety dros dro.
- 2.9 Pwysleisiodd swyddogion fod angen tai fforddiadwy ym mhobman. Serch hynny, roedd amcangyfrifon Llywodraeth Cymru'n dangos bod oddeutu 59% o'r angen rhwng 2019-20 a 2023-24 yn Ne Ddwyrain Cymru (**Arddangosyn 9**). Mae hynny'n uwch na chyfran y rhanbarth o'r boblogaeth, sef 49%.

21 Rydym ni'n amcangyfrif mai oddeutu 1,000 o gartrefi bob blwyddyn yw'r bwlch rhwng tai fforddiadwy a gyflawnwyd a thwf y stoc tai cymdeithasol. Fodd bynnag, gan nad yw'r holl stoc tai fforddiadwy'n perthyn i'r dosbarth tai cymdeithasol gallai'r ffigwr hwnnw fod yn gorddatgan y colledion i'r stoc tai cymdeithasol.


Arddangosyn 9: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r angen blyneddol am dai fesul rhanbarth ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Amcangyfrifon o'r Angen Ychwanegol am Dai yng Nghymru (sail 2019), Awst 2020

2.10 Mae cryn dipyn yn fwy o dai fforddiadwy wedi cael eu cyflawni yn Ne Cymru nag mewn ardaloedd eraill (**Arddangosyn 10**). Fodd bynnag, nid yw'r patrwm cyflawni'n cyd-fynd â lefelau cymharol yr angen yn yr amcangyfrifon. Rhwng 2019-20 a 2022-23, roedd De Ddwyrain Cymru'n rhoi cyfrif am 53% o'r cartrefi fforddiadwy a gyflawnwyd ond roedd gan y rhanbarth 59% o'r angen. Roedd gan yr holl ranbarthau eraill gyfran uwch o'r cartrefi newydd a gyflawnwyd nag y mae'r asesiad o'r angen yn ei awgrymu. Ond roedd diffyg ar y cyfan yn golygu na chyflawnwyd y nifer yr oedd ei angen yn nhri o'r pedwar rhanbarth. Yng nghanolbarth Cymru, roedd y 178 o gartrefi a gyflawnwyd ar gyfartaledd bob blwyddyn yn fwy na dwbl yr angen a amcangyfrifwyd o 75.

Arddangosyn 10: nifer cyfartalog y cartrefi fforddiadwy a gyflawnwyd bob blwyddyn yn ôl ardal awdurdod lleol, rhwng 2019-20 a 2022-23



Ffynhonnell: StatsCymru, [Darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol yn ôl lleoliad a blwyddyn](#), diweddariad mis Tachwedd 2023

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwella ei dealltwriaeth am yr angen lleol am dai fforddiadwy ac mae'n cryfhau'r fframwaith ar gyfer asesu'r angen lleol am dai ar y cyfan er y bu oedi cyn rhoi hynny ar waith

- 2.11 Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno prospectws tai yn seiliedig ar dystiolaeth yn eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r prospectws yn cynnwys disgrifiad byr o flaenoriaethau strategol ar gyfer tai, y stoc gyfredol, a'r angen disgwyliedig am wahanol fathau o dai fforddiadwy. Mae hefyd yn disgrifio sut y bydd yr awdurdod lleol yn blaenoriaethu ac yn monitro cynlluniau tai fforddiadwy yn ei gynllun datblygu rhaglen treigl tair blynedd, gan gynnwys cynlluniau LCC.
- 2.12 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol ddiweddarau'r prospectws bob blwyddyn os oes angen. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn diweddarau'r cynlluniau datblygu rhaglen yn chwarterol trwy borth data Llywodraeth Cymru (gweler **paragraff 2.45**). Fe wnaethom ni adolygu sampl o bum prospectws a chanfod eu bod yn rhoi sail dda i Lywodraeth Cymru ddeall anghenion lleol am dai fforddiadwy.
- 2.13 Mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull cyson ar gyfer asesu'r angen lleol am dai ar y cyfan. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaredig yn cwmpasu tai'r farchnad a thai fforddiadwy ac yn adeiladu ar y dull ar gyfer yr amcangyfrifon cenedlaethol. Fodd bynnag, mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio tystiolaeth leol o'r angen a barn partneriaid a'r cyhoedd. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gefnogol i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaredig mewn egwyddor ond wedi cael y broses a'r offer data'n rhwystredig ac yn feichus mewn rhai ffyrdd.
- 2.14 Mae oedi wedi arwain at gamgymhariad mewn amseroedd ar gyfer yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol diweddaredig a diweddariadau i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Dylai'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol oleuo'r CDLI. Yn ystod pandemig COVID-19 fe ohiriodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol o fis Hydref 2020 tan fis Mawrth 2022. Wedyn roedd awdurdodau lleol i fod i gwblhau Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol erbyn mis Mawrth 2024, ond dim ond ychydig a wnaeth hynny. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ni fod yr holl awdurdodau lleol, ar ddechrau mis Mehefin 2024, wedi cyflwyno o leiaf fersiwn ddrafft o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wedi bod yn datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaredig cyn eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol diweddaredig²².

22 Y 22 o awdurdodau lleol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yw'r awdurdodau cynllunio. Mae dau awdurdod wedi mabwysiadu eu CDLI diweddaredig. Mae gan saith ddrafft terfynol sydd ar y cam cynllun adneuo. Mae deuddeg wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at ddatblygu eu CDLI diweddaredig. Nid yw'r pedwar sy'n weddill i fod i ddiweddarau eu CDLI tan 2026 neu'n hwyrach.

Mae trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r Grant Tai Cymdeithasol yn gadarn fel rheol ac wedi cael eu cryfhau gan amcanu at sicrhau gwell gwerth am arian

- 2.15 Fe wnaethom ganolbwyntio ein hadolygiad o arfarnu a rheoli grantiau ar y Grant Tai Cymdeithasol fel y ffynhonnell gyllido fwyaf. Mae awdurdodau lleol yn dethol pa gynlluniau i'w cyflwyno gerbron o'u cynllun datblygu rhaglen (gweler **paragraff 2.11**), er bod y rhan fwyaf yn cael eu datblygu a'u cyflawni gan LCC. Mae proses arfarnu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau y cydymffurfir â safonau ansawdd a dylunio a bod costau'n cael eu rheoli (**Arddangosyn 11**).

Arddangosyn 11: proses arfarnu a monitro graidd ar gyfer cyllid y Grant Tai Cymdeithasol

Cam	Proses
Cyn arfarnu	Mae penseiri yn Nhîm Ansawdd a Safonau Tai Llywodraeth Cymru'n rhoi cyngor ynghylch y dyluniad cysyniadol ac yn cadarnhau'n ddiweddarach bod y dyluniad manwl yn ateb gofynion ansawdd. Y landlord cymdeithasol sy'n gwneud y penderfyniad yn y pen draw ynghylch lleoliad a dyluniad, yn amodol ar ofynion cynllunio lleol.
Arfarnu	Mae Tîm Cyllid Tai Llywodraeth Cymru'n goruchwyllo'r broses arfarnu ac yn cymeradwyo grantiau ar ôl cadarnhau: • bod y cynllun yng nghynllun datblygu rhaglen yr awdurdod lleol ac yn cyd-fynd â'r anghenion a adnabuwyd yn y prospectws tai; • bod y cynllun yn ateb gofynion o ran ansawdd; • bod cost y cynllun yn dderbyniol; • bod y grant yn gyfyngedig i'r isafswm y mae ei angen i fwrw ymlaen; • bod caffaeliadau tir neu eiddo'n cael eu prisio'n annibynnol ac yn cael eu prynu am werth y farchnad neu werth is na hynny; a • bod prosiectau i adeiladu cartrefi newydd wedi sicrhau caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth systemau draenio cynaliadwy.
Gwiriadau ar ôl arfarnu	Mae gwiriadau ar sampl o gynlluniau ar ôl eu cwblhau'n ystyried a gydymffurfiwyd ag amodau ac yn adnabod gwersi. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol gadw cofnod llawn o'r cynnydd, gan gynnwys manylion contractau ac adroddiadau syrfewyr.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

2.16 Cawsom adborth cadarnhaol gan awdurdodau lleol am berthnasodedd â swyddogion Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses arfarnu. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad, o ran sicrhau tai fforddiadwy o fewn terfynau safonau/costau, bod y system yn gadarn ac yn cael ei rhoi ar waith yn gyson am y rhesymau isod. Fodd bynnag, nid yw'r dull wedi'i fwriadu i ystyried cyflawni manteision ehangach â'r buddsoddiad (gweler hefyd **paragraffau 2.46 i 2.52**).

- 2.17 **Ceir dulliau effeithiol o reoli costau.** Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ynghylch costau derbyniol ar gyfer tai anghenion cyffredinol o wahanol feintiau a mathau, y mae'n eu diweddarau'n rheolaidd ac yn eu defnyddio i benderfynu faint o gyllid i'w gymhwyso (gweler **paragraff 1.31**). Ceir goddefiant pellach o hyd at 20% ychwanegol ar gyfer cynlluniau cymhleth. Ceir 7% pellach ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn defnyddio tanwyddau ffosil a 10% ar gyfer y rhai sy'n defnyddio dulliau adeiladu modern. Mae'r grant uchaf posibl felly'n 137% o'r costau derbyniol.
- 2.18 **Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno model cyllido newydd i gyfyngu ei chyfraniad at gynlluniau unigol i'r isafswm y mae ei angen.** Mae'r model hyfywedd safonol, a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, wedi cael derbyniad cadarnhaol gan randdeiliaid. Mae wedi'i fwriadu i gyfyngu cyllid Llywodraeth Cymru i'r isafswm sy'n ofynnol er mwyn bwrw ymlaen â chynllun. Mae'r model yn disodli'r gyfradd grant sefydlog o 58% o gostau cymwys a oedd yn bodoli tan fis Ebrill 2021 ar gyfer awdurdodau lleol a than fis Ebrill 2022 ar gyfer LCC.
- 2.19 **Ceir rheolaethau i atal gwastraff a thwyll.** Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol cael prisiadau annibynnol i ategu penderfyniadau i brynu tir ac adeiladau. Mae ganddi bridiant cyfreithiol ar unedau eiddo a gyllidwyd ag arian grant, gan sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn ailgylchu enillion o werthu i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy newydd. Mae cytundebau grant yn ei gwneud yn ofynnol caffael contractwyr adeiladu mewn modd cystadleuol ac mae prosesau caffael yn cael eu gwirio fel rhan o adolygiadau ar ôl cwblhau.
- 2.20 **Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau proses arfarnu'r Grant Tai Cymdeithasol i'w gwneud yn fwy effeithlon ac yn haws i'w dilyn.** Mae'r broses wedi cael ei rhannu'n gamau (**Arddangosyn 11**). Ceir ffocws cryfach ar gyngor ynghylch cydymffurfio yn y cam cyn arfarnu. Mae swyddogion wedi lleihau swm y ddogfennaeth ategol sy'n ofynnol yn y cam arfarnu. Ac er bod Llywodraeth Cymru'n tybio y bydd landlordiaid cymdeithasol yn cyflawni yn unol ag amodau'r grant, ceir cam adolygu ar ôl cwblhau sydd wedi'i ddiweddarau a hwnnw'n seiliedig ar sampl.

Mae'r diffyg dull hirdymor o ymdrin â thai fforddiadwy'n rhwystro cynnydd ac yn cyfrannu at batrwm ansfydlog o wariant a chyflawni

- 2.21 Nid oes cynllun na strategaeth hirdymor ffurfiol ar gyfer cyflawni tai fforddiadwy. Y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd y mae'r targed yn ymwneud ag ef, mae'r unig ymrwymiad ffurfiol yn y cynllun datblygu ar y cyfan i Gymru²³. Mae'r cynllun yn datgan, 'Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer y cartrefi hyn ei ddrynnu a'i ddefnyddio'n effeithiol'. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad hirdymor ffurfiol i ddarparu cyllid y tu hwnt i'r targed cyfredol.
- 2.22 Mae'r dull sy'n seiliedig ar gyfnod targed o bum mlynedd yn creu risg o wreiddio patrwm cyflawni anghynaliadwy, lle mae'r niferoedd a gyflawnir yn is yn gynnar yn y cyfnod ac yna'n cael eu cynyddu'n ddiweddarach. Mae'r patrwm hwn yn cymhlethu prosesau cynllunio a rheoli ariannol ac yn creu'r risg o danwariant yn gynnar yn y cylch a diffyg yn ddiweddarach. Mae terfynau gwariant blynyddol yn golygu nad yw hi'n rhwydd esmwythau'r patrymau hyn trwy dreiglo cyllid o un flwyddyn i'r llall.
- 2.23 Dywedodd rhai ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lleol eu bod wedi colli cyllid am nad oeddent yn gallu gwario'r cyllid a ddrynnwyd iddynt yn ystod y flwyddyn oherwydd oedi a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Nid ydym wedi archwilio pam, dan amgylchiadau o'r fath, fod awdurdodau wedi methu â symud cyllid o fewn eu llifoedd prosiectau eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod yn well am ragweld tanwariannau ac mae bellach yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn gynharach yn y flwyddyn. Mae hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gryfhau llifoedd prosiectau lleol, gan gynnwys trwy'r cynlluniau datblygu rhaglen (gweler **paragraff 2.11**).
- 2.24 Serch hynny, canfuom fod yr anwadlwydd o ran ailgyfeirio cyllid yn ystod y flwyddyn yn achosi rhwystredigaeth i landlordiaid cymdeithasol. Mae hefyd yn creu risg y bydd cyllid yn cael ei ailddrynnu i ardaloedd â phrosiectau sy'n barod i symud ymlaen at y cam adeiladu, yn hytrach nag yn seiliedig ar y boblogaeth neu'r angen. I ymdrin â'r pryderon hyn, yn 2023-24 fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith strategol newydd i awdurdodau lleol ildio rhan o'u dyraniad ariannol blynyddol yr oeddent yn annhebygol o'i gwario a chael yr arian yn ôl mewn flwyddyn ddiweddarach os ydynt yn gallu ei wario bryd hynny.

2.25 Ni ddylai hyd yn oed cylch blynyddol atal Llywodraeth Cymru rhag bod ag ymrwymiad cyllido hirdymor eang a llif prosiectau llawnach sy'n rhedeg ymhell y tu hwnt i'r cyfnod targed. Mae gan Lywodraeth Cymru ddull o'r fath o ymdrin â'i rhaglen adeiladau ysgolion ac addysg bellach sydd wedi symud yn ddiweddar i gyfnod cynllunio treigl dros naw mlynedd. Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ddull pum mlynedd ar gyfer cyllido fel rhan o ddiwygiadau cyllido ehangach. Er bod Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r model cyllido (gweler **paragraff 2.18**) ac wedi pennu cyllideb tair blynedd ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol, ni chyflwynodd ddull pum mlynedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n dda gyda phartneriaid fel rheol, gan ei helpu i ymateb i rai risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg, er ei bod yn dal yn wir nad oes dull cyfunol o ymdrin â chyfyngiadau o ran capasiti mewn gwasanaethau cynllunio lleol

2.26 Canfuom fod rhanddeiliaid yn siarad yn gadarnhaol fel rheol am ddull cydweithredol Llywodraeth Cymru. Mae wedi cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru yn ei Bwrdd Rhaglen sy'n goruchwyllo'r broses gyflawni. Mae hefyd wedi cydweithio mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, er enghraifft ar y model cyllido newydd a phroses Asesu'r Farchnad Dai Leol.

2.27 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ddeall ac ymdrin â'r materion a nodir isod a'r pwysau diweddar o ran costau (gweler **paragraffau 1.31 i 1.41**). Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod diffyg dull cyfunol cydlynus o ymdrin â chyfyngiadau o ran capasiti mewn gwasanaethau cynllunio lleol.

Draenio cynaliadwy

2.28 Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru safonau Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau) newydd a ddaeth i rym yn 2019²⁴. Materion mewn perthynas â SDCau oedd y pryderon a enwyd fwyaf yn ein galwad ni am dystiolaeth. Yn hydref 2023, fe wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu cynlluniau a oedd yn yr arfaeth ac wedi cael sgôr risg ambr neu goch lle dywedodd landlordiaid cymdeithasol mai cynllunio oedd achos yr oedi. Canfu'r adolygiad fod gan hanner y cynlluniau broblemau a oedd yn gysylltiedig â SDCau.

24 Llywodraeth Cymru, Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy – dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenoddol Wymber (SDCau), Hydref 2018

- 2.29 Roedd ymatebwyr i'n galwad ni am dystiolaeth yn tueddu i bwysleisio'r diffyg capasiti arbenigol mewn awdurdodau lleol fel ffynhonnell allweddol a oedd yn achosi pryder ac oedi. Adnabu adolygiad Llywodraeth Cymru fod cyngor gwael i ymgeiswyr yn broblem. Canfu hefyd fod rhai achosion o oedi i'w priodoli i ymgeiswyr. Roedd y rhain yn cynnwys oedi cyn ymateb i ymholiadau swyddogion cynllunio ac ymgeiswyr yn peidio â gwneud defnydd da o'r broses cyn ymgeisio.
- 2.30 Fe wnaeth adolygiad o'r rheoliadau²⁵ ym mis Gorffennaf 2023 ar ôl eu rhoi ar waith argymhellion i wella'r broses asesu. Fe ymrwymodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd i nifer o gamau gweithredu, tra bo ystyriaeth lawn i'r adroddiad yn yr arfaeth²⁶. Mae'r camau gweithredu hynny, sydd bellach wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith ar gyfer y Gymuned Ymarfer SDCau²⁷, yn cynnwys:
- cynnal rhagor o hyfforddiant ar gyfer Cyrff Cymeradwyo SDCau;
 - ymchwilio i oblygiadau cynnwys priffyrdd newydd a phresennol dan y rheoliadau i ymdrin â dŵr ffo oddi ar ffyrdd;
 - datblygu mecanwaith gwell ar gyfer casglu data ac adrodd arno;
 - cyfuno'r holl ddogfennau canllaw ar gyfer SDCau yn un ddogfen a gwella eglurder a chysondeb; a
 - sefydlu grŵp cynghori ar SDCau.

Ffosffadau mewn afonydd

- 2.31 Maethynnau sy'n mynd i mewn i afonydd yn bennaf o ddŵr gwastraff ac amaethyddiaeth yw ffosffadau. Yn gynnar yn 2021, fe gyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor i awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu polisi o 'niwtraliaeth maethynnau' mewn afonydd sydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). O ganlyniad, fe wnaeth rhai awdurdodau, yn anad dim y rhai o amgylch dalgylchoedd afonydd Gwy a Dyfrdwy, atal datblygiadau tai newydd yn sydyn.
- 2.32 Mae Llywodraeth Cymru wedi dod â rhanddeiliaid ynghyd mewn 'uwchgynadleddau llygredd afonydd' i ddatblygu datrysiadau heb beryglu ansawdd afonydd ymhellach. Yn dilyn yr uwchgynhadledd gyntaf ym mis Gorffennaf 2022, datblygodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu sy'n cynnwys mesurau tymor byr a hwy²⁸. Cynhaliwyd pedair uwchgynhadledd bellach rhwng mis Mawrth 2023 a mis Gorffennaf 2024.

25 Arup (ar gyfer Llywodraeth Cymru), Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) Adolygiad Ôl-weithredu Atodlen 3, Gorffennaf 2023

26 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Sicrhau manteision gwell ar gyfer natur, yr amgylchedd a chymunedau drwy Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) – cyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru ynghyd â'r camau nesaf, Gorffennaf 2023

27 Mae'r Gymuned Ymarfer yn cwrdd yn chwarterol ac yn dwyn ynghyd arbenigwyr o fewn y sector.

28 Llywodraeth Cymru, Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy: cynllun gweithredu, Mawrth 2023

- 2.33 Mae camau gweithredu wedi cynnwys: sefydlu Byrddau Rheoli Maethynnau i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maethynnau ym mhob afon mewn ACA sy'n methu; datblygu cyfrifydd maethynnau Cymru gyfan; a chreu 'dewislen' o fesurau lliniaru posibl megis gwrthbwysu maethynnau, a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.
- 2.34 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod landlordiaid cymdeithasol, i ddechrau, wedi adnabod 68 o safleoedd â chyfanswm o 2,010 o gartrefi (yn rhai'r farchnad a rhai fforddiadwy) fel rhai a oedd wedi'u hatal am y tro oherwydd ffosffadau. O ran y sefyllfa ym mis Mehefin 2024, dim ond pum safle yr adroddwyd fod oedi gyda hwy oherwydd ffosffadau²⁹. Canfuom fod rhanddeiliaid yn gadarnhaol fel rheol ynglŷn â gweithredu ar y cyd, ond mynegodd rhai rwystredigaeth ynglŷn â bwlch o fwy na blwyddyn rhwng cyhoeddi'r canllawiau a gwaith ar gynllun yn dechrau mynd rhagddo.
- 2.35 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi ar hyn o bryd yn asesu'r effaith y gallai llygredd nitradau ei chael ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol a bydd yn ystyried beth allai'r canfyddiadau ei olygu ar gyfer cynllunio datblygu. Pe bai angen camau gweithredu pellach, mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cymhwyso gwersi o waith ansawdd dŵr yn nalgylchoedd afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Cynllunio

- 2.36 Adnabu nifer o ymatebwyr i'n galwad ni am dystiolaeth bryderon ynghylch y broses gynllunio, yn enwedig effaith oedi gyda cheisiadau. Amlygodd ymatebwyr brinderau o fewn y gweithlu ar y cyfan, gyda phryderon penodol ynghylch diffyg swyddogion cynllunio profiadol. Dywedodd rhai fod y sefyllfa'n cael ei gwaethgu gan gymhlethdod yr offer data cynllunio a'r ystod o ganllawiau a safonau cynllunio. Fodd bynnag, fe wnaeth ymatebwyr ganmol swyddogion cynllunio o fewn awdurdodau lleol, gan gydnabod y cyfyngiadau o ran capasiti a chyflawni y maent yn eu hwynebu.
- 2.37 Fe wnaethom amlygu materion o ran capasiti gwasanaethau cynllunio mewn adroddiadau cenedlaethol ar reoli perygl llifogydd yn 2022³⁰ ac ar awdurdodau cynllunio lleol yn 2019³¹. Fe wnaeth ein hadroddiad yn 2019 argymhellion i awdurdodau lleol ar gyfer cryfhau capasiti, gan gynnwys trwy fwy o weithio rhanbarthol. Ym mis Mehefin 2020, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'i phwerau i sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydweithio ac yn cyfuno i wella cydnerthedd a chynyddu capasiti³².

²⁹ Mae rhai o'r cynlluniau a ataliwyd yn flaenorol yn peidio â mynd yn eu blaenau am resymau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â ffosffadau.

³⁰ Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Darlun o Reoli Perygl Llifogydd](#), Rhagfyr 2022

³¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#), Mehefin 2019

³² Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#), Mehefin 2020

- 2.38 Gan ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru y byddai Cydbwyllgorau Corfforedig yn darparu mecanwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol, gan gynnwys mewn meysydd megis cynllunio defnydd tir strategol. Dynododd hefyd y byddai fframwaith llywodraethu'n cael ei gyflwyno i ddarparu ar gyfer mwy o gydweithio rhwng awdurdodau cynllunio lleol i wella cydnerthedd a chapasiti. Nid ydym wedi bwrw golwg yn benodol ar weithredu'r argymhellion hyn fel rhan o'r adolygiad hwn, er ein bod wedi adrodd yn flaenorol ar ddatblygu Cydbwyllgorau Corfforedig ar y cyfan³³.
- 2.39 Mae'n amlwg o'r adborth a gawsom bod problemau'n parhau. Mae'n dal yn wir nad oes dull cyfunol cydlynus o ymdrin â'r materion o ran capasiti yn y system gynllunio. Adnabu ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth ddatrysiadau posibl, yr oedd rhai ohonynt yn adlewyrchu themâu o'r argymhellion cynharach. Roedd y rhain yn cynnwys rhagor o gydweithio rhanbarthol, cynyddu'r llwybrau i mewn i'r proffesiwn cynllunio megis y rhaglen brentisiaeth swyddog cynllunio a ddatblygwyd yn Lloegr, a gwaith ar gadw staff a allai adael i ymuno ag ymgynghoriaethau neu adael y proffesiwn yn gyfan gwbl.
- 2.40 Cafodd materion mewn perthynas â'r system gynllunio – gan gynnwys hyd, cost a chymhlethdod y broses – sylw hefyd mewn adroddiad diweddar gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar adeiladu tai yn y farchnad ehangach. Roedd yr adroddiad yn nodi opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio'r system gynllunio i Lywodraeth Cymru eu hystyried³⁴.

Cyflenwad o dir

- 2.41 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol presennol yn awgrymu bod digon o dir ar gael, er bod llawer o'r cynlluniau hyn yn cael eu diweddarau (gweler **paragraff 2.14**) a all gyfleu darlun gwahanol. Fodd bynnag, cawsom adborth a oedd yn awgrymu bod llawer o'r tir hwnnw'n anaddas, nad yw yn yr ardaloedd ag angen mawr, ac nad yw tiffeddianwyr yn rhyddhau'r tir i'w ddatblygu.

33 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cydbwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd, Tachwedd 2023

34 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Summary of CMA market study final report into housebuilding, Wales summary, Chwefror 2024

- 2.42 Amcangyfrifodd astudiaeth ym mis Mawrth 2020 fod digon o dir ar safleoedd preswyl segur³⁵ yng Nghymru i adeiladu 32,680 o gartrefi'r farchnad a chartrefi fforddiadwy³⁶. Mynegodd rhai ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth rwystredigaeth ynglŷn â gorfod cymryd safleoedd bychain, is-optimaidd a wrthodwyd gan adeiladwyr tai mawr. Ceir pryder hefyd bod cystadleuaeth rhwng LCC yn achosi cynnydd ym mhrisiau tir, gan felly gynyddu swm y grant gan Lywodraeth Cymru y mae ei angen.
- 2.43 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus ac yn rhoi cymorth ariannol i ddatblygu tir y sector cyhoeddus i'w ddefnyddio fel tai fforddiadwy (**Arddangosyn 5**). Mae hefyd yn bwriadu defnyddio peth o'i phortffolio tir ei hun fel safleoedd 'enghreiffiol'. Mae'r rhain yn golygu datblygiadau tai y mae 50% ohonynt yn rhai fforddiadwy a 50% ohonynt yn rhai marchnad, gyda chontractwyr yn adeiladu cartrefi i safonau 'enghreiffiol'. Mae'r safonau'n cynnwys cartrefi sy'n rhai carbon sero ac yn defnyddio dulliau adeiladu modern, yn enwedig gweithgynhyrchu oddi ar y safle. Mae'r rhaglen yn ei chomau cynnar ac nid oes unrhyw ddatblygiadau wedi'u cyflawni eto.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwella ei defnydd o ddata mewn amser real i roi cymorth i gynllunio a monitro cynnydd

- 2.44 Yn hanesyddol, bu Llywodraeth Cymru'n dibynnu'n helaeth ar y datganiad ystadegol blynyddol ôl-weithredol i fonitro cynnydd yn erbyn y targed. Er mai hon yw'r ffynhonnell fwyaf cywir a chynhwysfawr, mae'n saith mis oed o leiaf pan gaiff ei chyhoeddi. Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio gwybodaeth o gynlluniau datblygu rhaglen awdurdodau lleol, eu data ar wariant, a chyfarfodydd gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd y ffynonellau hynny'n rhoi darlun eglur mewn amser real o gynnydd ar y cyfan.
- 2.45 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwella'i data monitro'n ddiweddar. Ym mis Mehefin 2023, fe sefydlodd borth sy'n galluogi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu data ar gartrefi a gyllidir â'r Grant Tai Cymdeithasol wrth iddynt symud ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfuno'r data hwn ag amcanestyniadau ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, Cynllun Lesio Cymru, ac unedau eiddo a gyflawnir trwy gytundebau Adran 106 i ffurfio'r llif prosiectau (gweler **Arddangosyn 3**). Cyflwynir y data i Fwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru. Mae'r datganiad ystadegol yn dal i gael ei ddefnyddio fel y dull ffurfiol o adrodd ar gynnydd ar y cyfan o ran darparu tai fforddiadwy a'r cynnydd yn erbyn y targed.

35 Diffinnir safle preswyl segur fel safle a ddyrannwyd o fewn CDLI lle nad oedd datblygu wedi dechrau o fewn y taflwybr disgwylidiedig a roddwyd yn y CDLI, lle nad oedd wedi dechrau o fewn y ffrâm amser a ddynodwyd yn y Gydastudiaeth berthnasol o Argaeledd Tir ar gyfer Tai, neu lle nad yw wedi dechrau eto a bod dim taflwybr disgwylidiedig yn y CDLI na ffrâm amser mewn Cydastudiaeth berthnasol o Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

36 Arcadis (ar gyfer Llywodraeth Cymru), Ymchwil i safleoedd segur yng Nghymru: adroddiad terfynol, Mawrth 2020

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i sicrhau bod buddsoddi mewn tai fforddiadwy'n cyfrannu at amcanion polisi ehangach

2.46 Gall buddsoddi mewn tai fforddiadwy gael effeithiau cadarnhaol y tu hwnt i ddarparu cartref y gall pobl ei fforddio. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddisgrifio'r manteision ehangach ar ddechrau'r cyfnod targed. Ym mis Hydref 2022, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru 'fap manteision' sy'n nodi manteision lefel uchel dan bum categori (Arddangosyn 12).

Arddangosyn 12: manteision ehangach posibl datblygu tai fforddiadwy y mae Llywodraeth Cymru wedi eu hadnabod

Map manteision Llywodraeth Cymru

Yr Economi	• Effaith gadarnhaol ar swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi. • Effaith gadarnhaol ar yr economi sylfaenol. • Cryfhau sefydlogrwydd ariannol LCC ac awdurdodau lleol, sy'n helpu'r sector LCC i dyfu.
Iechyd	• Deilliannau iechyd gwell i'r rhai mewn tai cymdeithasol trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy, diogel o ansawdd gwell sy'n diwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol.
Cymunedau	• Cynorthwyo LCC i weithredu fel sefydliadau angori mewn cymunedau.
Newid hinsawdd	• Cyflawni tuag at nod cenedlaethol carbon sero net.
Dileu anghydraddoldebau	• Mae'n ymateb i'r angen, y genhadaeth a'r blaenoriaethau trosfwaol cenedlaethol ar gyfer tai mewn perthynas â digartrefedd a sicrhau bod cartrefi'n diwallu anghenion yr holl unigolion gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Ffynhonnell: Map manteision Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi)

2.47 Yn ystod ein gwaith maes, darparodd Llywodraeth Cymru gynllun gwireddu manteision a oedd wedi'i gwblhau'n rhannol ar ein cyfer, a hwnnw hefyd yn dwyn y dyddiad Hydref 2022. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r manteision a nodir yn y map. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys rhyw lawer o fanylion am sut y byddant yn cael eu sicrhau a'u mesur.

- 2.48 Ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu, y dybiaeth sylfaenol yw y bydd manteision yn llifo'n naturiol o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu. Cyrraedd y targed yw'r mesur o lwyddiant felly. Ar gyfer swyddi a phrentisiaethau, mae'r cynllun yn cydnabod nad yw data o'r fath yn bodoli ond nid yw'n nodi unrhyw gamau i archwilio sut y gellid eu monitro.
- 2.49 Yn ddiweddarach darparodd Llywodraeth Cymru fersiynau o'r cynllun ar ein cyfer a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2023 ac ym mis Mehefin 2024. Y gwahaniaethau allweddol yw cynnwys mesur o nifer y cofrestriadau mewn addysg alwedigaethol a chyfeiriadau at fonitro manteision i'r gymuned.
- 2.50 Er bod rhywfaint o orgyffwrdd, nid yw'r map a'r cynllun manteision yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ran o'i hasesiad effaith integredig a oedd yn nodi ar lefel uchel iawn sut y mae cyrraedd y targed yn cyd-fynd â'r nodau llesiant³⁷. Eto, mae'n nodi mai cyrraedd y targed yw sut y bydd yn mesur y manteision.
- 2.51 Mae'r asesiad effaith integredig llawn sydd heb ei gyhoeddi'n cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Adnabu effeithiau cadarnhaol y byddai cyrraedd y targed yn eu cael ar grwpiau penodol: pobl hŷn, pobl iau, pobl ag anableddau ac aelwydydd incwm isel. Ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dywedodd wrthym nad oedd hi'n ofynnol iddi wneud hynny. Fodd bynnag, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi asesiadau sy'n adnabod effeithiau sylweddol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi mai dim ond pan fo effeithiau'n negyddol y mae hyn yn ofynnol.
- 2.52 Yn ymarferol, ceir rhai trefniadau i integreiddio'r broses o gyrraedd y targed tai fforddiadwy ag amcanion ehangach. Er enghraifft, mae swyddogion sy'n gweithio ar y targed yn rhan o drefniadau i fynd i'r afael â digartrefedd. Ac er nad yw meini prawf proses arfarnu'r Grant Tai Cymdeithasol yn ymdrin â hwy (gweler **Arddangosyn 11**), mae amodau'r grant yn cynnwys gofyniad i sicrhau manteision i'r gymuned. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith monitro i weld a yw hyn yn digwydd yn ymarferol, er bod y diweddariad ym mis Mehefin 2024 i'r cynllun gwireddu manteision yn awgrymu y bydd hyn yn cael ei wirio yn y dyfodol. Ar y cyfan, ceir cyfle sylweddol i gryfhau'r dull o integreiddio'r broses o gyrraedd y targed ag amcanion ehangach.

37 Llywodraeth Cymru, Adeiladu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd: asesiad integredig o'u heffaith, Medi 2023



Atodiad

1 Ynglŷn â'n gwaith

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwestiwn, cwmpas a meini prawf yr archwiliad

Fe wnaeth ein harchwiliad ystyried a yw Llywodraeth Cymru'n gwneud defnydd da o'i hadnoddau i gyrraedd ei tharged cartrefi cymdeithasol a chyflawni manteision cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cynnydd tuag at y targed cyfredol, rhagolygon ar gyfer ei gyrraedd, a gwariant cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried sut y mae camau gweithredu ar dai fforddiadwy'n cael eu rheoli a'u llywodraethu. Fe wnaethom gyffwrdd â rhai o'r materion a archwiliwyd yn yr archwiliad hwn yn ein hadroddiad diweddar ar adfywio tir llwyd³⁸.

Yn ystod ein gwaith, fe lansiodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd ymchwiliad i'r cyflenwad o dai cymdeithasol. Mae'n cwmpasu nifer o'r meysydd yn ein hadroddiad ni. Rydym wedi dilyn yr ymchwiliad yn fanwl ac mae tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn adlewyrchu ein canfyddiadau ni ein hunain mewn nifer o ffyrdd.

Wrth ddatblygu ein meini prawf archwilio, roeddem yn ymwybodol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fe wnaethom ystyried y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu dyletswyddau archwilio'r Archwilydd Cyffredinol dan y Ddeddf. Fe wnaethom hefyd dynnu ar arfer da o ran rheoli rhaglenni a rheoli risg o ffynonellau gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Roedd ein harchwiliad cul-ei-gwmpas yn canolbwyntio ar brif gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni tai fforddiadwy fel a ddiffinnir gan ei tharged, ond hefyd ar unrhyw gynlluniau eraill sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol at y targed hwnnw. Ni wnaethom fwrw golwg ar y canlynol:

- cyflawni cynlluniau datblygu neu ddarparu gwasanaethau unigol gan LCC neu awdurdodau lleol;
- rheoli'r stoc dai bresennol gan LCC a sut y dyrennir tai cymdeithasol i ddeiliaid;
- polisiâu neu gynlluniau i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi mewn rhannau o Gymru; nac ychwaith
- rhoi cymorth integredig i'r rhai sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd, trwy'r Grant Cymorth Tai.

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag, Ionawr 2024

Wrth bennu cwmpas ein gwaith, fe wnaethom ystyried adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn 2019³⁹ ac ymateb Llywodraeth Cymru. Roedd y 62 o argymhellion yn yr adroddiad yn cwmpasu meysydd gan gynnwys fforddiadwyedd a rheoli rhenti, ymgysylltu â thenantiaid, tir a chynllunio, cyflenwi a chyflawni, a threfniadau cyllido. Er nad oeddem yn benodol yn ceisio asesu'r modd y rhoddwyd yr argymhellion ar waith, a bod nifer y tu hwnt i gwmpas ein hadolygiad, rydym yn cyffwrdd ag amryw gamau gweithredu sudd wedi deillio ohonynt. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un ond un o'r argymhellion.

Dulliau archwilio

Adolygu dogfennau

Fe wnaethom adolygu dogfennaeth a ddarparwyd ar ein cyfer ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion byrddau rhaglen a chynghori, a fforymau rhanddeiliaid, cofrestrau risgiau, strategaethau a chynlluniau, canllawiau a phapurau polisi. Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar ddogfennau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol gan gynnwys sampl o bum prospectws yn nodi'r angen lleol am dai fforddiadwy (gweler **paragraff 2.11**).

Galwad am dystiolaeth

A hithau ar agor rhwng 3 Gorffennaf a 28 Gorffennaf 2023, cawsom 41 o ymatebion i'r alwad gan LCC, awdurdodau lleol, elusennau, cyrff cynrychiolaidd ac unigolion. Fe wnaethom rannu'r alwad am dystiolaeth trwy negeseuon e-bost wedi'u targedu at sefydliadau, trwy weithgarwch i'w hyrwyddo gan gyrff cynrychiolaidd, ac ar y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

Roedd yr alwad am dystiolaeth yn gwahodd ymatebwyr i fyfyrion ynghylch yr hyn a oedd yn gweithio'n dda o ran rhaglen tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru, yr hyn a allai fod wedi gweithio'n well, ac unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud. Roedd yn ysgogi ymatebwyr i ystyried amryw themâu sy'n cael sylw yn ein dadansoddiad ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Cyfweliadau lled-strwythuredig

Fe wnaethom gyfweld â swyddogion o nifer o adrannau yn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Cartrefi Cymunedol Cymru. Fe wnaethom hefyd gynnal cyfweliadau dilynol gyda rhai ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth o awdurdodau lleol a LCC, i glywed mwy am y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt.

39 Y Panel Annibynnol ar y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, Adroddiad Terfynol, May 2019

Arsylwadau

Fe fynychom ni'r ail, y drydedd a'r bedwaredd Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd, a sefydlwyd i ddatblygu ymateb cyfunol i heriau o ran terfynau ffosffadau, ym mis Mawrth a mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024.

Dadansoddi data

Fe wnaethom adolygu data ariannol anarchwiliedig ar wariant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaethom ddadansoddi'r data tai a ddarparwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth Cymru, yn anad dim y data a ddefnyddiwyd i ddatblygu ei llif prosiectau.

Fe wnaethom hefyd dynnu ar ffynonellau data agored megis StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn arbennig, rydym wedi tynnu ar ddadansoddiad ystadegol Llywodraeth Cymru o'r angen am dai fforddiadwy a'r broses o'u cyflawni.

Ceir gwahaniaeth rhwng y diffiniad o 'dai fforddiadwy' mewn ystadegau gwladol a'r hyn sy'n cyfrif tuag at darged Llywodraeth Cymru. At ddibenion ystadegol, mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r diffiniad o 'dai fforddiadwy' a nodir mewn cyngor technegol⁴⁰. Ceir rhai anheddau, yn anad dim anheddau rhannu ecwiti, a gaiff eu cynnwys yn yr ystadegau tai fforddiadwy ond nad ydynt yn cyfrif tuag at y targed. Mae datganiadau ystadegol tai fforddiadwy blynyddol Llywodraeth Cymru'n adrodd ar gynnydd tuag at y targed ar wahân i'r dadansoddiad ehangach o dai fforddiadwy.

Wrth adrodd ar adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd, fe ddefnyddiom ni ddata o ddatganiadau ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar ddarparu tai fforddiadwy. Ceir data adeiladu tai ychwanegol ar StatsCymru sy'n dangos faint o gartrefi a adeiladwyd gan landlordiaid cymdeithasol. Mae'r set ddata hon yn dangos gostyngiad mawr yn nifer y cartrefi a adeiladwyd ar gyfer deiliadaeth landlordiaid preifat a chymdeithasol ers y 1970au. Er bod y duedd gyffredinol honno'n ddilys, mae Llywodraeth Cymru'n cynghori y gallai'r ystadegau hyn fod yn tanddatgan nifer yr unedau eiddo a adeiladwyd gan landlordiaid cymdeithasol ac yn gorddatgan nifer y tai preifat.

40 Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: cynllunio a thai fforddiadwy, Mehefin 2006

Cost cyrraedd y targed a senarios cyflawni yn y dyfodol

Fe wnaethom amcangyfrif cost bosibl, ar ben tybiaethau cyllidebol presennol, cyflawni'r 10,716 o gartrefi sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Mae ein hamcangyfrif yn adeiladu ar ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae amcanestyniadau ar gyfer cyflawni cartrefi a gyllidir â'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn seiliedig ar gyllidebau cyfredol ac amcangyfrif o'r grant cyfartalog sy'n ofynnol am bob cartref a gaiff ei sicrhau. Yn unol â'r data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru fe greom ni ddau senario: senario achos sylfaenol (**Arddangosyn A1**) a senario pesimistaidd (**Arddangosyn A2**). Y prif wahaniaethau yw tybiaethau ynglŷn â chwyddiant, prisiau tai, nifer y tai a gyflawnir heb gyllid grant, a pha un a yw cyllid y Grant Tai Cymdeithasol yn 2025-26 yn sicrhau cartrefi o fewn y flwyddyn.

Arddangosyn A1: amcangyfrifon achos sylfaenol o'r gofynion cyllido ar ben cyllidebau presennol i gyflawni'r prosiectau tai fforddiadwy sy'n dal yn yr arfaeth

Achos sail	Cyfrifiad	Sylw
Nifer y cartrefi sy'n dal yn yr arfaeth	10,716	Nifer y cartrefi sydd yn yr arfaeth i'w cyflawni yn 2024-25 a 2025-26.
Namyn cartrefi a gyllidwyd yn 2023-24 a 2024-25 â'r Grant Tai Cymdeithasol i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2026	3,928	Amcangyfrif o'r cartrefi a gyllidwyd â'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2023-24 (gan ddefnyddio alldro a grant cyfartalog gwirioneddol) a 2024-25 (yn seiliedig ar y gyllideb gyfredol a grant cyfartalog o £177,861 y cartref).
Namyn caffaeliadau trwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro	838	Yn seiliedig ar gyllideb o £50 miliwn ar gyfer 2024-25 a chyllideb dybiannol o £50 miliwn ar gyfer 2025-26. Hefyd gan ddefnyddio tybiaeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd gostyngiad bach yng nghost cartrefi ar y farchnad breifat.
Namyn nifer yr unedau eiddo nad ydynt yn cael cyllid grant cyfalaf	1,590	Yn seiliedig ar asesiad gan Lywodraeth Cymru sydd islaw tueddiadau hanesyddol ond yn uwch na'r nifer yn yr arfaeth ar hyn o bryd.
Namyn nifer yr unedau eiddo o Gynllun Lesio Cymru	770	Yn seiliedig ar dargedau'r cynllun.
Nifer y cartrefi sy'n weddill i'w cyflawni / cyllido	3,590	
Cost cyflawni'r cartrefi sy'n weddill yn seiliedig ar gyfradd grant gyfartalog (wedi'i thalgrynnu)	£640 miliwn	Cyfradd grant gyfartalog o £177,861 ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol a lwfans ar gyfer chwyddiant o 2.2% yn seiliedig ar amcanestyniadau achos sylfaenol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.
Cost cyflawni'r cartrefi sy'n weddill yn seiliedig ar gyfradd grant gyfartalog ond gan lwfio am beth cyllid yn 2025-26 sy'n cyflawni yn ystod y flwyddyn (wedi'i thalgrynnu)	£580 miliwn	Tybiaeth bod 20% (£60 miliwn) o'r gyllideb Grant Tai Cymdeithasol dybiedig o £300 miliwn yn cyflawni cartrefi yn ystod y flwyddyn.

Arddangosyn A2: amcangyfrifon achos pesimistaidd o'r gofynion cyllido ar ben cyllidebau presennol i gyflawni'r prosiectau tai fforddiadwy sy'n dal yn yr arfaeth

Achos pesimistaidd	Cyfrifiad	Sylw
Nifer y cartrefi sy'n dal yn yr arfaeth	10,716	Nifer y cartrefi sydd yn yr arfaeth i'w cyflawni yn 2024-25 a 2025-26.
Namyn cartrefi a gyllidwyd yn 2023-24 a 2024-25 â'r Grant Tai Cymdeithasol i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2026	3,888	Amcangyfrif o'r cartrefi a gyllidwyd â'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2023-24 (gan ddefnyddio alldro a grant cyfartalog gwirioneddol) a 2024-25 (yn seiliedig ar y gyllideb gyfredol a grant cyfartalog o £181,863 y cartref).
Namyn caffaeliadau trwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro	816	Yn seiliedig ar gyllideb o £50 miliwn ar gyfer 2024-25 a chyllideb dybiannol o £50 miliwn ar gyfer 2025-26. A chan ddefnyddio asesiadau o'r farchnad sy'n tybio cynnydd bach ym mhrisiau tai.
Namyn nifer yr unedau eiddo nad ydynt yn cael cyllid grant cyfalaf	1,190	Yn seiliedig ar asesiad gan Lywodraeth Cymru o'r nifer gwirioneddol yn yr arfaeth ar hyn o bryd.
Namyn nifer yr unedau eiddo o Gynllun Lesio Cymru	770	Yn seiliedig ar dargedau'r cynllun.
Nifer yr unedau eiddo sy'n weddill i'w cyflawni / cyllido	4,052	
Cost cyflawni'r cartrefi sy'n weddill yn seiliedig ar gyfradd grant gyfartalog	£740 miliwn	Pennir cyfradd grant gyfartalog o £181,863 ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol a lwfans ar gyfer chwyddiant o 4.5% yn seiliedig ar amcanestyniadau achos gwaethaf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Nodyn: Yn y senario pesimistaidd hwn nid oes lwfans o gwbl i unrhyw gyllid yn 2025-26 arwain at gyflawni yn ystod y flwyddyn.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Digidol o fwriad? Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cyngorau yng Nghymru

Awst 2024



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein Hadolygiad	6
Yr hyn a ganfuom	8
Atodiadau	
1 Adroddiadau ar gynghorau ledled Cymru	25
2 Ein cwestiynau a meini prawf archwilio	26

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

	3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid cywir?	- Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell deilliannau a gwerth am arian trwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft ar gyfer: - rhannu neu gyfuno arbenigedd ac adnoddau; - rhannu gwybodaeth; a - sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys ystyried gwerth am arian.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol?	4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau hirdymor o ran adnoddau? 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni deilliannau gwell dros yr hirdymor?	• Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol, a chost (ariannol ac o ran deilliannau) peidio â gwneud hynny. • Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'buddsoddi i arbed' arfaethedig a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol. • Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud trwy weithredu ei strategaeth ddigidol. • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a/neu well defnydd o adnoddau dros y tymor hwy'n cael eu hybu a'u cefnogi, hyd yn oed: - lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor; a - lle y bo'r manteision yn debygol o gael eu cronni gan sefydliad arall neu eu priodoli i sefydliad arall.
5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?	5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu'r cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy?	• Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian. • Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/ amcanion partneriaethau. • Mae'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a hir.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio?	6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol?	• Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys: - effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol; - effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol; - effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; a - darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol ar y cyfan o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol. • Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r gwersi hyn i'w strategaeth ddigidol.
	6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgir o'i ddull o weithredu ei strategaeth ddigidol?	• Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau

Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad
yng nghynghorau Cymru

Gorffennaf 2024



Mae'r ddogfen hon yn grynodedb o'r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb o’r adroddiad

Yr hyn yr oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef	4
Pam y dewisom ni wneud yr adolygiad hwn	6
Yr hyn nad oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef	6
Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano	7
Yr hyn a ganfuom	7
I bwy mae ein canfyddiadau’n berthnasol?	9
Beth nesaf?	9

Adroddiad manwl

Pam fod meddu ar wybodaeth am berfformiad sy’n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau mor bwysig	10
Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano	12
Yr hyn a ganfuom	14
Heblaw am ychydig o gynghorau, cyfyngedig yw’r wybodaeth am berfformiad a ddarperir gan gynghorau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall cynnydd tuag at y deilliannau y maent yn ceisio’u cyflawni, a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn rhwystr i allu cynghorau i wybod a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian	14
Ychydig o wybodaeth am berfformiad oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau lle’r oedd safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn y cwestiwn	15
Goblygiadau ar gyfer cynghorau’n fwy eang	18
Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru	21

Atodiadau

1 Cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano	23
--	----

Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r crynodeb o'r adroddiad yn darparu trosolwg byr o gwmpas ein gwaith, pam y gwnaethom ni'r gwaith a'n canfyddiadau cyfunol. Ceir rhagor o fanylion am ein canfyddiadau yn yr adroddiad manwl.

Yr hyn yr oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef

- 1 Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried a yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn eu helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau gweithgareddau'r Cyngor er mwyn iddynt allu rheoli eu perfformiad yn effeithiol. Pan ydym yn defnyddio'r term uwch arweinwyr, rydym yn golygu uwch swyddogion ac uwch aelodau. Fe wnaethom ni'r adolygiad hwn ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.
- 2 Fe ganolbwyntiom ni ar y prif adroddiadau y mae cynghorau'n eu defnyddio i helpu uwch arweinwyr i fonitro a rheoli eu perfformiad. Mae cynghorau'n gwneud llawer o ymdrech i gynhyrchu'r adroddiadau hyn ac maent yn aml yn rhai cyhoeddus.
- 3 Fe wnaethom hefyd ystyried y trefniadau sydd gan gynghorau i wirio bod y data ynghylch perfformiad a ddefnyddir ganddynt yn gywir.
- 4 Mae'r cwestiynau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**. Yn y bôn mae'r meini prawf archwilio'n nodi sut y mae da yn edrych a'r hyn y byddem yn disgwyl ei ganfod.

Beth ydym yn ei olygu wrth y term safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau?

Mewn llawer o ardaloedd, nid oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o reidrwydd pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Nid oes gan drigolion ddewis go iawn o ran pwy sy'n casglu'r rhan fwyaf o'u gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu, er enghraifft.

Felly mae deall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaeth, yn hytrach na buddiannau'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau, yn bwysig.

Beth ydym yn ei olygu wrth y term deilliannau?

Y canlyniad terfynol yw deilliant, y gwahaniaeth a wnaed gan y cam gweithredu neu'r gwasanaeth. Y deilliant bwriadedig yw'r hyn y mae'r Cyngor yn amcanu at ei gyflawni – y pam neu'r 'felly beth?'. Gall deilliannau fod yn rhai tymor byr, tymor canolig neu dymor hwy. Efallai na fydd deilliannau o fewn rheolaeth cyngor yn llwyr ond yn ddibynnol ar eraill hefyd.

Mae deilliannau'n wahanol i allbynnau. Y 'beth' yw allbynnau – y gwasanaethau a'r nwyddau a ddarperir i helpu i gyflawni'r deilliant a ddymunir.

Enghreifftiau o ddeilliannau ac allbynnau

Efallai mai allbwn rhaglen hyfforddi fydd nifer y bobl a gwblhaodd y rhaglen. Y deilliant fyddai'r gwahaniaeth a wnaed gan yr allbynnau hyn, megis gwella sgiliau. Gall deilliant ymwneud â gwelliant.

Mae nifer y milltiroedd o briffordd sydd wedi cael wyneb newydd yn allbwn. Gall deilliannau ymwneud â llai o ddamweiniau, llifoedd traffig gwell, amseroedd teithio byrrach.

Pam y dewisom ni wneud yr adolygiad hwn

- 5 Mae cynghorau'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Felly, mae'n hollbwysig bod cynghorau'n deall effaith eu gweithgareddau a'u polisiau i wybod a ydynt yn defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth (gan sicrhau gwerth am arian) ac yn cyflawni'r hyn yr oeddent yn ceisio'i gyflawni (eu hamcanion). Mae hyn yn bwysicach byth mewn cyfnod o her ariannol. Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru yw penderfynu a yw cynghorau wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian.
- 6 O'i fynegi'n syml, heb ddeall gwybodaeth am ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, gall Cyngor fod yn gwneud y pethau anghywir, neu'n gwneud pethau'n anghywir.

Yr hyn nad oedd a wnelo ein hadolygiad ag ef

- 7 Nid oedd ein hadolygiad yn adolygiad o drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu cynghorau. Ni wnaethom adolygu'r modd y mae cynghorau'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch newidiadau penodol i wasanaethau neu ynghylch polisi drafft neu strategaeth ddrafft.
- 8 Nid oedd ychwaith yn adolygiad o'r trefniadau rheoli perfformiad ar y cyfan sydd gan gynghorau nac yn adolygiad o ansawdd y data.
- 9 Mae cynghorau'n pennu amcanion i'w hunain, sef yr hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni. Maent fel rheol yn disgrifio eu hamcanion yn eu cynlluniau corfforaethol ynghyd â chamau gweithredu y byddant yn eu cymryd i'w helpu i gyflawni eu hamcanion. Felly gellid dadlau mai deall pa wahaniaeth y mae'r camau gweithredu hyn yn ei wneud a'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaethau'n ei feddwl o wasanaeth yw'r agwedd bwysicaf ar drefniadau rheoli perfformiad cyngor.

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

- 10 Roeddem yn chwilio am yr arfer o rannu gwybodaeth am berfformiad gydag uwch arweinwyr a fyddai'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r manteision bwriadedig y mae'n gweithio tuag atynt.
- 11 Roeddem yn gobeithio canfod y byddai'r wybodaeth hon yn amlwg yn nhrefniadau cynghorau ar gyfer adrodd ar berfformiad. Trwy wneud yr wybodaeth hon yn ganolog i drefniadau adrodd ar berfformiad, mae'n helpu cynghorau i fod yn dryloyw ac yn atebol am eu perfformiad. Mae hefyd yn ffordd i gynghorau ddangos eu bod yn gwerthfawrogi llais y dinesydd.
- 12 Roeddem hefyd am weld bod uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a gweithredu lle y bo angen i wella deilliannau.
- 13 Roedd arnom eisiau gweld bod gan gynghorau drefniadau i wirio bod y data ynghylch perfformiad y maent yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau yn gywir.

Yr hyn a ganfuom

- 14 Nid yw ein canfyddiadau'n gadarnhaol iawn. Ac eithrio ychydig o gynghorau, canfuom mai cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarperir gan gynghorau i helpu uwch arweinwyr i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau. Felly, mae'n anodd gweld sut y mae cynghorau'n gwybod go iawn a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian.

- 15 Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod fel a ganlyn:
- roedd ychydig o gynghorau'n gwneud gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn greiddiol i'w trefniadau adrodd ar berfformiad, ond ychydig iawn o wybodaeth am berfformiad oedd y rhan fwyaf o gynghorau'n ei chynnwys i helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.
 - roedd adroddiadau ar berfformiad yn tueddu i ganolbwyntio ar allbynnau, y 'beth', heb ryw lawer o werthusiad o'r 'felly beth'. Pa wahaniaeth oedd yr allbynnau'n ei wneud, a oedd hyn yn unol â'r deilliannau yr oedd y Cyngor yn amcanu at eu cyflawni a'r amcanion yr oedd wedi'u pennu i'w hunan? Yn gyffredinol, nid oedd yr wybodaeth am berfformiad yn helpu i ateb y cwestiynau hyn.
 - cyfyngedig oedd y trefniadau a oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau i wirio cywirdeb eu data ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.
- 16 Mae ein canfyddiadau'n peri pryder inni. Roeddem yn disgwyl canfod darlun mwy cadarnhaol nag a wnaethom gan bod pwysigrwydd deall deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn cael ei bwysleisio am flynyddoedd.
- 17 Gan bod y canfyddiadau'n debyg ar draws y rhan fwyaf o gynghorau, yn gyffredinol rydym wedi gwneud yr un tri argymhelliad, neu amrywiadau arnynt, ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gryfhau'r wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau, yn ogystal â chryfhau trefniadau ansawdd data.
- 18 Nid yw rhai cynghorau'n cytuno â'n canfyddiadau ac maent wedi beirniadu cwmpas ein gwaith. Mae'r ymateb gan rai cynghorau'n awgrymu diffyg dealltwriaeth am bwysigrwydd meddu ar wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.
- 19 Rydym yn gobeithio y bydd taflu goleuni ar y mater pwysig hwn yn annog cynghorau i ymdrin yn gadarnhaol â'n hargymhellion.

I bwy y mae'n canfyddiadau'n berthnasol?

- 20 Mae ein canfyddiadau'n berthnasol i gynghorau – i aelodau ac uwch swyddogion.
- 21 Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan ei bod yn rhoi pwyslais sylweddol ar arwyddocâd hunanasesiadau cynghorau i reoli perfformiad. Eto mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau ynglŷn â gwerth a chadernid yr hunanasesiadau hyn ac i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ddibynnu arnynt i ddeall sut y mae cynghorau'n perfformio.

Beth nesaf?

- 22 Byddem yn disgwyl canfod sefyllfa well pan fyddwn yn gwneud gwaith dilynol ar ein hargymhellion.
- 23 Rydym hefyd yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob cyngor fod yn ceisio sicrwydd bod ei gyngor yn mynd i'r afael â'n hargymhellion.
- 24 Mae'r adroddiadau lleol ar gyfer pob un o'r 22 o gynghorau ar gael ar ein gwefan.




Adroddiad manwl

Pam fod meddu ar wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau mor bwysig

- 25 Rôl allweddol cynghorau yw darparu gwasanaethau ac mae cynghorau'n gwario symiau mawr o arian cyhoeddus yn gwneud hyn; gwasanaethau, sy'n aml yn hollbwysig i fywydau beunyddiol y bobl y maent yn eu gwasanaethu.
- 26 Nid yw gwybodaeth am ddeilliannau a defnyddwyr gwasanaethau'n gysyniadau newydd. Mae arwyddocâd deall y rhain wedi bod yn cael ei bwysleisio am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys yn yr adroddiad 'Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd' ("Adroddiad Beecham", a gyhoeddwyd yn 2006) ac Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("Comisiwn Williams", a gyhoeddwyd yn 2014).
- 27 Mewn llawer o ardaloedd, nid oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau ddewis o reidrwydd pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Felly, mae deall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaeth, yn hytrach na buddiannau'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau, yn bwysig. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall cyngor ei sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol ag un o'r ffyrdd o weithio, sef 'cynnwys', wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 28 Mae'r un peth yn bwysig gyda deilliannau. Os nad oes gan Gyngor wybodaeth am berfformiad sy'n ei helpu i ddeall deilliannau ei weithgareddau, sut y mae'n gwybod pa wahaniaeth y mae'n ei wneud?
- 29 Yn syml, heb ddeall yr wybodaeth hon, gall y Cyngor fod yn gwneud y pethau anghywir, neu'n gwneud pethau'n anghywir. Efallai na fydd yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol (gwerth am arian).
 - a. Darbodaeth – Cael yr allbynnau cywir am y gost isaf (neu gael bargaen dda).
 - b. Effeithlonrwydd – Gwneud y gorau o'r mewnbynnau (neu gael llawer am yr ymdrechion).
 - c. Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau disgwyliedig o'r allbynnau (neu wneud y pethau iawn).

- 30 Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos y berthynas rhwng mewnbynnau, swyddogaethau, allbynnau a deilliannau.

Arddangosyn 1: deall y berthynas rhwng mewnbynnau, swyddogaethau, allbynnau a deilliannau



Ffynhonnell: Sefydliad Archwilio ac Atebolrwydd Canada

- 31 Mae meddu ar wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau'n galluogi cynghorau i reoli perfformiad yn effeithiol, i ddylanwadu ar y modd y maent yn defnyddio'u hadnoddau ac i ddeall a ydynt yn cyflawni'r amcanion y maent wedi'u pennu i'w hunain, yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Mae meddu ar yr wybodaeth hon yn helpu'r Cyngor i wybod a yw'n cyflawni gwerth am arian o'r modd y mae'n defnyddio'i hadnoddau.

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

- 32 Rydym yn derbyn bod datblygu mesurau deilliannau a deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n gallu bod yn gryn her. Ond byddem yn disgwyl i gynghorau fod yn gwneud mwy o gynnydd yn hyn o beth.
- 33 Rydym wedi nodi isod yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano o ran gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau.

Safbwynt defnyddwyr gwasanaethau

- 34 Roeddem am ganfod bod cynghorau'n defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad yn eu hadroddiadau ar berfformiad, a fyddai'n rhoi arwydd o farn defnyddwyr gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, ymhlith mathau eraill o wybodaeth, arolygon boddhad. Gall gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth, ac astudiaethau achos, ddarparu baromedrau o farn defnyddwyr gwasanaethau hefyd er nad yw'r rhain wastad yn rhoi darlun cynrychiolaidd o farn defnyddwyr gwasanaethau.
- 35 Gall fod mesurau dirprwy eraill a fyddai, gyda'i gilydd, yn helpu'r Cyngor i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, cost rhai gwasanaethau, amseroldeb ymatebion, gwybodaeth am gael mynediad at wasanaeth, data ynghylch lefelau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a allai, ar y cyd ag adborth uniongyrchol arall fel arolygon, helpu i greu darlun o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Ond roeddem hefyd am weld bod cyngor wedi defnyddio'r wybodaeth i ddarparu'r math hwnnw o ddadansoddiad.

Gwybodaeth am ddeilliannau

- 36 Roeddem yn chwilio am wybodaeth am berfformiad a fyddai'n helpu i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor. Roeddem am weld bod gan gynghorau fwy na dim ond llawer o wybodaeth am berfformiad a oedd yn ymwneud â mewnbynnau ac allbynnau.
- 37 Roedd arnom eisiau gweld adroddiadau ar berfformiad a oedd yn gwneud mwy na dim ond disgrifio'r hyn y mae cynghorau'n ei wneud, ac a oedd yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth ansoddol a meintiol am berfformiad i'w helpu i werthuso a yw'r hyn y maent yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth. Roedd arnom eisiau gweld bod yr wybodaeth hon am berfformiad yn cwmparu ystod eang o wasanaethau yn unol ag amcanion y Cyngor ac nad oedd yn canolbwyntio ar un neu ddau wasanaeth yn unig.

- 38 Roeddem hefyd yn chwilio am wybodaeth am berfformiad a oedd yn berthnasol i'r amcanion yr oedd y cynghorau wedi'u pennu i'w hunain, bod cynghorau wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r wybodaeth am berfformiad y maent yn ei chasglu ac yn ei defnyddio.
- 39 Mae cynghorau'n pennu eu hamcanion eu hunain, gan ystyried anghenion y gymuned, felly hwy sydd i bennu'r wybodaeth y maent yn ei defnyddio wedyn i ddeall sut y maent yn gwneud yn erbyn y rhain.
- 40 Rydym yn cydnabod bod mesur deilliannau yn aml, trwy ddiffiniad, yn anodd. Gall deilliannau gymryd amser i ddod yn amlwg felly roedd arnom eisiau gweld bod cynghorau'n archwilio sut y gallant werthuso'r deilliannau tymor byr a hwy. Gall deall deilliannau olygu hefyd ei bod yn ofynnol i gynghorau edrych ar wahanol ffynonellau gwybodaeth, gan wahanol sefydliadau – i fabwysiadu dull systemau cyfan. Byddem yn disgwyl i gynghorau, gan ddefnyddio eu hamcanion fel sail, ddeall yr hyn y maent yn ei olygu wrth ddeilliannau ac i fod wedi meddwl am yr wybodaeth y bydd ei hangen arnynt, i wybod a ydynt yn cyflawni'r amcanion hyn.
- 41 Roedd arnom eisiau gweld cynghorau'n defnyddio ystod o ffynonellau ar draws ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 42 Roeddem yn disgwyl gweld bod gan gynghorau drefniadau cadarn i wirio bod yr wybodaeth am berfformiad y maent yn ei defnyddio'n gywir, bod a wnelo hyn nid dim ond â holi data pan nad oedd perfformiad yn edrych yn gwbl gywir. Roeddem yn disgwyl i gynghorau allu dangos yn hyderus inni pa drefniadau oedd ganddynt i'w sicrhau eu hunain bod data'n gywir.
- 43 Roedd arnom eisiau canfod bod cynghorau wedi bod yn parhau i adolygu a gwella eu gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.
- 44 A hefyd, roedd arnom eisiau gweld bod cynghorau'n mynd ati i ddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau i fonitro cynnydd a gweithredu lle y bo angen i wella deilliannau.

Yr hyn a ganfuom

Heblaw am ychydig o gynghorau, cyfyngedig yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir gan gynghorau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall cynnydd tuag at y deilliannau y maent yn ceisio'u cyflawni, a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn rhwystr i allu cynghorau i wybod a ydynt yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian

- 45 Canfuom fod uwch arweinwyr yn aml yn cael llawer o wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud. Fodd bynnag, roedd hyn yn adlewyrchu safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau i raddau cyfyngedig iawn ac yn tanseilio gwerth adroddiadau cynghorau ar berfformiad. O ganlyniad, mae'n anodd gweld sut y mae cynghorau'n gwybod pa mor dda y maent yn gwario arian cyhoeddus.
- 46 Rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer pob cyngor yn eu hadroddiadau lleol felly nid ydym yn bwriadu ailadrodd y rhain yma. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau yn ein hadroddiad yn fwriadol yn weddol llwm o ystyried bod pwysigrwydd deall deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn cael ei bwysleisio am flynyddoedd ac felly ein bod wedi disgwyl canfod darlun mwy cadarnhaol nag a wnaethom.
- 47 Bydd ein timau'n gwneud gwaith dilynol i weld pa fath o gynnydd y mae cynghorau'n ei wneud wrth roi'r argymhellion yn eu hadroddiadau lleol ar waith. Byddem yn gobeithio gweld Cynghorau'n gwneud cynnydd pellach ar hyn dros y 12-18 mis nesaf.
- 48 Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi nodi goblygiadau ein canfyddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- 49 Isod ceir ein canfyddiadau allweddol sydd wedi'u nodi yn erbyn y themâu allweddol yn ein gwaith yn ogystal â rhai canfyddiadau ehangach.

Ychydig o wybodaeth am berfformiad oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau lle'r oedd safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn y cwestiwn

- 50 Canfuom ychydig o gynghorau a oedd yn ceisio gwneud safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n flaenllaw yn eu trefniadau adrodd ar berfformiad. Gallem weld eu bod wedi gwneud ymdrech fwriadus i adrodd ar wybodaeth a fyddai'n helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.
- 51 Ond i'r rhan fwyaf o gynghorau, canfuom mai ychydig iawn o wybodaeth oedd yn cael ei darparu ar gyfer uwch arweinwyr am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.
- 52 Roedd cryn dipyn o'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a ganfuwyd gennym yn tueddu i ganolbwyntio ar un neu ddau wasanaeth, yn bennaf gwasanaethau cymdeithasol. Gwelsom yn aml rai enghreifftiau da yn adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Efallai nad yw hynny'n syndod o ystyried y ffocws ar yr unigolyn sy'n ganolog i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 53 Roedd rhai cynghorau hefyd wedi defnyddio gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth ac astudiaethau achos i ddarparu mewnwelediad i safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd astudiaethau achos i raddau helaeth yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i enghreifftio profiad cadarnhaol. Felly, fel gwybodaeth am gwynion a chanmoliaeth, nid ydynt wastad yn rhoi darlun cynhwysfawr a chynrychiolaidd o berfformiad.
- 54 I fod yn glir, nid ydym yn dweud nad yw cynghorau'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Nid â hynny yr oedd a wnelo ein hadolygiad. Mae gan gynghorau strategaethau ymgysylltu a thrwy ein gwaith ar bennu amcanion llesiant, gwyddom fod rhai'n rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o gynnwys cymunedau lleol. Ond yr hyn yr oeddem yn ei chael hi'n anodd ei weld oedd bod cynghorau'n cysylltu hyn â'u hadroddiadau ar berfformiad ac yn gwneud y gorau o'r wybodaeth honno.
- 55 Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau'n golygu ei bod hi'n anodd gweld sut y byddai uwch arweinwyr yn gallu deall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau o'r wybodaeth am berfformiad a roddir iddynt, gwybodaeth sy'n allweddol i'w helpu i benderfynu a ydynt yn cyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.



Yn gyffredinol, roedd gwybodaeth cynghorau am berfformiad yn canolbwyntio ar allbynnau a gweithgareddau, yn hytrach nag effaith a deilliannau'r rhain

- 56 Yn y rhan fwyaf o gynghorau, canfuom rai enghreifftiau cyfyngedig o wybodaeth am berfformiad sy'n eu helpu i ddeall deilliannau eu gweithgareddau. Rydym yn derbyn y gall gymryd amser i weld deilliannau gweithgareddau, ond ni ddylai hyn atal cynghorau rhag adnabod sut y byddant yn gwybod a ydynt yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r deilliannau a ddymunir ganddynt.
- 57 Fe wnaethom nodi rhai cynghorau a oedd yn monitro mesurau deilliannau ehangach fel disgwyliad iechyd a chynnyrch domestig gros. Er eu bod yn cydnabod na allant reoli rhai o'r rhain yn uniongyrchol neu nad hwy yw'r unig gyfrannwr at y rhain, roeddent yn eu hystyried yn faromedrau defnyddiol i ddeall y darlun cenedlaethol a deilliannau ehangach. Roedd rhai cynghorau hefyd wedi datblygu mesurau a fyddai'n eu helpu i ddeall deilliannau gwasanaethau penodol.
- 58 Ond, ar y cyfan, roedd gwybodaeth yn canolbwyntio ar weithgareddau ac allbynnau, megis nifer y bobl a ddaeth i ddigwyddiad, neu fod adeilad newydd wedi agor, yn hytrach na gwybodaeth am effaith a deilliannau'r allbynnau hynny. Roedd hyn weithiau'n digwydd er bod canllawiau corfforaethol cynghorau'n tanlinellu'r angen i wasanaethau gyfleu'r gwahaniaethau yr oeddent yn eu gwneud.
- 59 Yn aml, nid oedd adroddiadau ar berfformiad ond yn disgrifio'r hyn yr oedd y cyngor wedi ei wneud neu'r hyn yr oedd wrthi'n ei wneud, yn hytrach na gwerthuso'r gwahaniaethau yr oedd gweithgareddau'n ei wneud. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor ac asesu pa un a yw'n cyflawni ei amcanion ar y cyfan. Yn arwyddocaol, mae hefyd yn rhwystr i allu cynghorau i ddeall a ydynt yn cyflawni gwerth am arian.



Nid oedd gwybodaeth am berfformiad yr adroddid arni wastad yn berthnasol i amcanion y cynghorau

- 60 Yn aml mae gan gynghorau amcanion sy'n uchelgeisiol ac yn llawn bwriadau da, megis gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol. Ond gall yr amcanion fod yn weddol amwys. Roeddem yn ei chael hi'n anodd gweld sut yr oedd yr wybodaeth am berfformiad yr oedd cynghorau'n adrodd arni o gymorth gwirioneddol iddynt wybod a oeddent yn cyflawni eu hamcanion neu'r deilliannau bwriadedig.
- 61 Mae hyn yn gyson â chanfyddiad ein gwaith ar bennu amcanion llesiant nad oes gan gynghorau fesurau priodol a strategol i ddeall a ydynt yn cyflawni eu hamcanion llesiant fel a fwriadwyd. Rydym wedi bod yn tanlinellu pwysigrwydd hyn am beth amser.
- 62 Mae cynghorau wedi tueddu i ddal i adrodd ar yr un mathau o wybodaeth am berfformiad ag y maent wastad wedi adrodd arnynt yn hytrach na chynnal adolygiad sylfaenol o werth yr wybodaeth y maent yn adrodd arni. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod cynghorau'n buddsoddi adnoddau mewn adrodd ar wybodaeth nad yw wastad yn dweud wrthynt yr hyn y maen arnynt angen ei wybod.



Cyfyngedig oedd y trefniadau a oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau i wirio cywirdeb eu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau

- 63 Y trefniadau a oedd gan gynghorau'n aml oedd bod swyddogion yn gwirio synnwyr data cyn adrodd arno, i holi data lle adnabuwyd unrhyw anghysonderau mewn perfformiad. Gallai hyn gynnwys gwirio a oedd data'n gywir. Fodd bynnag, os oedd perfformiad yn aros yr un fath, nid oedd y Cyngor yn gwirio cywirdeb y data, ond gallai'r data sylfaenol fod wedi bod yn anghywir am beth amser.
- 64 Roedd gan rai cynghorau drefniadau a oedd yn darparu elfen o drylwyrdd o ran sut yr oeddent yn casglu ac yn mewnbynnu eu data. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau a oedd yn nodi'r diffiniad o'r mesur a sut y dylid ei gyfrifo.
- 65 Nid oedd gwasanaethau Archwilio Mewnol rhyw lawer o gynghorau wedi cynnal adolygiadau o ansawdd data'n ddiweddar.

- 66 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau'n 'ymddiried' yn eu swyddogion i wybod eu data. Ond nid oedd rhyw lawer o gynghorau'n gallu dangos bod ganddynt drefniadau rheolaidd a chadarn i wirio cywirdeb unrhyw ddata ynghylch defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau yr oeddent yn adrodd arno.
- 67 Eto mae cynghorau'n defnyddio'r data yma i helpu i lywio'u penderfyniadau ynglŷn â sut y byddant yn defnyddio eu hadnoddau. Felly, ceir risg y gall cynghorau fod yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.
- 68 Gwyddom nad yw rhai cynghorau wedi croesawu'r canfyddiad hwn, sy'n gwneud niwed i'w henw da yn eu tyb hwy. Mae'n bwysig nodi nad ydym wedi adolygu cywirdeb y data y mae cynghorau'n adrodd arno, felly nid ydym yn dweud bod y data'n anghywir. Rydym yn amlygu risg bwysig. Cynghorau sydd i benderfynu a ydynt yn hapus i oddef y risg hon. Byddem yn gobeithio eu bod yn ystyried sut y gallant gryfhau eu trefniadau i leihau'r risg hon i'r eithaf.

Goblygiadau ar gyfer cynghorau'n fwy eang

- 69 Er nad oedd a wnelo'r adolygiad â threfniadau rheoli perfformiad cynghorau fel y cyfryw, mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau hynny.
- 70 Mae'n anodd gweld sut y mae rhai cynghorau'n mynd ati'n effeithiol i reoli perfformiad os nad ydynt yn adrodd ar wybodaeth am ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn tanseilio atebolrwydd am berfformiad. O ystyried rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'n codi amheuaeth pa un a oes gan gynghorau drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio eu hadnoddau.
- 71 Roedd cynghorau'n aml yn dangos systemau soffistigedig inni a ddefnyddir ganddynt i gyflwyno a monitro'r wybodaeth, ond nid oes a wnelo â'r systemau, yn hytrach mae a wnelo ag ansawdd ac amrywiaeth yr wybodaeth am berfformiad sy'n eu tanategu.

- 72 Mae timau corfforaethol neu ganolog, sy'n aml yn cael eu hystyried fel y rhai â chyfrifoldeb ar y cyfan am wybodaeth am berfformiad, wedi ysgwyddo cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau eraill. Mae'r lle a'r capasiti i feddwl ac adolygu wedi cael ei leihau.
- 73 Ni ddylid ystyried bod ein canfyddiadau'n feirniadaeth o dimau corfforaethol. Nid un tîm neu unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynghorau'n adrodd ar wybodaeth gadarn am berfformiad sy'n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Mae a wnelo â diwylliant sefydliadol a bod ag ethos drwy'r sefydliad cyfan i ganolbwyntio ar ddealltwriaeth well am ddeilliannau a barn defnyddwyr gwasanaethau.
- 74 Er enghraifft, i aelodau herio os nad yw'r wybodaeth y maent yn ei chael yn eu helpu i ddeall deilliannau gweithgareddau'r cynghorau. A yw'r wybodaeth am berfformiad yn eu galluogi i ddeall yr hyn y mae pobl yn ei feddwl o'r gwasanaethau y maent yn eu cael? A yw'r wybodaeth yn berthnasol i'r blaenoriaethau a'r amcanion y maent wedi cytuno arnynt? I ofyn y cwestiwn 'felly beth?'.
- 75 Rydym yn derbyn y gall hyn fod yn anodd yn wleidyddol ac yn sefydliadol. Gall deall yr hyn y mae'r wybodaeth hon yn ei ddweud wrth uwch arweinwyr olygu bod angen iddynt wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y maent wastad wedi darparu eu gwasanaethau. Nid yw hi wastad yn sefyllfa gyfforddus i uwch arweinwyr fod ynddi.
- 76 Trwy ein gwaith, rydym yn awyddus i geisio ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella. Mae ein hadroddiadau lleol yn darparu nifer fach o enghreifftiau o arferion y gall fod gan eraill ddiddordeb yn eu harchwilio.
- 77 Rydym yn cydnabod nad yw hi'n hawdd datblygu mesurau sy'n ymwneud â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Caiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn y ffaith ein bod wedi ei chael hi'n anodd canfod ystod o enghreifftiau i gyfeirio cynghorau atynt. Ond ni ddylai bod heb arfer da i gyfeirio ato atal cynghorau rhag gwneud mwy i wella'u trefniadau. Hoffem weld cynghorau'n cydweithio ac yn gweithio trwy asiantaethau fel CLILC i archwilio sut y gallant gryfhau lefel ac ansawdd yr wybodaeth y maent yn ei darparu. Er enghraifft, cydweithio i ddatblygu mesurau lle mae ganddynt amcanion tebyg, megis mewn perthynas â threchgu tlodi.

- 78 Pe bai cynghorau'n dechrau â dalen lân i benderfynu pa wybodaeth am berfformiad y mae ei hangen arnynt i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau eu gweithgareddau, mae'n annhebygol y byddent yn syml yn defnyddio'r un wybodaeth ag y maent yn adrodd arni yn awr.
- 79 Ni all cynghorau fesur popeth yn llwyr. Mae angen iddynt ddefnyddio'u hamcanion fel sail, i ddeall beth maent yn ei olygu wrth yr amcanion hyn a rhoi ystyriaeth wirioneddol i ddatblygu ystod o ddangosyddion perfformiad, a fydd yn eu helpu i wybod a ydynt yn cyflawni'r rhain. Gall fod a wnelo hyn â defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys partneriaid, i helpu cynghorau i fod â golwg gyflawn ar berfformiad. Efallai nad dim ond mesurau neu wybodaeth am berfformiad y gallant eu rheoli fydd y rhain. Gallent fod yn fesurau ehangach o lawer (megis disgwyliad iechyd, cynnyrch domestig gros) sy'n berthnasol i'w hamcanion ac yn ddefnyddiol i'w monitro.

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru

- 80 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae cyfundrefn berfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau'n seiliedig ar yr egwyddor bod cynghorau'n sefydliadau sy'n hunanwella, y byddant yn cefnogi gwelliant ac yn ysgogi deilliannau gwell trwy hunanasesiadau ac asesiadau panel o berfformiad. Mae'r Canllawiau Statudol ar berfformiad a threfniadau llywodraethu prif gynghorau¹ yn cynnwys y 'dylai'r hunanasesiad ganolbwyntio ar ganlyniadau, yr hyn a gyflawnwyd yn hytrach na'r broses, a gofyn cwestiynau gonest am effaith gweithredoedd y cyngor ar fywydau a phrofiadau pobl.'
- 81 Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn codi cwestiynau ynglŷn â gwerth a chadernid hunanasesiadau cynghorau, ac i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ddibynnu arnynt i ddeall sut y mae cynghorau'n perfformio.
- 82 Un o'r rhwystrau a enwyd yn aml wrthym ni gan gynghorau i egluro pam fod ganddynt wybodaeth gyfyngedig am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau oedd diffyg setiau data Cymru gyfan ar berfformiad. Nid yw Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol mwyach i gynghorau gasglu set gyffredin o fesurau ac adrodd arni.
- 83 Ni wnaeth ein hadolygiad ystyried a oedd cynghorau'n cymharu eu perfformiad fel y cyfryw. Fe wnaethom roi mwy o ystyriaeth i'r cwestiwn a oeddent yn ceisio dysgu o'r ffordd y mae cyrff eraill yn adrodd ar y math yma o wybodaeth am berfformiad i'w helpu i gryfhau eu trefniadau eu hunain.
- 84 Serch hynny, mae'r diffyg mesurau cymaradwy'n ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru ddeall y darlun ar y cyfan o ran perfformiad, i weld sut y mae cynghorau'n cymharu. Yn bwysig, i ddeall sut y mae cynghorau'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol. Cynghorau sy'n gyfrifol am gymharu perfformiad. Rydym wedi gwneud sylwadau'n flaenorol nad yw cynghorau wir yn gwneud hyn.
- 85 Nid ydym yn dweud bod angen i Lywodraeth Cymru adfer dangosyddion perfformiad cenedlaethol, ond mae angen iddi fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r wybodaeth am berfformiad y mae cynghorau'n adrodd arni ar hyn o bryd.

1 Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau. Canllawiau statudol ar ran 6. Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021



Atodiadau

- 1 Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae’r tabl isod yn nodi’r cwestiwn yr oeddem yn ceisio’i ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â’r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Lefel 1	
A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?	
Lefel 2	Meini Prawf Archwilio ² (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)
2.1 A yw’r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?	- Mae’r wybodaeth: - yn berthnasol i’r amcanion y mae’r Cyngor wedi’u pennu i’w hunan; - yn ddigonol i’w gwneud yn bosibl deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau; - yn ddigonol i ddarparu dealltwriaeth am gynnydd tuag at y deilliannau y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni; - yn dod oddi wrth yr amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac - yn cael ei defnyddio i oleuo cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg lle y bo’n berthnasol. - Mae’r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i’w chasglu.

2 Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronnus am waith archwilio blaenorol, yn ogystal â’r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi’u datblygu i ategu ein harchwiliadau o’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Lefel 1

A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?

Lefel 2
Meini Prawf Archwilio²
(yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)

2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ddeilliannau gweithgareddau'r Cyngor?

- Mae'r wybodaeth yn dod o ystod o ffynonellau tystiolaeth i ddarparu golwg hollataidd ar gynnydd.
- Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, canolig a hir.
- Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r modd y cyflawnir deilliannau sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth a/neu sefydliadau.

2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?

- Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu ar gyfer uwch arweinwyr.
- Lle adnabyddir gwendidau yn ansawdd y data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy.

2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau?

- Lle adnabyddir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.
- Ceir tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau o ganlyniad i ymyriadau.

2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

- Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.
- Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i adnabod cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.